



**Adroddiad Terfynol
y Prosiect Hyrwyddo Gweithleoedd
Dwyieithog**

Mawrth 2007

Cwmniaith

Parc Busnes Aberarad
Castellnewydd Emlyn
Sir Gaerfyrddin
SA38 9DB

Ffôn: 01239 711668
post@cwmni-iaith.com
www.iaith.eu

Awduron:

Steve Eaves
gyda Dr Kathryn Jones, Gareth Ioan a Rhys Dafis

Mae'r cwmni a'r awduron yn arddel eu hawl arferol
i gael eu cydnabod pan ddyfynnir o'r adroddiad hwn.

Comisiynwyd gan:
Bwrdd yr Iaith Gymraeg,
Siambrau'r Farchnad, 5-7 Heol Eglwys Fair, Caerdydd, CF10 1AT
Ffôn: 02920 878000
www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

CYNNWYS

Rhestr atodiadau

ADRAN 1 : SEFYDLU A GWEITHREDU'R PROSIECT

1. **Cyflwyniad : Amcan y prosiect**
2. **Trefniadau sefydlu a rheoli'r prosiect**
3. **Diffiniad o weithle dwyieithog**
4. **Asesiad o'r sefyllfa gyfredol / arferion o fewn HGC a CSC ar ddechrau'r prosiect, o ran defnydd staff a'r sefydliad o'r Gymraeg**
5. **Y modd yr aed ati i adnabod cyfleoedd i'r cyfranogwyr gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle**
6. **Mentrau arbrofol y ddau gorff, a'r trefniadau cefnogol iddynt**
7. **Yr hyn a ddysgwyd o brofiadau Heddlu Gogledd Cymru a Chyngor Sir Ceredigion**
8. **Argymhellion i Heddlu Gogledd Cymru a Chyngor Sir Ceredigion ar wreiddio dylanwad y prosiect**

ADRAN 2: AGWEDDAU AR Y CYD-DESTUN EHANGACH

9. **Gwersi i'w dysgu gan gyrrff sydd eisoes yn gweinyddu yn y Gymraeg**
10. **Datblygiadau a chymariaethau rhyngwladol o ran datblygu gweithleoedd dwyieithog**
11. **Ystyriaeth o elfennau perthnasol – recriwtio; hyfforddiant; TG – gan nodi'r sefyllfa bresennol a thueddiadau i'r dyfodol**
12. **Amlinelliad o'r sefyllfa gyfreithiol**

ADRAN 3: ARGYMHELLION - LLEDU DYLANWAD Y PROSIECT

13. **Ystyriaeth o'r adnoddau y bydd eu hangen i newid arferion mewn gwahanol sefyllfaoedd**
14. **Argymhellion ehangach i'r Bwrdd ynglŷn â sut i ddatblygu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn gweithleoedd.**

Rhestr atodiadau

- Atodiad 1** Tuag at ddiffiniad o weithleoedd dwyieithog
- Atodiad 2(i)** Cofnod o arferion iaith dechreuol grwpiau prosiect Cyngor Sir Ceredigion, Ebrill 2006
- Atodiad 2(ii)** Cofnod o arferion iaith dechreuol grwpiau prosiect Heddlu Gogledd Cymru, Mai 2006
- Atodiad 3** Gwahoddiad a Rhaglen i Ddiwrnod Gweithdai / Lansiad y Prosiect
- Atodiad 4** Nodiadau briffio i Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion a Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru ar achlysur lansio'r prosiect
- Atodiad 5** Arfau hwyluso ar gyfer y sesiynau gweithdai ar ddiwrnod lansio'r prosiect
- Atodiad 6** Ffurflen Asesu Risg y Mentrau Strategol
- Atodiad 7(i)** Cofnod o fentrau datblygu unigolion a mentrau'r grwpiau, Cyngor Sir Ceredigion
- Atodiad 7(ii)** Cofnod o fentrau datblygu unigolion a mentrau'r grwpiau, Heddlu Gogledd Cymru
- Atodiad 8** Cyfres o negeseuon e-bost cadarnhaol a negeseuon codi ymwybyddiaeth i staff
- Atodiad 9** Rhaglen ymweld â Chyngor Gwynedd
- Atodiad 10** Adroddiad ar gynnydd y mentrau strategol
- Atodiad 11** Adroddiad ar Ran 2 y prosiect – Gwerthuso gweithrediad

Adran 1: Sefydlu a gweithredu'r Prosiect

1.0 Cyflwyniad: Amcan y prosiect

- 1.1. Prosiect a gynhaliwyd ar ran Bwrdd yr Iaith Gymraeg rhwng Tachwedd 2005 ac Ebrill 2007 yw'r Prosiect Hyrwyddo Gweithleoedd Dwyieithog ('y prosiect').
- 1.2. Disgrifiodd y Bwrdd amcan y prosiect yn nogfen briff y prosiect, fel a ganlyn:

"Amcan

Mae'r Bwrdd am gael adroddiad ar sut i ddatblygu cyfleoedd ymarferol i weinyddu'n ddwyieithog, hyn yn seiliedig ar ddwy astudiaeth achos manwl. Bydd y ddwy astudiaeth achos hyn yn gosod cyfeiriad ac yn rhoi hwb i ddau gorff sydd am gynnal gweinyddiaeth ddwyieithog fewnol llawnach ac o safon uchel - gwaith na fyddai yn digwydd ar yr un raddfa na chyflymder heb y prosiect. Bydd cyfle i gyrff eraill fanteisio o'r prosiect hwn drwy elwa o'r profiad a'r wybodaeth gaiff ei gasglu ar ffurf yr adroddiad terfynol.

Bydd gofyn cydweithio'n agos efo'r 2 gorff cyhoeddus i ddatblygu eu gallu i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg gan roi sylw i:-

- *Diwylliant gweinyddol y corff*
- *Iaith hyfforddiant mewnol y corff*
- *Gweithio ar bapur*
- *Gweithio ar lafar*
- *Adnoddau a chyingor proffesiynol*

Bydd y prosiect yn un arbrofol a rhoddwn bwys ar elfen greadigol y gwaith. Bydd hefyd angen bod yn rhagweithiol, a rhoi gwaith ar fynd. Bydd gofyn cyflwyno argymhellion a chymau ymarferol i'r 2 gorff, ac yn fwy cyffredinol i'r Bwrdd, a chyrrff eraill, o ran sut i ddatblygu gweithleoedd dwyieithog. Gwneir hyn fel rhan o'r adroddiad terfynol i'r prosiect."

- 1.3. Y ddau gorff cyhoeddus a ddewiswyd ac a gytunodd i fod yn destun y ddwy astudiaeth achos fanwl oedd **Heddlu Gogledd Cymru** (HGC) a **Chyngor Sir Ceredigion** (CSC).
- 1.4. Wrth ddewis y ddau gorff hyn roedd y Bwrdd yn ymwybodol:
 - bod y ddau gorff ar fin mabwysiadu Cynlluniau Iaith diwygiedig a fyddai'n cynnwys cyfeiriadau at y nod o gynyddu defnydd mewnol y Gymraeg yn eu gweinyddiaeth;
 - bod gweithleoedd y ddau gorff yn cynnwys canran ddigon sylweddol o siaradwyr Cymraeg a/neu ddysgwyr y Gymraeg i'w galluogi i ehangu ar batrymau defnydd iaith cyfredol ac ychwanegu atynt;
 - bod y ddau gorff yn gwasanaethu ardaloedd lle mae cyfran helaeth o'r boblogaeth yn siaradwyr Cymraeg, ac y gallai deilliannau'r prosiect gynnig 'gwerth ychwanegol' drwy godi hyder staff ac ehangu eu harferion defnydd iaith yn eu hymwneud â darparu gwasanaethau;
 - bod y ddau gorff yn cynrychioli amrywiaeth o ardaloedd daearyddol a sefyllfaoedd;

- bod sefyllfaoedd gwaith a lefelau hyfedredd a hyder digon amrywiol a chynrychioladol o fewn y ddau gorff i sicrhau y byddai deilliannau'r prosiect yn berthnasol a defnyddiol i amrediad eang o gyrff eraill.

2.0. Trefniadau sefydlu a rheoli'r prosiect

- 2.1. Bu Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn trafod strwythur y prosiect, ei amcanion strategol a'r deilliannau bwriedig ag Uwch Reolwyr y ddau sefydliad, gan gynnwys Prif Weithredwr CSC a Phrif Gwnstabl HGC. Rhoddodd y Bwrdd gyflwyniadau pwrpasol i'r perwyl hwn, a chafwyd cydsyniad a dealltwriaeth ar lefel reoli uchaf y ddau sefydliad.
- 2.2. Gosodwyd y contract am reoli, gweinyddu a hwyluso'r prosiect trwy broses dendro gyhoeddus. Bu cynrychiolwyr y ddau gorff yn aelodau o banel dyfarnu'r contract, a dyfarnwyd y contract i Gwmni Iaith.
- 2.2. Yn fuan wedi dyfarnu'r contract, sefydlwyd **Pwyllgor Llywio**, gyda chynrychiolwyr o Fwrdd yr Iaith Gymraeg, Heddlu Gogledd Cymru, Cyngor Sir Ceredigion, Cwmni Iaith a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn aelodau ohono, i lywio'r prosiect yn strategol ac i dderbyn adborth ac adroddiadau gan Gwmni Iaith a chan y ddau gorff am weithrediad y prosiect wrth iddo fynd rhagddo.
- 2.3. Sefydlodd pob un o'r ddau gorff **Weithgor** i drefnu a chydlynu gwaith y prosiect yn fewnol; trefnu a chydlynu dulliau o gefnogi a hwyluso'r prosiect derbyn ac ymateb i gofnodion Bwyllgor Llywio'r Prosiect a chyflwyno adborth i'r Pwyllgor Llywio am weithrediad y prosiect.
- 2.4. O dan y prosiect, enwebwyd cyfranogwyr o 3 -4 uned wasanaeth ym mhob un o'r ddau gorff i ymgymryd â mentrau arbrofol i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg yn eu gweithleoedd.
- 2.5. Ceisiwyd dewis Unedau Gwasanaeth amrywiol i gymryd rhan yn y prosiect – hynny yw, amrywiol o ran cynrychioli:
 - amrediad o sgiliau cyfathrebu sy'n ofynnol mewn gwahanol swyddi;
 - nifer/canran y siaradwyr/ysgrifenyddwyr Cymraeg
 - natur a graddau'r arferion iaith cyfredol
 - peuoedd newydd posibl.
- 2.6. Y ddau gorff eu hunain a enwebodd yr unedau ar sail y canllawiau a gawsant gan Fwrdd yr Iaith. Trafodwyd yr enwebiadau hynny gan y Pwyllgor Llywio, a'u derbyniodd fel rhai addas i weithredu yn ôl amcanion y prosiect. Yr Unedau Gwasanaeth a enwebwyd ar gyfer cynnal y mentrau arbrofol oedd:

O fewn Heddlu Gogledd Cymru :

- i. CANOLFAN ALWADAU, YR ADRAN CYFATHREBIADAU GWEITHREDOL (OCD), Llanelwy : dyma ganolfan alwadau HGC i Ogledd Cymru i gyd. Dros 100 o ddesgiau staff yn derbyn nifer fawr o alwadau bob wythnos. *Uwch Swyddog cyswllt : Rheolwr Busnes yr Adran Gweithrediadau.*
- ii. YR ADRAN GWEINYDDU CYFIAWNDER :
Enwebwyd dwy adain wasanaeth o fewn yr adran hon, sef

Adroddiad Terfynol y Prosiect Hyrwyddo Gweithleoedd Dwyieithog

- a. Y dalfeydd, Rhanbarth y Gorllewin: derbyn carcharorion, eu holi, eu cadw a gofalu amdanynt; derbyn ymwelwyr â nhw. *Uwch Swyddog cyswllt : Rheolwr y Dalfeydd*
- b. Y Swyddfa Docynnau Ganolog, Prestatyn : yn prosesu tocynnau cosb a gohebiaeth gysylltiedig; derbyn ymholiadau. *Uwch Swyddog cyswllt : Rheolwr Polisi ac Ymchwil*
- iii. Y RHANBARTH GORLLEWINOL: Pencadlys y Rhanbarth, Caernarfon; Swyddfeydd y Felinheli a Pharc Menai, Bangor .
Uwch Swyddog cyswllt : Y Prif Uwch-arolygydd, Pennaeth y Rhanbarth Gorllewinol.

O fewn Cyngor Sir Ceredigion

- i. ADRAN Y PRIFFYRDD: staff gweinyddol a chanolfan alwadau yr adran ym mhrif swyddfa'r adran yn Aberaeron.
Uwch Swyddog cyswllt : Uwch Swyddog Adran Priffyrdd
- ii. ADRAN BERSONÉL AC ADRAN Y PRIF WEITHREDWR: Cynorthwywyr Personél a Swyddogion eraill yn Adran y Prif Weithredwr
Uwch Swyddog cyswllt : Rheolwr yr Adran Bersonél
- iii. CANOLFAN GYSWLLT, ADRAN GWASANAETHAU CYMDEITHASOL : sef canolfan alwadau ffôn yr Adran, lle y derbynnir galwadau ffôn cyntaf y cyhoedd a'u cyfeirio at y gwasanaethau priodol.
Uwch Swyddog cyswllt : Rheolwr Gweithrediadol

2.6. Neilltuwyd 4 mis cyntaf y prosiect yn gyfnod sefydlu. Yn ystod y cyfnod hwnnw bu Cwmni Iaith yn ymgynghori ag uwch reolwyr y ddau sefydliad i drafod nod ac amcanion strategol y prosiect a sefydlu cyd-ddealltwriaeth dda am ddulliau rhedeg a chynnal y prosiect.

2.7. Yn ogystal, bu'r Cwmni'n ymgynghori â'r cyfranogwyr a'u rheolwyr yn eu gweithleoedd i dderbyn gwybodaeth a dysgu am ddiwylliant y gweithleoedd hynny a diwylliant mewnol y ddau gorff yn gyffredinol. Parhawyd i drafod ac ymgynghori â chynrychiolwyr yr Unedau drwy gydol oes y prosiect yng nghyfarfodydd Gweithgorau pwrpasol y ddau gorff. Yn gefndir ac yn gyd-destun i'r rhaglen ymgynghori hon, buwyd yn ymchwilio i Gynlluniau Iaith Gymraeg statudol y ddau gorff ac unrhyw agweddau polisi eraill a fyddai'n berthnasol i'r prosiect. Trafodir yr agwedd hon ymhellach yn adran 4 yr adroddiad.

2.8. Roedd y rhaglen ymgynghori'n cynnwys yn benodol hefyd:

- Cyfarfodydd rheolaidd â phrif Swyddogion Cyswllt y prosiect yn y ddau sefydliad.
- Cyfres o gyfarfodydd unigol â Phenaethiaid / Rheolwyr Llinell pob grŵp staff.
- Cyfarfodydd ag undebau llafur perthnasol yn y 2 sefydliad.
- Cyfarfodydd â chynrychiolwyr y 2 Uned Gyfieithu fewnol.
- Cyfarfodydd â swyddogion TGCh yn y 2 sefydliad.

- Cyfarfodydd â Swyddogion Marchnata / Cysylltiadau Cyhoeddus y 2 sefydliad.
 - Cyfarfodydd â'r cyfranogwyr ac ymweliadau â'u gweithleoedd.
 - Cyfarfod â Phennaeth Adran Personél HGC (roedd Adran Personél CC yn cymryd rhan yn y prosiect).
 - Cyfarfod â Thîm Rheoli Adran Gwasanaethau Cymdeithasol CC.
 - Cyfarfod ag Arweinydd a Phrif Weithredwr CC.
 - Mynychu cyfarfodydd Gweithgorau'r 2 sefydliad.
- 2.9. Roedd sawl diben i'r ymgynghori uchod. Yn gyntaf oll roedd yn bwysig o ran sefydlu perthynas weithiol dda â'r cyfranogwyr, eu rheolwyr a rhai a fyddai mewn sefyllfa i hwyluso a chefnogi gweithrediad y prosiect. Yn ail, roedd hi'n bwysig sicrhau dealltwriaeth dda o amcanion y prosiect a disgwyliadau'r ddau gorff a'r Pwyllgor Llywio o'r holl gyfranogwyr a chyfranwyr. Barnwyd y byddai ymgynghori helaeth a chyson yn fodd hefyd i feithrin ymdeimlad o berchenogaeth ar y prosiect ac ymdeimlad o gydymdrechu a chydweithio dros gynyddu defnydd y Gymraeg ymhlith pawb a allai gyfrannu at ei lwyddiant. Wrth reswm, bu'r ymgynghori'n fodd hefyd i sicrhau tryloywder y prosiect ac ennyn diddordeb ynddo ymhlith staff eraill.

3.0. Diffiniad o weithle dwyieithog

- 3.1. Ar ddechrau cyfnod y prosiect bu'r Pwyllgor Llywio a'r ddau Weithgor yn trafod a chytuno ar ddiffiniad o'r hyn a olygid wrth 'weithleoedd dwyieithog' i ddibenion y prosiect, sef diffiniad a fyddai'n cynnig fframwaith ar gyfer gweithredu'r prosiect o fewn y ddau gorff dan sylw, yn ogystal â bod yn ddefnyddiol i'r Bwrdd fel man cychwyn ar gyfer trafod trywydd tebyg â chyrrff eraill yn y dyfodol.
- 3.2. Er bod y prosiect yn anelu at estyn cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r peuoedd lle y defnyddir hi i wasanaethu'r cyhoedd yn unol â gofynion Cynllun Iaith statudol, buan y sylweddolwyd bod yna gryn orgyffwrdd rhwng defnydd y Gymraeg i ddibenion darparu gwasanaeth, a defnydd y Gymraeg yn y weinyddiaeth a'r sefyllfaoedd cefnogol sy'n gefn i'r ddarpariaeth honno. Er enghraifft, os yw swyddog yn treulio cyfran sylweddol o'i oriau gwaith yn darparu gwasanaethau i'r cyhoedd, yna, bydd y cyfleoedd iddo/i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn ddibynnol i ryw raddau ar y gallu i gryfhau defnydd y Gymraeg mewn sefyllfaoedd gwasanaethol o'r fath, yn ogystal ag wrth weinyddu'n fewnol, wrth ymwneud â'r sefydliad yn fewnol ac wrth gyfathrebu'n anffurfiol â chyd-aelodau staff yn fewnol.
- 3.3. Gan hynny, cytunwyd ar ddiffiniad seiliedig ar ddwy wedd ar weithleoedd dwyieithog:
- y gyntaf yn seiliedig ar fwriad i normaleiddio dwyieithrwydd o fewn diwylliant mewnol a gweithdrefnau'r sefydliad,
 - a'r ail yn seiliedig ar gyswllt y sefydliad â'i gyhoedd ac effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y modd y darperir ei wasanaethau yn ddwyieithog.
- 3.4. Cytunwyd ar y diffiniadau canlynol o'r ddwy wedd hyn:

- a) Amgylchiadau sy'n caniatáu dewis iaith i weithwyr y sefydliad wrth:
- (i) weithredu eu swyddi eu hunain,
 - (ii) derbyn gwasanaethau a gwybodaeth gan y sefydliad, ac wrth
 - (iii) gymdeithasu'n anffurfiol ag eraill o fewn y sefydliad.
- b) Gallu digonol i ymateb i gyswllt â'r cyhoedd yn yr iaith wreiddiol (boed Gymraeg neu Saesneg) heb gymorth cyfryngwr, e.e. cyfieithydd, ar lafar ac yn ysgrifenedig.

- 3.5. Cytunwyd hefyd y gall y term 'dwyieithog' gwmpasu ystod eang o raddau o ddefnydd y Gymraeg a'r Saesneg, ac ystod eang o allu mewn sgiliau siarad, deall, darllen ac ysgrifennu Cymraeg.
- 3.6. Yn **Atodiad 1** atgynhychir yn ei grynsyth y papur trafod 'Tuag at ddiffiniad o weithleoedd dwyieithog' a baratowyd i hwyluso trafodaeth ac ystyriaeth o'r agweddau cyd-destunol ar ddiffinio gweithleoedd dwyieithog.

4.0. Asesiad o'r sefyllfa gyfredol / arferion o fewn HGC a CSC ar ddechrau'r prosiect, o ran defnydd staff a'r sefydliad o'r Gymraeg

Cyffredinol

- 4.1. Ar ddechrau cyfnod y prosiect casglwyd gwybodaeth gefndir am arferion defnydd iaith o fewn HGC a CSC yn gyffredinol, gan ymgyswllt hefyd â'r fframwaith polisi a fynegir ganddynt yn eu Cynlluniau Iaith Gymraeg statudol. Cafwyd sesiynau briffio gan swyddogion cyswllt y ddau gorff, cyfranogwyr y prosiect a swyddogion allweddol eraill i adnabod arferion defnydd iaith.
- 4.2. Yn ogystal, derbyniwyd copiâu o swydd ddisgrifiadau'r holl staff dan sylw, er mwyn cael cofnod o ofynion ieithyddol presennol eu swyddi yn ôl eu cytundebau cyflogaeth ffurfiol.
- 4.3. I ategu'r wybodaeth hon, cytunwyd gyda Gweithgor CC a Gweithgor HGC y byddai arferion iaith y staff sy'n cymryd rhan y prosiect yn cael eu hadnabod a'u cofnodi gan y staff eu hunain mewn sesiynau gweithdai. Crynhoir y cofnod hwnnw yn **Atodiadau 2(i) a 2(ii)**.
- 4.4. Roedd cyd-destun cyffredinol y patrymau defnydd iaith yn y ddau le wedi ei osod gan yr ymrwymadau a'r disgwyliadau polisi. O fewn CSC roedd yr ymrwymadau a'r disgwyliadau hynny yn ymwneud â darparu gwasanaethau yn unol â gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg. Hynny yw, roedd y pwyslais ym meddyliau'r staff ar ddarparu gwasanaethau dwyieithog i'r cyhoedd, sef y defnyddiwr/cwsmer allanol, yn ôl ei ddewis iaith. Tra bod Rhan 1 y prosiect yn mynd rhagddo, roedd CSC wrthi'n terfynoli ei Gynllun Iaith diwygiedig drafft ac roedd y Cynllun hwnnw'n cynnwys cyfeiriad at ddatblygu defnydd y Gymraeg yng ngweinyddiaeth fewnol yr awdurdod. Fodd bynnag, ar adeg lansio'r prosiect roedd y Cynllun diwygiedig drafft mor newydd fel nad oedd neb o'r cyfranogwyr a holwyd yn ymwybodol o'r disgwyliadau newydd ynddo

ynghylch patrymau defnydd iaith staff. Ar wahân i'r Cynllun Iaith, nid oedd gan y Cyngor unrhyw brotocol ysgrifenedig na pholisi corfforaethol arall ar ddefnydd iaith, ar wahân i 'arferiad' mewnol anysgrifenedig o sicrhau wrth benodi rhai prif swyddogion eu bod yn ddwyieithog.

- 4.5. Fodd bynnag, mae CSC yn gwasanaethu ardal a ystyrir yn un o'r ardaloedd Cymreiciaf yn draddodiadol. Yn ôl y Cyfrifiad diwethaf, roedd gan 61.2% (n.= 44,635) o boblogaeth y Sir wybodaeth o'r Gymraeg (sef o leiaf un sgil defnydd iaith), ac roedd 44.1% (n.= 32,147) yn gallu siarad, darllen ac ysgrifennu'r iaith.¹ Hefyd mae CSC wedi etifeddu traddodiad ei ragflaenwyr o ddefnyddio'r Gymraeg fel prif iaith cyfarfodydd yr Aelodau etholedig, ac ar ddechrau cyfnod y prosiect roedd canran uchel o staff CSC yn siaradwyr Cymraeg naturiol a arferai'r Gymraeg yn eu hymwneud anffurfiol a chymdeithasol â'i gilydd yn y gweithle yn ogystal ag yn eu cymunedau a'u teuluoedd. Yn ogystal roedd amryw o aelodau Tîm Rheoli CSC yn siaradwyr Cymraeg, gan gynnwys y Prif Weithredwr, y Prif Swyddog Gweinyddol a Phrif Swyddog Cyfreithiol y Sir.
- 4.6. Roedd y mwyafrif o gyfranogwyr y prosiect yn siaradwyr Cymraeg rhugl a'r gweddill yn ddysgwyr. Yn ôl y dystiolaeth a gasglwyd trwy gyfrwng sgysiau dechreuol, gyda rhai eithriadau, roedd y cyfranogwyr ar y cyfan braidd yn anghyfarwydd â defnyddio'r Gymraeg i ddibenion mwyaf ffurfiol eu swyddi. Roedd amryw ohonynt ychydig yn betrus o wneud hynny, yn enwedig i ddibenion a fyddai'n gofyn am sgiliau llunio testun Cymraeg. Roedd eu defnydd nhw i gyd o'r Gymraeg yn y gweithle ar ei fwyaf cyfforddus pan oedd yn estyniad o'r mathau o beuoedd traddodiadol lle'r arferent ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i oriau gwaith - e.e. wrth drafod efo defnyddwyr / cwsmeriaid a chyd-aelodau staff Cymraeg eu hiaith mewn sefyllfaoedd sgysiol un-wrth-un anffurfiol neu led ffurfiol, un ai wyneb yn wyneb neu dros y ffôn. Er hynny roeddent i gyd yn edrych ymlaen at gymryd rhan yn y prosiect a cheisio estyn eu defnydd o'r Gymraeg
- 4.7. Mae HGC yn gwasanaethu ardal sy'n cynnwys darn go helaeth o Ogledd Cymru. Mae'n cynnwys rhai o'r ardaloedd Cymreiciaf megis Pen Llŷn, Arfon a Môn, Penllyn, Eifionydd a Dyffryn Conwy, yn ogystal â'r ardaloedd llai Cymraeg ar hyd arfordir Meirionnydd, a'r ardaloedd mwy adeiledig a diwydiannol megis Wrecsam a'r Fflint yn nwyrain y dalgylch. Mae'n cynnwys hefyd ardaloedd glan môr y cyrchfannau gwyliau traddodiadol yn ymestyn o'r gogledd-orllewin tua'r dwyrain, o Landudno, Bae Colwyn, Tywyn, cyn belled â'r Rhyl a Phrestatyn. Ar ddechrau cyfnod y prosiect, ar yr ystod o lefelau 1 - 5 a ddefnyddir gan HGC i ddiffinio sgiliau iaith ei gyflogeion, roedd 6% ym meddu ar sgiliau ar lefel 4, ac 19% ar lefel 5. Dyna gyfanswm o 25% felly yn rhugl eu Cymraeg llafar. Roedd y cyflogeion hynny wedi eu gwasgaru ar draws 3 rhanbarth gweithredu go eang, sef Rhanbarth y Dwyrain, y Rhanbarth Canolog a Rhanbarth y Gorllewin.
- 4.8. Fel CSC, roedd HGC hefyd yn terfynoli ei Gynllun Iaith diwygiedig ar ddechrau cyfnod y prosiect. Ond yn wahanol i CSC roedd y Cynllun hwnnw yn ymgorffori hefyd bolisi a fabwysiadwyd yn 2005 i ddylanwadu ar batrymau defnydd iaith y tu hwnt i'r cyswllt â'r cyhoedd yn unig. Roedd y polisi hwnnw, sef Strategaeth Iaith Gymraeg Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (CPSH), yn "*Strategaeth i gynyddu a normaleiddio defnydd y Gymraeg, gan*

¹ Aitchison, J a Carter, H. (2004). *Spreading the Word - the Welsh Language 2001*, Talybont: Y Lolfa, tt.38 - 39

gynnwys ymrwymiad i gynyddu defnydd y Gymraeg fel iaith busnes y corff".
Datganodd y strategaeth:

"Mae ein dull strategol o ymdrin â'r defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg yn seiliedig ar yr egwyddorion hyn:

- *statws gydradd i'r Gymraeg a'r Saesneg*
- *rydym yn anelu tuag at fod yn sefydliad dwyieithog"*

Datganodd y strategaeth hefyd mai'r tactegau a fabwysiadwyd i ategu'r egwyddorion hyn oedd:

- *"Cynllun iaith Gymraeg arloesol*
- *mwy o ddefnydd busnes o'r Gymraeg*
- *pawb sy'n ymuno â sgiliau Cymraeg sylfaenol (lefel 1)*
- *recriwtio a hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg*
- *Y cyfle i bawb fynychu'r ddarpariaeth hyfforddiant iaith Gymraeg mewnol*
- *nifer cynyddol o swyddi 'Cymraeg yn Hanfodol'*
- *dewis iaith sicr yn y Dalfeydd ac yn yr Ystafell Reoli."*

- 4.9. Roedd y polisi hwn eisoes wedi bod yn weithredol ers blwyddyn pan ddechreuodd y prosiect. Felly roedd HGC eisoes ar drywydd datblygu defnydd y Gymraeg fel iaith cyfathrebu mewnol yn ogystal ag yn ei wasanaethau plismona i'r cyhoedd cyn dechrau cyfranogi o'r prosiect hwn. Yn yr ystyr honno, roedd y swyddogion cyswllt a'r mwyafrif o'r cyfranogwyr yn ystyried y prosiect yn gyfle da i ategu a chryfhau tueddiadau ac ymdrechion a oedd eisoes ar waith o fewn HGC.
- 4.10. Fodd bynnag, yn wahanol i CSC, roedd yr arferiad o roi bri ar ddefnydd y Gymraeg yn beth cymharol ddiweddar a sefydlwyd ac a feithrinwyd dan arweiniad blaengar a brwd y Prif Gwnstabl a benodwyd yn 2001, gyda chymorth proffesiynol yr Ymgynghorydd Iaith mewnol amser llawn sydd, eto ers 2001, yn hyrwyddo defnydd y Gymraeg, y Cynllun Iaith a hyfforddiant Cymraeg o fewn y sefydliad.

Arferion defnydd iaith y cyfranogwyr unigol

- 4.11. Yn Ebrill -Mai 2006 aed ati i gofnodi defnydd iaith cyfredol yr unigolion a gytunasai i gymryd rhan yn y prosiect. O fewn HGC roedd yr unigolion hyn wedi eu lleoli mewn pedair uned waith, ac o fewn CSC mewn tair uned.
- 4.12. Mewn dwy sesiwn gweithdy, y naill yn Aberaeron a'r llall ym Mae Colwyn, gofynnwyd i'r cyfranogwyr gofnodi'r holl fathau o gyfathrebu llafar a thestunol, ffurfiol ac anffurfiol, a nodweddi eu gwaith beunyddiol. Wedi gwneud hynny, gofynnwyd iddynt ddynodi pa gyfathrebiadau yr arferent eu cyflawni yn Saesneg, yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.
- 4.13. Yn **Atodiadau 2(i) a 2(ii)** crynhoir eu cofnod, fesul uned gyfranogol, o arferion defnydd iaith y cyfranogwyr wrth iddynt gyflawni eu gwahanol dasgau cyfathrebu rheolaidd yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog.
- 4.14. Roedd y wybodaeth a gasglwyd drwy'r ymarferiad hwn yn gofnod o'r waelodlin, neu'r 'man cychwyn' ar gyfer newid arferion iaith y staff.

5.0. Y modd yr aed ati i adnabod cyfleoedd i'r cyfranogwyr gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle

Methodoleg adnabod y cyfleoedd

Aed ati i adnabod y cyfleoedd hyn trwy gynnal diwrnod briffio / gweithdai i bob un o'r ddau gorff, pryd y cafodd gweithgareddau arbrofol i newid defnydd iaith staff eu cynnig, eu pennu a'u cofnodi gan y staff eu hunain, gydag ymgynghorwyr Cwmni Iaith yn hwyluso eu trafodaethau. Yn **Atodiad 3** atgynhychir copi o lythyr a anfonwyd at gyfranogwyr y prosiect yng Nghyngor Sir Ceredigion yn eu gwahodd i'r diwrnod gweithdai / lansiad, ynghyd â chopi o raglen y dydd.

5.2. Pwrpas, trefn a chynnwys y ddau ddiwrnod oedd:

- i. Cynnal achlysur i 'lansio'r prosiect.
- ii. Dwyn ynghyd y staff o'r gwahanol unedau gwasanaeth sy'n cymryd rhan yn y prosiect ym mhob corff unigol er mwyn **sefydlu eu cydberchnogaeth ar y cynllun**, a chreu ymdeimlad o undod wrth ymgymryd ag ef.
- iii. Sefydlu perchnogaeth gorfforaethol CSC a HGC ar y prosiect trwy drefnu **Anerchiad gan Arweinydd y sefydliad**. Ar ddiwrnod gweithdai CSC cafwyd anerchiad agoriadol gan Arweinydd y Cyngor. Yn yr un modd, ar ddiwrnod gweithdai HGC, y Prif Gwnstabl a roddodd yr anerchiad agoriadol. Derbyniodd y ddau nodiadau briffio gan Gwmni Iaith i hwyluso paratoi eu hanerchiadau. Atgynhychir yn **Atodiad 4** y nodiadau briffio i Arweinydd CSC. Darparwyd nodiadau cyffelyb ar gyfer Prif Gwnstabl HGC. Pwrpas eu hanerchiadau oedd:
 - o datgan cefnogaeth i'r prosiect ar ran arweinyddiaeth ac uwch reolwyr y sefydliad,
 - o mynegi gwerthfawrogiad o barodrwydd y staff i gymryd rhan,
 - o egluro mai prosiect a gynhelir ar ran y sefydliad yw hwn er mwyn 'normaleiddio' dwyieithrwydd yn y gweithle, datblygu staff, hyrwyddo ethos Cymreig o fewn y gweithle ayyb,
 - o rhoi gair o anogaeth i'r staff ac i ddymuno yn dda iddynt yn eu hymdrechion i ddefnyddio mwy o Gymraeg.
- iv. Sesiwn **Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith** gan Gwmni Iaith er mwyn sicrhau bod y staff i gyd yn dechrau gweithredu ar sail yr un sylfaen wybodaeth a'r un ddealltwriaeth o amcanion y prosiect, ei gefndir a'i gyd-destun.
- iv. Cynnal gweithdai gyda staff i ddynodi sefyllfaoedd ar gyfer newid iaith. Roedd y gweithdai yn fodd i wahodd staff i gofnodi:
 - (i) yr amrediad o dasgau beunyddiol y maent yn eu cyflawni
 - (ii) beth yw eu harferion defnydd iaith wrth gyflawni'r tasgau hynny
 - (iii) a pha arferion y maent am fentro eu cyflawni yn Gymraeg yn hytrach nag yn Saesneg.

- v. Yn ogystal, roedd y gweithdai yn fodd i staff:
- adnabod y rhwystrau / anawsterau posibl
 - manylu ar y mathau o gymorth / cefnogaeth y bydd eu hangen arnynt

Dull graddoli'r cyfleoedd i newid defnydd iaith

- 5.3. Paratowyd ffurflenni pwrpasol ar gyfer y cyfranogwyr i hwyluso cofnodi'r wybodaeth berthnasol yn y gweithdai. **Yn Atodiad 5** atgynhychir y ffurflenni a ddefnyddiwyd i hwyluso'r broses a ddisgrifir yn iv uchod.
- 5.4. 'Cynnyrch' y gweithdai a'r broses a amlinellir ym mhwynt iv uchod yw'r hyn a gofnodwyd gan y cyfranogwyr (a) fel unigolion ar y ffurflen '*Fy Nghynllun i*' a (b) fel aelodau tîm ar y ffurflen '*Ein Cynllun Ni*'. Atgynhychir y ddwy ffurflen hyn ar ddiwedd Atodiad 5. Wedi nodi ar ffurflenni blaenorol eu harferion defnydd iaith cyfredol a'r cyfleoedd i newid defnydd iaith ar gyfer rhai cyfathrebiadau, ar y ddwy ffurflen hyn roedd y cyfranogwyr yn nodi pa gamau yn union y bwriadent eu cymryd i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg.
- 5.5. Ar y ddwy ffurflen hyn gofynnwyd i'r cyfranogwyr nodi pa gamau y gallent eu cymryd yn syth i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg, a pha gamau y gallent eu cyflawni dros y 6 mis dilynol. Tynnodd y staff sylw hefyd at rai rhwystrau a fyddai'n llesteirio cynyddu defnydd y Gymraeg mewn rhai meysydd.
- 5.6. Cyflëwyd y wybodaeth hon i reolwyr y staff dan sylw, i Weithgorau'r ddau gorff ac i'r Pwyllgor Llywio a bu'r rhain yn cynnal sawl trafodaeth mewn cyfarfodydd dilynol ynghylch graddoli'r hyn yr oedd yn ymarferol bosibl i'w cyflawni heb i'r staff orfod oedi a disgwyl am gymorth neu gyfraniad pellach, ac i adnabod camau y byddai'n rhaid wrth gymorth neu gyfraniad pellach cyn y gellid eu rhoi ar waith.
- 5.7. Bu'r Pwyllgor Llywio, y ddau Weithgor a rheolwyr y staff perthnasol hefyd yn cyfrannu at y drafodaeth ynghylch graddoli gweithrediad y mentrau gan fynegi eu barn a'u blaenoriaethau nhw ynghylch graddoli mentrau, a hynny o bersbectif rheolaethol a strategol. Er enghraifft, o fewn HGC penderfynwyd y dylid mynd ati rhag blaen i osod meddalwedd *CySill* a *CysGair* ar gyfrifiaduron staff, ac roedd hynny wedi ei gyflawni erbyn diwedd haf /hydref 2006.
- 5.8. Yn ogystal â chofnod y staff o'u bwriadau o ran cynyddu defnydd y Gymraeg, wrth i'r prosiect fynd rhagddo, buwyd yn trafod yn rheolaidd â'r prif swyddogion cyswllt a'r Gweithgorau o fewn CSC a HGC er mwyn adnabod rhai agweddau ar gynnydd na ellid eu cyflawni heb i'r sefydliadau flaengynllunio i'w gwireddu dros gyfnod hwy na chyfnod y prosiect. Ymhlith yr agweddau hyn adnabuwyd yr angen am fewnbynnau ac allbynnau dwyieithog wrth i staff ddefnyddio rhaglenni meddalwedd i ddibenion penodol iawn yng Nghanolfan Gyswllt y Gwasanaethau Cymdeithasol, CSC, a meddalwedd a ddefnyddid gan swyddogion a staff Dalfeydd HGC wrth gadw carcharor yn y ddalfa.
- 5.9. Roedd yr agweddau hyn yn gofyn am newidiadau go sylweddol mewn rhaglenni cyfrifiadurol a gomisiynwyd ymhell cyn cyfnod y prosiect, ac y byddai'n rhaid wrth ymdrechion dros gyfnod hwy na chyfnod y prosiect i'w datrys. Mae'n arwyddocaol bod y prosiect wedi bod yn fodd i ysgogi'r ddau

sefydliad i fynd i'r afael â'r materion hyn er gwaetha'r sicrwydd na chaent eu datrys yn ystod cyfnod y prosiect.

- 5.10. Er mwyn cynorthwyo rheolwyr i drefnu, graddoli ac amseru gweithrediad y mentrau arbrofol, paratowyd Ffurflen Asesu Risg i'w defnyddio ganddynt, ac un o'r risgiau y tynnir sylw ato ar y ffurflen honno yw "y risg i effeithiolrwydd neu lwyddiant y prosiect". Wrth reswm, gallai risg o'r fath godi yn sgil anhawster i amseru gweithrediad menter mewn modd fyddai'n hwyluso ei llwyddiant. Atgynhyrchir y Ffurflen Asesu Risg yn **Atodiad 6**.
- 5.11. Diddorol nodi hefyd y bu neu y bydd amryw o'r camau a fwriedid gan y cyfranogwyr yn fodd i wella nid yn unig ddwyieithrwydd mewnol y ddau gorff, ond gweithrediad effeithiol eu Cynlluniau Iaith statudol yn ogystal. Cytunwyd bod hyn wedi sicrhau bod y prosiect wedi bod o 'werth ychwanegol' i CSC a HGC.

6.0. Mentrau arbrofol y ddau gorff, a'r trefniadau cefnogol iddynt

- 6.1. Drwy'r broses a ddisgrifir yn adran 9 uchod, esgorodd y gweithdai lansio ar amrediad o gamau gweithredu neu 'fentrau' a gynigiwyd gan y cyfranogwyr eu hunain i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg. Cafodd y mentrau eu dynodi mewn cynlluniau gweithredu, fesul unigolyn a fesul grŵp. (Gw. y ffurflenni 'Fy Nghynllun i' ac 'Ein Cynllun ni' ar ddiwedd **Atodiad 5**)
- 6.2. Yn ystod yr wythnosau yn dilyn y lansiad, o blith y mentrau ar gyfer pob grŵp, dewiswyd, mewn ymgynghoriad â'r ddau Weithgor, un fenter benodol gan bob grŵp er mwyn olrhain eu cynnydd yn fanwl. Cyfeirir yma at y mentrau hyn fel 'mentrau strategol'.
- 6.3. Wrth lywio'r prosiect a monitro cynnydd felly, rhoddai'r Pwyllgor Llywio a'r ddau Weithgor sylw arbennig i'r tair gwedd benodol hyn ar weithgareddau'r cyfranogwyr i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg, sef:
 - mentrau datblygu unigolion
 - mentrau datblygu'r grwpiau
 - y mentrau strategol
- 6.4. Wedi dewis y mentrau, un o agweddau pwysicaf y prosiect oedd trafod â'r cyfranogwyr, y ddau Weithgor a staff allweddol eraill, a'r Pwyllgor Llywio y gwahanol fathau o gefnogaeth a chymorth a fyddai'n angenrheidiol i hwyluso gweithrediad y prosiect.
- 6.5. Trafodir isod y tri math gwahanol o fentrau a roddwyd ar waith, a'r gefnogaeth a chymorth a drefnwyd i hwyluso eu gweithrediad, ac ar ddiwedd yr adran hon trafodir cymariaethau buddiol rhwng y ddau gorff.

Mentrau Cyngor Sir Ceredigion

- 6.6. Yn **Atodiad 7(i)** atgynhychir y cofnod manwl o'r mentrau a bennwyd ac a dreialwyd gan unigolion a grwpiau o fewn CSC.
- 6.7. O fewn y Cyngor, er yn amrywio rhywfaint o unigolyn i unigolyn ac o grŵp i grŵp, roedd cryn orgyffwrdd yn y cyfleodd datblygu a adnabuwyd. Gellid rhestru'r elfennau cyffredin fel a ganlyn:
- Dwyieithogi ffurflenni, llythyron safonol a thempledi electronig mewnol.
 - Cynyddu'r defnydd o Gymraeg wrth e-bostio yn fewnol.
 - Cynyddu'r defnydd o Gymraeg mewn gohebiaeth seml, yn fewnol a gyda'r cyhoedd, drwy ddrafftio yn y Gymraeg yn gyntaf.
 - Hwyluso mwy o ddefnydd o Gymraeg mewn cyfarfodydd mewnol o ran cyfraniadau llafar, agendâu a chofnodion.
 - Adnabod a chefnogi dysgwyr a'r llai rhugl eu Cymraeg i ddatblygu mewn gallu a hyder.
- 6.8. O ran y mathau o gefnogaeth fyddai'n angenrheidiol, nodwyd yr anghenion penodol canlynol:
- Cyfleodd i loywi Cymraeg – yn enwedig yn ysgrifenedig.
 - Arweiniad ar sut orau i ddefnyddio'r Uned Gyfieithu fel adnodd gwirio a gloywi.
 - Mwy o wybodaeth a mynediad i agweddau cefnogol o ran TG.
 - Cyngor ar sut i gefnogi dysgwyr a'r llai rhugl.
- 6.9. O blith yr amrediad uchod o fentrau, y mentrau strategol a bennwyd ar gyfer pob uned gyfranogol o fewn CSC er mwyn olrhain eu cynnydd yn fanwl oedd:

Mentrau strategol CSC

Yr Uned Personél ac Uned y Prif Weithredwr

Y fenter: cynyddu'r ymwneud â materion personél yn y Gymraeg o fewn y sefydliad drwy amlygu natur ddwyieithog yr Uned Personél a hwyluso gweithdrefnau dwyieithog

Yr Uned Weinyddol, Adran Priffyrdd, Eiddo a Gwaith (ar y cyd ag eraill)

Y fenter: cefnogi dysgwyr a'r llai rhugl i gynyddu eu defnydd o Gymraeg

Yr Uned Galwadau, Adran Gwasanaethau Cymdeithasol

Y fenter: ystyried materion ynglŷn â chofnodi galwadau yn Gymraeg a materion TG perthynol

Mentrau Heddlu Gogledd Cymru

- 6.10. Yn **Atodiad 7(ii)** atgynhychir y cofnod manwl o'r mentrau a bennwyd ac a dreialwyd gan unigolion a grwpiau o fewn HGC.
- 6.11. O fewn yr Heddlu, er bod rhywfaint o orgyffwrdd yn y cyfleodd datblygu a'r mentrau a adnabuwyd o grŵp i grŵp, cafwyd yr argraff fod yna wahaniaethau sylweddol o ran hyder a dyheadau. Gellid rhestru'r elfennau cyffredin fel a ganlyn:

- Cynyddu'r defnydd o Gymraeg wrth sgwrsio yn anffurfiol o fewn y gweithle.
 - Cynyddu'r defnydd o Gymraeg wrth e-bostio yn fewnol.
 - Cynyddu'r defnydd o Gymraeg mewn gohebiaeth sylfaenol, yn fewnol a gyda'r cyhoedd, drwy ddrafftio yn y Gymraeg yn gyntaf.
 - Dwyieithogi ffurflenni, llythyron safonol a thempledi electronig mewnol.
- 6.12. Roedd y mwyaf hyderus eu Cymraeg, sef Rhanbarth y Gorllewin, yn nodi'r canlynol yn ychwanegol:
- Adnabod a chefnogi dysgwyr a'r llai rhugl eu Cymraeg i ddatblygu mewn gallu a hyder.
 - Hwyluso mwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn cyfarfodydd mewnol o ran cyfraniadau llafar, agendâu a chofnodion.
- 6.13. O ran y mathau o gefnogaeth fyddai'n angenrheidiol nodwyd yr anghenion penodol canlynol:
- Cyfleodd i loywi Cymraeg – yn ysgrifenedig ac ar lafar.
 - Mwy o wybodaeth a mynediad i agweddau cefnogol o ran TG.
 - Cyngor ar sut i gefnogi dysgwyr a'r llai rhugl.
 - Arweiniad ar sut orau i ddarparu cyflwyniadau dwyieithog.
 - Arweiniad ar gynnal cyfarfodydd cyhoeddus a chyfarfodydd mewnol yn ddwyieithog.
 - Arweiniad ar sut i hwyluso'r defnydd o Gymraeg llafar yn y gweithle.
- 6.14. O blith yr amrediad uchod o fentrau, y mentrau strategol a bennwyd ar gyfer pob uned gyfranogol o fewn HGC er mwyn olrhain eu cynnydd yn fanwl oedd:

Mentrau strategol HGC

Canolfan Rheoli Cyfathrebiadau (Llanelwy), Adran Gweinyddu Cyfiawnder

Y fenter: Cynyddu cyfleoedd i ddysgwyr a staff Cymraeg ymarfer eu Cymraeg wrth ddelio â'i gilydd mewn sefyllfaoedd anffurfiol yn y gweithle

Y Swyddfa Docynnau (Prestatyn), Adran Gweinyddu Cyfiawnder

Y fenter: Cynyddu'r arferiad o gyfathrebu yn Gymraeg trwy gyfrwng negeseuon e-bost

Y Dalfeydd

Y fenter: Cynyddu defnydd mewnol y Gymraeg drwy gynnig dewis iaith yn ffurfiol i bob carcharor a sicrhau bod pob cyswllt dilynol priodol yn ei (d)dewis iaith

Rhanbarth y Gorllewin

Y fenter: Cynyddu defnydd y Gymraeg mewn cyfarfodydd mewnol

Adnoddau angenrheidiol a threfniadau cefnogol

6.15. Cytunwyd yn fuan yn oes y prosiect y byddai sicrhau adnoddau priodol a chefnogaeth ddigonol i'r cyfranogwyr yn gwbl allweddol i'w lwyddiant. Wedi ymgynghori â'r cyfranogwyr eu hunain, y ddau Weithgor a staff allweddol eraill o fewn y ddau sefydliad am yr holl fathau o gefnogaeth a fyddai'n angenrheidiol a chytunwyd y byddai

- y defnydd o **dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu**
- trefniadau i **hyfforddi a datblygu staff**
- cydweithrediad a **chymorth y ddwy Uned Gyfieithu fewnol**
- a'r angen i **farchnata'r prosiect yn fewnol** mewn modd adeiladol a chadarnhaol

yn bedair prif agwedd allweddol ar y gefnogaeth y bydd ei hangen.

6.16. Y defnydd o dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu

Ymhlith y mathau o gymorth TGCh a bennwyd ac a roddwyd ar waith o fewn y ddau gorff roedd:

- y defnydd o'r fewnwyd ac e-bost mewnol i ledaenu gwybodaeth, newyddion a negeseuon anogol am y prosiect;
- cynyddu'r arferiad o sgrifennu negeseuon e-bost yn Gymraeg;
- gosod pecyn meddalwedd Cysgliad, sy'n cynnwys gwirydd sillafu Cymraeg (CySill) ac adnodd geiriadurol (CysGair) ar gyfrifiaduron personol pob aelod o staff sy'n cymryd rhan yn y prosiect;
- dysgu sut i osod acenion (e.e. to bach) mewn testunau Cymraeg;
- darparu lle / llefydd ar y fewnwyd i osod cronfa o gyfieithiadau parod, bônt yn ddogfennau, llythyrau safonol / ffurflenni neu ymadroddion defnyddiol;
- dolenni cyswllt ag adnoddau geirfaol a gramadegol;
- dolenni cyswllt ag adnoddau dysgu ar-lein;
- meddalwedd dysgu neu ymarfer Cymraeg (e.e. pecyn Cymarfer);
- gosod rhyngwynebau Cymraeg ar gyfrifiaduron personol;
- gosod dyluniad bathodyn bach gyda'r geiriau '*Rwy'n siarad Cymraeg*' neu '*Rwy'n dysgu Cymraeg*' ynghlwm wrth lofnodion e-bost unigolion, er mwyn hysbysu eraill bod modd cyfathrebu â'r anfonydd yn Gymraeg;
- gosod y dyluniad uchod (bathodyn) wrth ochr enwau unigolion ar y rhestr electronig o rifau ffôn mewnol, eto er mwyn hysbysu eraill bod modd cyfathrebu â'r unigolyn yn Gymraeg.

6.17. Trefniadau i hyfforddi a datblygu staff

Ymhlith y dulliau hyfforddi a datblygu staff a bennwyd ac a roddwyd ar waith o fewn y ddau gorff roedd:

- hyfforddiant dysgu Cymraeg – gwahanol lefelau,
- hyfforddiant gloywi sgiliau sgrifennu Cymraeg,
- hyfforddiant ar ddefnyddio pecyn meddalwedd Cysgliad,

- cyfarwyddiadau ar y fewnwyd ar ddefnyddio Cysgliad,
- hyfforddiant ar fentora (sef hyfforddiant i'r mentoriaid ac i'r sawl gâi eu mentora),
- Cynllun Cyfeillio (*buddy scheme*) gydag ysgol gynradd leol – sef trefniant i ddysgwyr fynyhu dosbarth Cymraeg yn yr ysgol gan ymarfer eu Cymraeg gyda'r plant a'r athrawon,
- dynodi "pencampwyr iaith" yn y gweithle,
- adborth gan y Cyfieithwyr ar waith a anfonwyd atynt i'w olygu / brawf ddarllen,
- cydlynu adborth gan y Cyfieithwyr â hyfforddiant ffurfiol,
- dolenni cyswllt cyfrifiadurol ag adnoddau dysgu ar-lein,
- gloywi sgiliau siarad Cymraeg,
- sgiliau cyfieithu syml,
- "Gair y dydd" ac ymadroddion yn cael eu gosod ar hysbysfwrdd swyddfa.

6.18. Cydweithrediad a chymorth y ddwy Uned Gyfieithu fewnol

Ymhlith y prif syniadau a drafodwyd ac a roddwyd ar waith gan yr Unedau Cyfieithu o fewn y ddau sefydliad:

- Prawf ddarllen a golygu testunau Cymraeg a grëir gan staff eraill.
- Rhoi adborth i staff ar yr uchod.
- Hyrwyddo yn fewnol y gwasanaeth golygu testunau.
- Cyfieithu deunyddiau sydd ar gael yn Saesneg yn unig ar hyn o bryd.
- Creu / cynyddu cronfa o gyfieithiadau parod a thempledi at ddefnydd staff, bônt yn ddogfennau, llythyrau safonol / ffurflenni neu ymadroddion defnyddiol.
- Cyfrannu at ddarparu terminoleg / geirfaeod at ddefnydd staff.
- Cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd mewnol.
- Dilysu safon "pencampwyr iaith" mewnol.
- Cyfrannu " ymadroddion yr wythnos" ar y fewnwyd.

6.19. Marchnata'r prosiect yn fewnol ac yn allanol

Bu swyddogion y wasg o fewn HGC a CC yn trafod yr angen i gynnal ymarferiad marchnata mewnol o fewn y ddau sefydliad er mwyn cyflwyno'r prosiect i staff y ddau gorff mewn modd tryloyw, diddorol ac adeiladol. Dynodwyd a gweithredwyd amryw o ddulliau marchnata buddiol:

- Defnyddio'r holl gyfryngau mewnol sydd ar gael iddynt i gyfathrebu â'r staff am y prosiect, gan gynnwys:
 - y fewnwyd
 - bwletin i staff
 - e-bost
 - dosbarthu deunydd "Iaith Gwaith" Bwrdd yr Iaith mewn gweithleoedd
 - mwy o amlygrwydd gweledol i'r Gymraeg ar hysbysfyrddau
- Gyrru cyfres o negeseuon marchnata mewnol, positif eu natur drwy gydol cyfnod y prosiect. O fewn HGC, o Fedi 2006 ymlaen dosbarthwyd negeseuon o'r fath drwy gyfrwng e-bost mewnol. Atgynhychir y negeseuon hyn yn **Atodiad 8**.

- Defnyddio'r diwrnod briffio / gweithdai fel achlysur ar gyfer marchnata'r prosiect yn fewnol.
 - Erthyglau a lluniau am y prosiect a'r cyfranogwyr yn *Y Glas*, bwletin newyddion HGC a ddsbarthwyd i bob cartref yng Ngogledd Cymru.
 - Erthyglau a lluniau yn *Sôn y Sir*, y bwletin newyddion i staff CSC.
- 6.20. Roedd llawer o'r agweddau uchod ar y gefnogaeth angenrheidiol yn agweddau y gallai unedau gwasanaeth cefnogol y ddau gorff eu rhoi yn eu lle fel rhan o'u gwaith arferol, heb fod angen adnoddau ychwanegol i'w gweithredu. Ymhlith yr agweddau hynny roedd y gwaith marchnata mewnol a rhai elfennau o'r gwaith hyfforddi a chefnogi yn ogystal ag amryw agweddau TGCh.
- 6.21. Fodd bynnag, parhawyd i ymgynghori â'r cyfranogwyr a'r unedau cefnogol drwy gydol cyfnod y prosiect er mwyn diweddarau ein gwybodaeth am y mathau o gymorth ac adnoddau a ddeuai'n angenrheidiol wrth i'r prosiect fynd rhagddo. Bu penaethiaid y gwasanaethau cefnogol yn cadw golwg ar y sefyllfa er mwyn:
- (i) adnabod pa elfennau o'r gefnogaeth a nodir uchod fyddai'n gofyn am ddarpariaeth y tu hwnt i'w darpariaeth gyfredol a'u cyllideb bresennol, a
 - (ii) amcangyfrif a hysbysu'r Gweithgor faint o adnoddau ychwanegol y byddai eu hangen i roi'r gefnogaeth honno yn ei lle.
- 6.22. Fel rhan o'r prosiect roedd modd i'r ddau gorff gyflwyno ceisiadau i Fwrdd yr Iaith Gymraeg am adnoddau ychwanegol petai eu hangen. Wrth drafod y mentrau strategol mewn paragraffau dilynol cyfeirir at rai mathau o gymorth a chefnogaeth a gafwyd gyda nawdd y Bwrdd.
- 6.23. Yn ogystal â'r dulliau cefnogi uchod, cynhaliwyd **diwrnod ymweld â swyddfeydd Cyngor Gwynedd**, awdurdod sy'n gweithredu polisi o ddefnyddio'r Gymraeg fel prif iaith ei weinyddiaeth fewnol. Ar y diwrnod hwnnw daeth cyfranogwyr y prosiect yn HGC a CSC ynghyd yng Nghaernarfon i dderbyn gwybodaeth am weithrediad y polisi hwnnw. Cynhaliwyd hefyd sesiynau trafod er mwyn rhoi cyfle i'r cyfranogwyr holi swyddogion Cyngor Gwynedd am eu profiadau ac am agweddau penodol ar arferion da. Atgynhychir Rhaglen yr ymweliad yn **Atodiad 9**.
- 6.24. Ymhlith y gwahanol agweddau y bu swyddogion Gwynedd yn rhannu o'u profiad ohonynt a'u trafod â staff y ddau gorff oedd:
- Sut yr aeth Gwynedd ati i sefydlu a rhoi ar waith ei bolisi o ddefnyddio'r Gymraeg yn brif iaith ei weinyddiaeth fewnol a beth oedd profiad y Cyngor wrth 'reoli'r newid'.
 - Sut mae Gwynedd yn annog defnydd y Gymraeg mewn gwaith gweinyddu mewnol.
 - Trefniadau a phrofiadau Gwynedd wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn brif iaith cyfarfodydd mewnol.
 - Datblygu hyder a sgiliau staff Cymraeg a dysgwyr, a'u defnydd o'r Gymraeg.
 - Prif elfennau ac ystyriaethau wrth ddarparu hyfforddiant gloywi Cymraeg.

Adroddiad Terfynol y Prosiect Hyrwyddo Gweithleoedd Dwyieithog

- Canllawiau ar gyfer mentora dysgwyr – sef rôl y mentor a rôl y dysgwr.
 - Trafod sgiliau Cymraeg fel rhan o'r broses werthuso staff yn flynyddol.
 - Sut y cyflwynir ei bolisi i staff newydd.
 - Trefniadau a phrofiadau wrth drefnu a darparu hyfforddiant galwedigaethol / hyfforddiant mewn swydd trwy gyfrwng y Gymraeg.
- 6.25. Yn ystod yr ymweliad bu'r cyfranogwyr yn cyfnewid eu manylion cyswllt â swyddogion Gwynedd, a gwnaed trefniadau i rai o'r cyfranogwyr – yn ogystal â rhai oedd yn absennol - gysylltu eto â nhw i dderbyn gwybodaeth bellach a deunyddiau pellach. Er enghraifft, roedd clerc pwyllgorau HGC yn methu â bod yn bresennol y diwrnod hwnnw ond trefnwyd iddi ymweld ag adran clerod pwyllgor ac Uned Gyfieithu Gwynedd ar ddiwrnod arall a bu'r ymweliad hwnnw'n un buddiol iawn, gyda threfniant i'r cysylltiad barhau.
- 6.26. O drafod â'r cyfranogwyr yn dilyn eu hymweliad, daeth sawl canfyddiad i'r amlwg. Er bod gan CSC, fel Cyngor Gwynedd, ganran uchel o'i staff yn siaradwyr Cymraeg, roedd yr ymwelwyr o CSC yn teimlo bod llawer mwy o hyder ymhlith staff Gwynedd wrth ddefnyddio eu Cymraeg. Roedd yna deimlad ymhlith yr ymwelwyr fod y polisi eglur a phendant sydd gan Gyngor Gwynedd ar ddefnydd mewnol y Gymraeg wedi creu hinsawdd lle mae staff wedi dod i arfer â'i defnyddio mewn amrywiaeth eang iawn o sefyllfaoedd. Roedd hyn yn ei dro wedi meithrin hyder ac wedi bod yn fodd i wella sgiliau a rhugled yn y Gymraeg drwy sicrhau defnydd beunyddiol amrywiol ohoni.
- 6.27. Gwelwyd hefyd fod yna ddisgwyliad ymhlith staff Gwynedd, oherwydd y polisi, na newidir iaith y gweinyddu mewnol na chyfarfodydd mewnol ar gownt staff di-Gymraeg sy'n ymuno â'r gweithlu. Yn hytrach, mae'n ofynnol i'r olaf ddysgu Cymraeg hyd y safon angenrheidiol i'w galluogi i gyfathrebu'n effeithiol ac yn broffesiynol i ddibenion y weinyddiaeth ac yn unol â'r polisi. Golyga hyn nad oes pwysau ar y siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Saesneg, am mai'r Gymraeg yw'r iaith ddiofyn mewn sefyllfa o'r fath.
- 6.28. Mewn hinsawdd o'r fath mae'r trefniadau i hyfforddi a datblygu staff mewn sgiliau Cymraeg yn rhan o broses alluogol – hynny yw, proses i alluogi hyfforddeion i weithredu'n effeithiol fel staff dwyieithog mewn gweithleoedd sy'n defnyddio'r Gymraeg fel prif gyfrwng cyfathrebu mewnol.
- 6.29. Roedd yn amlwg hefyd o sylwadau swyddogion Gwynedd fod yno agwedd gynhwysol tuag at y cysyniad o 'fedru Cymraeg'. Nododd y swyddogion fod y staff yn meddu ar ystod eang o gymwyseddau mewn sgiliau siarad, sgrifennu, darllen a deall Cymraeg, a gall yr holl gymwyseddau hyn ar wahanol lefelau, o'r elfennol i'r cwbl rugl, gyfrannu at hwyluso defnyddio Cymraeg yn y gweithle.

7.0 Yr hyn a ddysgwyd o brofiadau HGC a CSC

Heddlu Gogledd Cymru

- 7.1. Ar sail yr ymarferion gwerthuso a gynhaliwyd trwy gyfrwng holiadur a chyfweliadau â chyfranogwyr HGC wedi 9-10 mis o weithrediad eu mentrau i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg yn eu gweithleoedd, cofnodwyd:

O ran cynyddu defnydd y Gymraeg:

- bod 15 o'r 18 cyfranogydd a holwyd yn adrodd eu bod wedi cynyddu eu defnydd llafar o'r Gymraeg,
- bod 16 o'r 18 cyfranogydd a holwyd yn nodi bod wedi cynyddu eu defnydd ysgrifenedig o'r Gymraeg.

O ran hyder i ddefnyddio Cymraeg:

- bod 6 yn llawer mwy hyderus,
- bod 8 ychydig mwy hyderus, a
- bod 4 yn adrodd na fu unrhyw newid mewn hyder.
(O'r 4 hyn mae'n bwysig nodi bod 3 wedi datgan yr oeddent eisoes yn ddigon hyderus cyn dechrau gweithredu'r prosiect).

Yn ôl yr adborth a gafwyd a'n gwerthusiad ninnau felly barn gyffredinol y cyfranogwyr a'n barn ninnau yw bod y prosiect ar y cyfan wedi llwyddo yn ei amcanion o fewn HGC.

- 7.2. O droi at y **mentrau strategol** a weithredwyd, cyflwynir yn **Atodiad 10** adroddiad ar y cynnydd a gafwyd wrth i staff weithio tuag at gyflawni'r mentrau strategol o fewn HGC a CSC. Ar sail y wybodaeth a gafwyd, mae ein barn ni am lwyddiant y mentrau strategol o fewn HGC fel a ganlyn:

I. Canolfan Rheoli Cyfathrebiadau (Llanelwy), Adran Gweinyddu Cyfiawnder

Y fenter: Cynyddu cyfleoedd i ddysgwyr a staff Cymraeg ymarfer eu Cymraeg wrth ddelio â'i gilydd mewn sefyllfaoedd anffurfiol yn y gweithle

- Rydym o'r farn fod y fenter hon wedi llwyddo'n rhannol. Oherwydd anawsterau staffio a materion trefniadol yn ystod cyfnod y prosiect ni fu modd gwireddu'r fenter i'r graddau a ddymunid. Fodd bynnag wrth i gyfnod y prosiect ddirwyn i ben roedd camau ar y gweill i sicrhau ystafell adnoddau Cymraeg, penodi tiwtor Cymraeg, sefydlu *Siop Siarad* a darparu amryw o'r cymhorthion eraill a ddymunid fel rhan o'r fenter hon. Barnwn felly fod y prosiect wedi llwyddo'n rhannol yn ystod y cyfnod penodedig, a bod y camau sydd ar y gweill yn argoeli'n dda ar gyfer gwreiddio'r prosiect yn y dyfodol.

2. Y Swyddfa Docynnau (Prestatyn), Adran Gweinyddu Cyfiawnder
Y fenter: Cynyddu'r arferiad o gyfathrebu yn Gymraeg trwy gyfrwng negeseuon e-bost
 - Rydym o'r farn fod y fenter hon wedi llwyddo'n dda iawn. Mae mwyafrif y staff a gymerodd ran yn y prosiect yn ddysgwyr sydd wedi gweithredu'n rhagweithiol ac yn ddychmygus i gyfathrebu â'i gilydd ac eraill o fewn y gweithle yn Gymraeg fwyfwy, gan ddefnyddio amryw o'r dulliau a chymhorthion a nodir yn adran 6 uchod.
3. Y Dalfeydd, Rhanbarth y Gorllewin
Y fenter: Cynyddu defnydd mewnol y Gymraeg drwy gynnig dewis iaith yn ffurfiol i bob carcharor a sicrhau bod pob cyswllt dilynol priodol yn ei (d)dewis iaith
 - Rydym o'r farn fod y fenter hon wedi llwyddo'n rhannol. Mae rhai o'r swyddogion perthnasol wedi mabwysiadu'r arferiad o sefydlu a chofnodi dewis iaith carcharorion. Nid oedd modd gwireddu'r fenter yn llwyr heb newid systemau TG (RMS) a phrotocolau hir-sefydledig ar gyfer trin carcharorion. Serch hynny mae'r prosiect wedi llwyddo'n rhannol trwy ennyn trafodaeth â darparwyr y feddalwedd berthnasol a gweithredu ar lefel strategol gyda golwg ar wireddu nod y fenter hon.
4. Rhanbarth y Gorllewin
Y fenter: Cynyddu defnydd y Gymraeg mewn cyfarfodydd mewnol
 - Rydym o'r farn fod y fenter hon wedi llwyddo'n dda. Dynodwyd pa gyfarfodydd rheolaidd penodol y gellid eu cynnal mwyfwy trwy gyfrwng y Gymraeg. Gyda chymorth cyfleoedd mentora a thempledi gan Gyngor Sir Gwynedd mae'r clerc wedi mabwysiadu'r arferiad o baratoi'r agenda a'r cofnodion yn ddwyieithog. Bwriedir parhau ag ymweliadau mentora achlysurol â Chyngor Gwynedd ac mae'r arferion a sefydlwyd yn argoeli'n dda am wreiddio a lledu defnydd y Gymraeg mewn cyfarfodydd mewnol yn y dyfodol.
- 7.3. Cofnodir canfyddiadau'r ymarferion gwerthuso yn ein hadroddiad i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar Ran 2 y prosiect, a chyflwynir yr adroddiad hwnnw yn ei grynsyth yn **Atodiad 11**. Crynhoir ein prif ganfyddiadau isod.
- 7.4. Rydym o'r farn bod y ffactorau a nodir isod wedi cyfrannu at lwyddiant y Prosiect o fewn HGC:
 - Arweiniad blaengar, brwd a chyhoeddus y Prif Gwnstabl yn hyrwyddo defnydd y Gymraeg o fewn HGC, a'i esiampl ef ac eraill o blith ei brif swyddogion yn dysgu'r Gymraeg ac yn uniaethu â'r diwylliant Cymraeg.
 - Cynllun iaith blaengar ac uchelgeisiol.
 - Mae HGC wedi mabwysiadu fel rhan o'i Gynllun Iaith diwygiedig Strategaeth Iaith Gymraeg Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (CPSH), sef "Strategaeth i gynyddu a normaleiddio defnydd y Gymraeg,

gan gynnwys ymrwymiad i gynyddu defnydd y Gymraeg fel iaith busnes y corff". Dywed y strategaeth: "Mae ein dull strategol o ymdrin â'r defnydd o'r Gymraeg a'r Saesneg yn seiliedig ar yr egwyddorion hyn:

- *statws gydradd i'r Gymraeg a'r Saesneg*
- *rydym yn anelu tuag at fod yn sefydliad dwyieithog*
- Rôl arweiniol HGC ar y Gymraeg a dwyieithrwydd ymhlith heddluoedd Cymru.
- Presenoldeb ac ymroddiad Ymgynghorydd iaith Gymraeg mewnol i roi arweiniad ar wahanol agweddau ar weithrediad y Cynllun iaith Gymraeg a materion iaith yn gyffredinol
- Presenoldeb ac ymroddiad Swyddog Hyrwyddo Materion Dwyieithrwydd amser llawn, a hwnnw'n swyddog ar lefel Prif Arolygydd
- Rhaglen helaeth o hyfforddiant Cymraeg i staff a swyddogion HGC, gydag ystod eang o gyrsiau yn amrywio o gyrsiau gloywi iaith i gyrsiau i ddechreuwyr
- Pwyllgor iaith Gymraeg mewnol sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r gwahanol ranbarthau a gwasanaethau. Mae'r cynrychiolwyr hynny yn gyfrifol am weithredu penderfyniadau'r Pwyllgor a hyrwyddo defnydd y Gymraeg yn eu sefyllfaoedd lleol. Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod yn rheolaidd ac adlewyrchir ei statws gan y ffaith mai'r Prif Gwnstabl sy'n Gadeirydd arno
- Uned Gyfieithu gyda 5 o staff amser llawn i hwyluso cynhyrchu testunau dwyieithog ar ran yr holl adrannau a rhanbarthau, ac sy'n darparu gwasanaeth cyfieithu-ar-y-pryd mewn cyfarfodydd lle y siaredir Cymraeg
- Ymgyrch ddiweddar a pharhaus, a gynhaliwyd gyda chryn gyhoeddusrwydd, i recriwtio siaradwyr Cymraeg a'r llwyddiant a brofwyd wrth gynyddu'n sylweddol y nifer o recriwtiaid a darpar recriwtiaid dwyieithog
- Amod penodi bod rhaid i bawb sy'n ymuno â HGC fel darpar swyddog neu aelod staff feddu ar o leiaf Lefel 1 mewn Cymraeg, a chyrraedd Lefel 2 erbyn diwedd ei gyfnod prawf
- Efen o hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith fel rhan o'r broses sefydlu swyddogion newydd
- Cyfarwyddyd a disgwyliadau pendant i Uwch Reolwyr feithrin a datblygu'r agweddau dwyieithog a arddelir yng Nghynllun iaith HGC a Strategaeth iaith CPSH
- Tîm TGCh sydd wedi llwyddo i brif-ffrydio agweddau ar ddatblygu'r Gymraeg o fewn cwmpas eu gwaith, a'r gwaith hwnnw yn ei dro yn cysylltu â phob gweithle a phob gweithiwr o fewn y sefydliad.
- Uned gysylltiadau cyhoeddus sydd wedi llwyddo i gyfleu negeseuon positif ac adeiladol i'r gweithlu ac i'r cyhoedd yng Ngogledd Cymru am y Gymraeg yn gyffredinol ac am y prosiect hwn yn benodol.

Ymhelaethwn ar rai o'r agweddau uchod yn y paragraffau dilynol.

- 7.5. Dengys yr agweddau blaengar uchod yr oedd HGC eisoes ar drywydd datblygu defnydd y Gymraeg yn ei wasanaethau plismona i'r cyhoedd yn ogystal ag fel iaith cyfathrebu mewnol, cyn dechrau cyfranogi o'r prosiect hwn. Yn yr ystyr honno, mae'r prosiect wedi ategu a chryfhau tueddiadau ac ymdrechion a oedd eisoes ar waith o fewn HGC. Roedd y gwaith a wnaed eisoes o fewn y sefydliad wedi braenaru'r tir trwy sefydlu lefelau ymwybyddiaeth da a chyfleu negeseuon positif i'r gweithle am y Gymraeg a dwyieithrwydd. Roedd hyn wedi creu hinsawdd ffafriol lle roedd siaradwyr Cymraeg a dysgwyr yn cael eu hannog i ymfalchïo yn eu sgiliau iaith a'u hystyried yn gaffaeliad o bwys i safon ac ansawdd gwasanaethau HGC.
- 7.6. Oherwydd y modd y braenarwyd y tir felly, a'r disgwyliadau ymhlith y llafurlu y byddai'r Heddlu yn sicrhau dull a modd ymarferol o symud tuag at gyflawni ymrwymadau ei Gynllun Iaith a Strategaeth CPSH, nid oedd y cysyniad sylfaenol sy'n sail i'r prosiect yn gwbl ddieithr i gyfranogwyr. Ar sail yr adborth, y dystiolaeth a'r profiadau gawsom yn ystod y prosiect, gellir datgan yn hyderus y bu hyn yn fodd i HGC lwyr berchenogi'r cysyniad sy'n sail i'r prosiect, a hynny'n weddol ddidrafferth, yn strategol ac yn niwylliant ei weithleoedd cyfranogol.
- 7.7. O ran adnoddau i wreiddio'r arferion da a sefydlwyd a'u lledu yn y dyfodol, eto hyderir bod amryw o'r nodweddion cyd-destunol uchod yn fodd ac yn gyfrwng i wneud hynny o fewn HGC. Mae'r ffaith fod HGC yn cyflogi 2 swyddog amser llawn (Ymgynghorydd Iaith a Swyddog Hyrwyddo Materion Dwyieithrwydd) ar lefel uchel i hyrwyddo a hwyluso gweithrediad mesurau iaith yn arwydd cryf iawn o faint o fri a statws a rydd y Prif Gwnstabl ar y Cynllun Iaith statudol a'r Strategaeth Iaith sy'n rhan ohono. Dengys yn eglur hefyd i'r gweithlu ac i Uwch Reolwyr y sefydliad fod y Prif Gwnstabl yn benderfynol o wireddu ei ymrwymiad cyhoeddus iawn i'r Gymraeg trwy raglen waith ymarferol â chenadwri bendant iawn.
- 7.8. Anodd gorbwysleisio dylanwad pellgyrhaeddol y 2 swyddog amser llawn fel adnodd i hyrwyddo'r Gymraeg a dwyieithogi'r gwasanaethau a'r gweithlu. O fewn yr ychydig flynyddoedd diwethaf llwyddwyd i raddau helaeth i wyrdroi rhai tueddiadau blaenorol a rwystrai ledw peuoedd y Gymraeg a rhai agweddau anffafriol ar ddelwedd gyhoeddus flaenorol HGC fel corff 'anghymreig'. Cyflawnwyd hynny gyda chryn sensitifrwydd a blaengynllunio gofalus.
- 7.9. Yn gefn i'r 2 Swyddog y mae tîm swyddogion Pwyllgor yr Iaith Gymraeg, a chyfraniad pob cynrychiolydd arno at hyrwyddo'r Cynllun Iaith a'r Strategaeth Iaith o fewn eu rhanbarthau / gwasanaethau. Yn ddiweddar bu'r Pwyllgor yn trafod cryfhau a ffurfioli rhywfaint ar y cyfrifoldebau hyn, a bydd hynny'n sicr o ddatganoli perchenogaeth a chyfrifoldeb am faterion iaith a lledu arferion da – gan gynnwys y rhai a ddatblygwyd yn ystod cyfnod y prosiect hwn. Yn wir, mae'r Pwyllgor a'r swyddogion unigol perthnasol wedi bod yn blaengynllunio ers rhai misoedd sut i sicrhau parhad effeithiol i'r gwaith a gyflawnwyd gan Weithgor y Prosiect hwn.
- 7.10. Ceir amryw o 'bencampwyr naturiol' o fewn HGC, sef unigolion brwd a dylanwadol sy'n manteisio ar bob cyfle i 'genhadu' dros y Gymraeg a dwyieithrwydd yn eu gwaith beunyddiol. Mae amryw o'r pencampwyr hyn

eisoes yn aelodau o Bwyllgor yr Iaith Gymraeg, ac yn ôl yr adborth a gawsom, mae'r prosiect wedi 'cyfreithloni' ymhellach eu hymdrechion a chynnig cyfrwng iddynt gryfhau eu cyfraniad ymhellach. Cyfeiriodd un ohonynt at y prosiect fel "golau gwyrdd" yn rhoi rhwydd hant i weithredu'n gadarnhaol i gynyddu defnydd y Gymraeg yn y gweithle. Soniodd amryw fod ymwneud ymgynghorwyr annibynnol (Cwmni Iaith) â'r prosiect yn arwydd o ymrwymiad pellach y Prif Gwnstabl i'r gwaith.

- 7.11. Cyfraniad allweddol arall i waith Pwyllgor yr Iaith Gymraeg – a Gweithgor y Prosiect – yw cyfraniad cynrychiolydd y Tîm Technoleg Gwybodaeth a'i gydweithwyr. Bu'r tîm yn cydweithio'n frwd i wireddu'r gefnogaeth TG i'r prosiect. Amlinellwyd y gefnogaeth honno mewn papur ganddynt yn fuan yn oes y prosiect – er enghraifft trwy osod meddalwedd Cysgliad ar gyfrifiaduron personol cyfranogwyr y prosiect; hwyluso gosod llun bathodyn gyda'r geiriad "Rwy'n siarad Cymraeg" neu "Rwy'n dysgu Cymraeg" yn rhan o lofnodion e-bost swyddogion a staff, a hwyluso anfon cyfres o negeseuon e-bost cadarnhaol ac anogol i swyddogion a staff am y prosiect. Bu'r tîm yn cydweithio hefyd â Bwrdd yr Iaith Gymraeg i dreialu cymwysiaid meddalwedd newydd ar ran y Bwrdd. Mae'r modd mae'r tîm technoleg gwybodaeth wedi perchenogi'r gwaith hwn ac ymateb yn adeiladol i her y prosiect yn argoeli'n dda iawn am y dyfodol oherwydd ymddengys bod agweddau ar ddatblygu'r Gymraeg wedi eu prif-frydio bellach o fewn cwrpas eu gwaith, ac mae'r gwaith hwnnw'n yn ei dro yn cysylltu â phob gweithle a phob gweithiwr o fewn y sefydliad.
- 7.12. Mae buddsoddiad helaeth HGC yn y rhaglen hyfforddiant eang a gynigir i swyddogion a staff wedi creu hinsawdd ffafriol i ddysgwyr y Gymraeg a rhai sydd am wella eu sgiliau Cymraeg. Mae effaith yr ethos cefnogol i ddysgwyr i'w gweld yn glir ymhlith y nifer fawr o ddysgwyr sy'n gweithio yn yr Adran Gweinyddu Cyfiawnder ym Mhrestatyn. Cafwyd tystiolaeth o gryn frwdfrydedd a chreadigrwydd ymhlith y dysgwyr yno o ran sicrhau gweithle cefnogol ac addysgiadol iddynt hwy eu hunain y tu allan i'r oriau dysgu ffurfiol. Mae hyn yn ei dro wedi dylanwadu ar agweddau siaradwyr Cymraeg, a'u gwneud yn fwy ymwybodol a balch o'u sgiliau iaith eu hunain, ac yn fwy parod i siarad Cymraeg â dysgwyr a'u cynorthwyo. Ffactor arwyddocaol iawn yn y cyswllt hwn yw parodrwydd ac ewyllys da rheolwyr wrth gefnogi a hwyluso dulliau datblygu dysgwyr. Cafwyd tystiolaeth bod y prosiect hwn wedi porthi brwdfrydedd dysgwyr, wedi rhoi anogaeth a pheth hyder iddynt roi eu sgiliau iaith ar waith ac wedi codi lefel eu disgywiliadau o ran derbyn cymorth a chefnogaeth i ddysgu.
- 7.13. Fel adnodd cyfathrebu, bu'r Uned Cysylltiadau Cyhoeddus hefyd yn effro iawn i'r cyfleoedd i roi cyhoeddusrwydd i'r prosiect a chafwyd dwy erthygl ddwyieithog sylweddol yn cyfeirio ato yn *Y Glas* – taflen newyddion a ddosberthir i holl gartrefi Gogledd Cymru - yn ystod cyfnod y prosiect.
- 7.14. O droi at le'r Gymraeg yn niwylliant rheoli HGC, crybwyllwyd eisoes y ffaith fod amryw o brif swyddogion HGC yn ddysgwyr Cymraeg, a cheir amryw o rai rhugl yn eu plith. Yn aml iawn mewn cyfarfodydd uwch swyddogion ac wrth annerch grwpiau swyddogion bydd y Prif Gwnstabl yn manteisio ar y cyfle i siarad Cymraeg ac mae'n cadeirio Pwyllgor yr Iaith Gymraeg trwy gyfrwng y Gymraeg.
- 7.15. Mae swyddogion a staff ar bob lefel yn ymwybodol iawn o'r bri a roddir ar y Gymraeg ar lefel uchaf yr Heddlu. Yn ddieithriad, ym mhob un o'r cyfweiliadau

gwerthuso a gawsom â chyfranogwyr y prosiect, cyfeiriodd y cyfranogwyr gyda balchder a gwerthfawrogiad at 'esiamp' y Prif Gwnstabl yn dysgu a defnyddio'r iaith Gymraeg a chyfeiriodd amryw at ymdrechion cyffelyb rhai o'i gyd uwch swyddogion hefyd a ddysgodd y Gymraeg.

- 7.16. Mae'r ffaith bod dyrchafiad mewn swydd, a hynny ar gyfer swyddi ar bob lefel, o'r bôn i'r brig o fewn HGC, bellach yn amodol ar feddu ar gymwyseddau iaith penodol yn cysylltu'r Gymraeg mewn modd pendant ac arwyddocaol â "symud ymlaen mewn gyrfa" – gan wyrdroi braidd duedd hanesyddol hirfaith o fewn heddluoedd Cymru a'r sector gweinyddu cyfiawnder yn gyffredinol.
- 7.17. Ceir ymrwymïadau yng Nghynllun Iaith Gymraeg newydd HGC at integreiddio'r Gymraeg mewn prosesau rheoli a phrosesau penderfynu polisi, ac mae'r Ymgynghorydd Iaith Gymraeg yn tynnu sylw uwch swyddogion fel y bo'n briodol at hyn mewn adroddiadau a fo'n berthnasol i faterion ar lefel strategol ac ar lefel polisi.
- 7.18. Un maes lle canfuwyd gwendid sylweddol o ran integreiddio strategol yw'r modd y buddsoddiwyd yn y system gyfrifiadurol RMS heb roi ystyriaeth ddigonol i brif ffrydio gofynion y Cynllun Iaith statudol yn y fanyleb gymwysïadau. Yn benodol, ni sicrhawyd y gallai RMS gynhyrchu mewnbynnau ac allbynnau Cymraeg mewn modd effeithiol, effeithlon a'r un mor rhwydd â mewnbynnau ac allbynnau Saesneg.
- 7.19. Gwendid strategol arall o ran rheoli'r rhanbarthau yw natur gymharol ynysig Rhanbarth y Gorllewin fel gweithredydd arfer dwyieithog da effeithiol a chyson. Cafwyd tystiolaeth bod gweithrediad ymrwymïadau statudol y Cynllun Iaith yn llai cyflawn a thrwyadl mewn rhai meysydd gweithgarwch yn y Rhanbarth Canolog a Rhanbarth y Dwyrain. I'r cyhoedd, golyga hyn fod safonau gwasanaeth yn anwastad o ranbarth i ranbarth, a gall hyn beri risg o beidio ag ymateb yn effeithiol i ofynion statudol, peidio â gwireddu ymrwymïadau HGC parthed y cydraddoldebau ac amrywioldeb, a thangyflawni o ran safonau gwasanaeth a gofal cwsmer i ddefnyddwyr Cymraeg. Hefyd gall beri dryswch i'r cyhoedd o ran pa fathau o ddarpariaeth Gymraeg y gallant eu disgwyl gan HGC
- 7.20. Maes arall lle y gellid gwella gweithrediad yw trwy integreiddio'r modd y dysgir ac y defnyddir y Gymraeg yn gadarnach ym mhroses gwerthusiad blynyddol swyddogion, staff a rheolwyr (PDR).
- 7.21. Wedi nodi uchod y cynnydd da, rhaid ychwanegu fod y swyddogion arweiniol a llawer o'r cyfranogwyr yn ymwybodol iawn y gallai ymddeoliad neu ymddiswyddiad y Prif Gwnstabl cyfredol, a phenodi Prif Gwnstabl newydd o dueddfryd gwahanol, olygu newid hefyd yn y math o arweiniad a roddir o'r brig ar faterion iaith o fewn HGC. Gall personoliaeth, blaenoriaethau a gwerthoedd unrhyw Prif Gwnstabl gael effaith bellgyrhaeddol ar ddiwylliant mewnol heddlu.
- 7.22. Cyflwynir ein hargymhellion i Heddlu Gogledd Cymru yn adran 8 isod.

Cyngor Sir Ceredigion

- 7.23. Ar sail yr ymarferion gwerthuso a gynhaliwyd trwy gyfrwng holiadur a chyfweliadau â chyfranogwyr CSC wedi 9-10 mis o weithrediad eu mentrau i gynyddu eu defnydd o'r Gymraeg yn eu gweithleoedd, cofnodwyd

O ran cynyddu defnydd y Gymraeg:

- bod 9 o'r 18 cyfranogydd a holwyd yn adrodd eu bod wedi cynyddu eu defnydd llafar o Gymraeg,
- bod 13 o'r 18 cyfranogydd a holwyd yn nodi bod wedi cynyddu eu defnydd ysgrifenedig o Gymraeg.

O ran hyder i ddefnyddio'r Gymraeg:

- bod 5 yn llawer mwy hyderus,
- bod 10 ychydig mwy hyderus, a
- bod 3 yn adrodd na fu unrhyw newid mewn hyder.

Yn ôl yr adborth a gafwyd a'n gwerthusiad ninnau felly barn gyffredinol y cyfranogwyr a'n barn ninnau yw bod y prosiect ar y cyfan wedi llwyddo yn rhannol mewn rhai o'i amcanion o fewn CSC.

- 7.24. O droi at y **mentrau strategol** a weithredwyd, cyflwynir yn **Atodiad 10** adroddiad ar y cynnydd a gafwyd wrth i staff weithio tuag at gyflawni'r mentrau strategol o fewn HGC a CSC. Ar sail y wybodaeth a gafwyd, mae ein barn ni am lwyddiant y mentrau strategol o fewn CSC fel a ganlyn:

1. Yr Uned Personél ac Uned y Prif Weithredwr

Y fenter: cynyddu'r ymwneud â materion personél yn y Gymraeg o fewn y sefydliad drwy amlygu natur ddwyieithog yr Uned Personél a hwyluso gweithdrefnau dwyieithog.

Rydym o'r farn fod y fenter hon wedi llwyddo i ryw raddau yn unig. Wrth i'r prosiect fynd rhagddo daeth yn amlwg nad oedd yr adnoddau angenrheidiol ar ffurf amser staff arweiniol wedi eu blaengynllunio'n ddigon ffurfiol a phrydlon i sicrhau'r cynnydd a ddymunid. Fodd bynnag, yn hwyr yn ystod oes y prosiect cydnabuwyd hyn ac aed ati i baratoi rhai deunyddiau personél yn ddwyieithog at ddefnydd 'cwsmeriaid' yr Uned, gan dynnu sylw atynt yn y papur staff *Sôn y Sir*. Arbrawf llwyddiannus oedd cynnal 5 cwrs Cymorth Cyntaf drwy gyfrwng y Gymraeg. Os parheir i weithio tuag at nod y fenter hon mewn modd cynlluniedig gall yr Uned Personél gyfrannu'n sylweddol at ddwyieithrwydd mewnol CSC yn y dyfodol.

2. Yr Uned Weinyddol, Adran Priffyrdd, Eiddo a Gwaith (ar y cyd ag eraill)

Y fenter: cefnogi dysgwyr a'r llai rhugl i gynyddu eu defnydd o Gymraeg.

Rydym o'r farn fod y fenter hon wedi llwyddo'n rhannol. Menter a fabwysiadwyd yn hwyr yn ystod cyfnod y prosiect yw hon, yn dilyn penderfyniad nad oedd y fenter wreiddiol a ddewiswyd yn briodol.

Yn Hydref 2006 derbyniodd 6 o fentoriaid a 4 o ddysgwyr hyfforddiant a chanllawiau ar ddulliau cefnogi dysgwyr, ynghyd â chymhorthion eraill. Bellach mae ffocws mwy eglur ar y fenter o fewn yr Uned, a'r dysgwyr a'r mentoriaid fel ei gilydd yn gyfforddus â'r hyn a ddisgwylir ohonynt. Gan hynny credir bod hyn yn argoeli'n dda ar gyfer gwreiddio'r fenter hon wedi i gyfnod y prosiect ddod i ben yn ffurfiol.

3. Yr Uned Galwadau, Adran Gwasanaethau Cymdeithasol

Y fenter: ystyried materion ynglŷn â chofnodi galwadau yn Gymraeg a materion TG perthynol.

Rydym o'r farn fod y fenter hon wedi llwyddo'n rhannol. Daeth yn amlwg yn ystod cyfnod y prosiect ei bod yn annhebygol y gellid addasu'r system feddalwedd *Draig* ar fyr o dro. Serch hynny mae'r prosiect wedi llwyddo'n rhannol trwy ennyn trafodaeth ar lefel strategol am gymwysiaid *Draig* gyda golwg ar wireddu nod a fynegir yng ngeiriad y fenter hon.

7.25. Ceir cofnod cyflawn o ganfyddiadau'r ymarferion gwerthuso yn ein hadroddiad i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar Ran 2 y prosiect, a atgynhyrchir yn **Atodiad 11**. Trafodir ein prif ganfyddiadau isod.

7.26. Rydym o'r farn bod y ffactorau a nodir isod wedi cyfrannu at yr agweddau mwyaf llwyddiannus ar weithrediad y Prosiect o fewn CSC:

- Darperir rhaglen hyfforddiant Cymraeg i staff a swyddogion CSC, gydag ystod eang o gyrsiau yn amrywio o gyrsiau gloywi iaith i gyrsiau i ddechreuwyd.
- Mae gan CSC Bwyllgor Iaith Gymraeg mewnol sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r gwahanol gyfarwyddiaethau a gwasanaethau. Mae'r cynrychiolwyr hynny yn gyfrifol am weithredu penderfyniadau'r Pwyllgor a hyrwyddo defnydd y Gymraeg yn eu sefyllfaoedd lleol. Mae'r Pwyllgor yn cyfarfod yn ysbeidiol yn ôl yr angen, a'r Prif Swyddog Gweinyddol sy'n cadeirio ei gyfarfodydd.
- Mae gan CSC Uned Gyfieithu gyda 4 cyfieithydd amser llawn i hwyluso cynhyrchu testunau dwyieithog ar ran yr holl adrannau a rhanbarthau, ac sy'n darparu gwasanaeth cyfieithu-ar-y-pryd mewn cyfarfodydd.
- Cymraeg yw prif iaith cyfarfodydd yr aelodau etholedig.
- Ar Gabinet y Cyngor ceir Cynghorydd etholedig sy'n gyfrifol am bortffolio o gyfrifoldebau sy'n cynnwys materion yn ymwneud â'r iaith Gymraeg.

- Mae gweithlu'n dod o ddalgylch sy'n draddodiadol Gymraeg a Chymreig ac mae'r ganran uchel o siaradwyr Cymraeg yn eu plith wedi arfer defnyddio'r Gymraeg mewn nifer o beuoedd gwaith, yn enwedig wrth gyfathrebu â'r cyhoedd a'u cydweithwyr ar lafar.
 - Tîm TGCh sydd wedi llwyddo i brif-ffrydio agweddau ar ddatblygu'r Gymraeg o fewn cwmplas eu gwaith, a'r gwaith hwnnw yn ei dro yn cysylltu â phob gweithle a phob gweithiwr o fewn y sefydliad.
 - Uned gysylltiadau cyhoeddus sydd wedi llwyddo i gyfleu negeseuon positif ac adeiladol i'r gweithlu am y Gymraeg yn gyffredinol ac am y prosiect hwn yn benodol.
- 7.23. O gymharu'r sefyllfa o fewn CSC â'r sefyllfa o fewn HGC daw nifer o wahaniaethau i'r amlwg . Trafodir amryw agweddau ar y gwahaniaethau hyn yn y paragraffau canlynol.
- 7.24. Nid oes gan CSC yr un swyddog sydd â gofalaeth amser llawn dros hwyluso gweithrediad y Cynllun Iaith, prif-ffrydio'r Gymraeg ym mhrosesau cynllunio strategol yr awdurdod a'i gynlluniau gwasanaeth, datblygu mentrau i sicrhau cydraddoldeb i'r Gymraeg fel rhan o agenda cydraddoldebau y Cyngor, datblygu ymateb yr awdurdod i heriau *Iaith Pawb*, na datblygu canllawiau ac arfer da at ddefnydd staff. O ganlyniad, nid yw bri a statws y Gymraeg fel iaith a berthyn i beuoedd ffurfiol ac anffurfiol cyfuwch ag ydyw mewn rhai awdurdodau lleol llawer llai Cymraeg a Chymreig eu dalgychoedd a'u gweithluoedd. Mae sefyllfa Cyngor Sir Ceredigion yn eithriad braidd i'r patrwm hwn. Ceir swyddi o'r math hwn yn awdurdodau lleol Powys, Caerfyrddin, Gwynedd, a Chonwy a hyd yn oed mewn ardaloedd llawer llai Cymraeg megis Caerffili, Blaenau Gwent a Sir y Fflint. Er y caiff ei hystyried ymhlith siroedd Cymreiciaf Cymru o hyd, nid oes ganddo 'Swyddog Iaith' yn yr ystyr uchod, ac mae'r cyfrifoldeb am yr iaith Gymraeg yn rhan gymharol fechan o'r portffolio helaeth iawn o gyfrifoldebau a swyddogaethau sydd gan y Prif Swyddog Gweinyddol.
- 7.25. Wrth ymweld â Chyngor Gwynedd am y diwrnod cyd-drafod a drefnwyd fel rhan o'r prosiect hwn, cafwyd ar ddeall mai'r drefn yno yw bod amryw o swyddogaethau pwysig hyn yn cael eu rhannu rhwng nifer o swyddogion allweddol yn ogystal â bod yn rhan o gylch gorchwyl swydd Swyddog Hyrwyddo'r Gymraeg. Nid oes trefn o'r math hwn ar waith chwaith gan Gyngor Ceredigion. Crynhoir y cyfrifoldebau i gyd yn hytrach o fewn cylch gorchwyl aml-swyddogaeth y Prif Swyddog Gweinyddol.
- 7.26. Golyga hyn nad oedd gan y Cyngor swyddog ar lefel uwch i ymroi'n rhagweithiol am gyfran helaeth o oriau gwaith swydd amser llawn i'r dasg o hybu perchenogaeth ar y prosiect a gwreiddio a lledu unrhyw arferion da a ddeilliodd ohono.
- 7.27. Er bod canran uchel o staff CSC yn siaradwyr Cymraeg, oherwydd y diffyg adnodd staff pwrpasol ac arbenigol, a diffyg ffocws parhaus a threiddgar ar faterion iaith, nid oedd lefel ymwybyddiaeth iaith cyfranogwyr y prosiect yn CSC cyfuwch ag a gafwyd ymhlith staff HGC. Nid oedd neb o'r staff erioed wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth strwythuredig am y Cynllun Iaith na fawr o anogaeth nac arweiniad chwaith o frig y sefydliad i ddefnyddio eu

Cymraeg i ddibenion gwaith. O ganlyniad, wrth weithredu'r Cynllun Iaith heb lawer o arweiniad, mae staff Cymraeg yn tueddu i fod yn gyfforddus yn defnyddio'r Gymraeg mewn peuoedd nad ydynt yn rhy wahanol i beuoedd mwy traddodiadol yr iaith, megis cyfarchion a sgwrsio un-wrth-un, wyneb yn wyneb neu dros y ffôn.

- 7.28. Gan fod y prosiect yn gofyn am estyn y Gymraeg i beuoedd newydd, mae hyn yn golygu newid arferion ac agweddau. Wrth geisio cyflwyno newid o'r fath y mae angen rheoli'r newid a'i lywio'n ofalus, gan gydnabod y gall rhai staff fod yn betrus neu'n ddihyder i estyn eu defnydd iaith i beuoedd anghyfarwydd. O fewn CSC nid oes adnoddau staffio i gyflawni'r gwaith o 'reoli'r newid', hyd yn oed o fewn cwmpas cyfyngedig y prosiect hwn. Nid oedd y tir wedi ei fraenaru gan unrhyw flaengarwch blaenorol cysylltiedig â gweithredu'r Cynllun Iaith chwaith.
- 7.29. Mae hyn yn ei dro wedi effeithio ar lefel hyder siaradwyr Cymraeg oherwydd nid yw ethos y diwylliant mewnol wedi bod yn mor rhagweithiol, anogol a galluogol ag y galla. Roedd yn arwyddocaol er enghraifft fod lefelau hyder a brwdfrydedd nifer o'r dysgwyr o fewn HGC yn uwch na yr oeddent ymhlith amryw o siaradwyr Cymraeg o fewn CSC.
- 7.30. Hyd nes y cyhoeddwyd ei Gynllun Iaith diwygiedig yn 2006 nid oedd gan CSC bolisi ar ddatblygu defnydd y Gymraeg yn fewnol. O ganlyniad, nid oes cyfarwyddyd strategol na disgwyliadau pendant i Uwch Reolwyr feithrin a datblygu'r agweddau dwyieithog a arddelir yng Nghynllun Iaith diwygiedig CSC, er bod rhai yn eu plith yn gefnogol ac yn frwd dros agweddau o'r fath.
- 7.31. Wrth ystyried y modd y rheolir adnoddau sgiliau cyfathrebu'r Cyngor yn gyffredinol, ymddengys, er bod ganddo 'strategaeth sgiliau iaith', nad oes trefn gadarn iawn yn ei le i recriwtio, datblygu a defnyddio sgiliau iaith yn y modd a argymhellir gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn eu canllawiau statudol. Mae hyn i'w wrthgyferbynnu'n amlwg â pholisi recriwtio rhagweithiol HGC a'i amodau ieithyddol ar benodiadau.
- 7.32. O droi at gyfraniad posibl pencampwyr lleol yn eu gweithleoedd, roedd Gweithgor Prosiect wedi ei sefydlu i gydlynu'r gwaith, gyda chysylltwyr yr unedau cyfranogol yn aelodau ohono. Er brwdfrydedd ac ewyllys da'r cysylltwyr hynny a chydweithrediad effeithiol y mwyafrif ohonynt, roeddent hwythau hefyd dan anfantais wrth geisio cyfrannu at y prosiect oherwydd nid oedd swyddog arweiniol cydlynus i yrru'r gwaith prosiect yn ei flaen yn rhagweithiol a sicrhau digon o amlygrwydd na blaenoriaeth iddo ac nid yw eu cylch gorchwyl yn eglur.
- 7.33. Wedi dweud hynny, mae Gweithgor y prosiect wedi bod yn strwythur defnyddiol iawn ar gyfer tynnu 'pencampwyr naturiol' a darpar bencampwyr ynghyd i weithredu camau penodol iawn. Hefyd, tynnodd ynghyd swyddogion o wahanol ddisgyblaethau proffesiynol i greu llwyfan cyffredin ar gyfer cydgysylltu ymdrechion gwahanol gyfranwyr megis:
- Yr uned TG
 - Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus
 - Y gwasanaeth cyfieithu
 - Tiwtor Cymraeg
 - Swyddog Hyfforddiant

7.26. Ystyriwn fod gweithgarwch rhai o'r cyfranwyr hyn wedi gosod cyseiliâu pwysig y gellid adeiladu arnynt yn y dyfodol os yw'r Cyngor am symud rhagddo i wreiddio arferion da. Er enghraifft, fel rhan o'r prosiect:

- cynhaliwyd sesiynau hyfforddiant cymorth cyntaf yn Gymraeg am y tro cyntaf; a
- cynhaliwyd sesiynau briffio i ddarpar fentoriaid a dysgwyr o fewn yr Adran PEG er mwyn sefydlu trefn mentora addas a phriodol.

Mae'r datblygiadau hyn, ac eraill y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn, yn awgrymu, wrth i'r prosiect dynnu at ei derfyn, fod yna botensial i feithrin 'pencampwyr' a chyfranwyr allweddol ar sail tasgau penodol a deilliannau penodol fel yr uchod.

7.27. Os bydd CSC am fynd rhagddo i gaffael yr adnoddau staffio arbenigol a digonol i gydlynu a rhoi ffocws a chyfeiriad pwrpasol i waith y cyfranwyr hyn, gallai'r gyd-ddealltwriaeth a'r cydweithio da a sefydlwyd ymhlith aelodau'r Gweithgor argoeli'n dda gyfer prif-ffrydio defnydd y Gymraeg yn drawsadrannol ac yn drawsbynciol yn y dyfodol. Gallai hyn yn ei dro hwyluso meithrin hinsawdd adeiladol ar gyfer gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg newydd yr awdurdod a cheisio sicrhau parhad rhai o'r arferion da ddeilliodd o'r prosiect hwn.

7.28. Ar lefel arweiniad strategol, rhoesai Bwrdd yr Iaith Gymraeg gyflwyniad llafar ar y prosiect gerbron y Tîm Rheoli cyn i'r gwaith paratoawl ddechrau ar ei gyfer yng ngaeaf 2005, a chael ymateb ffafriol ganddynt. Hefyd, ar ddiwrnod lansio'r prosiect, rhoddodd Arweinydd y Cyngor anerchiad cefnogol ac anogol i'r cyfranwyr gan osod cywir positif iawn iddo.

7.29. Fodd bynnag, pan gyfwelwyd â'r Prif Weithredwr yng ngwanwyn 2006 roedd ef yn ystyried mai prosiect er budd Bwrdd yr Iaith Gymraeg fyddai hwn yn bennaf, yn hytrach na'i weld fel prosiect arbrofol y gallai'r Cyngor fanteisio arno fel modd gofalus i gyflwyno newidiadau yn niwylliant mewnol yr awdurdod. Yn ystod cyfnod y prosiect, ar wahân i waith cydlynol y Prif Swyddog Gweinyddol a'i rôl fel prif gysylltydd o fewn CSC, ni fu llawer o gysylltiad rhwng y prosiect â'r Tîm Rheoli. Prin felly y gellir adrodd y cafwyd arweiniad o frig yr hierarchaeth swyddogion o fewn CSC na bod diwylliant rheoli CSC yn rhoi arwyddion clir a phendant ei fod yn rhoi bri ar weithredu trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn anffodus felly, oherwydd y gwahanol ffactorau uchod, am y rhan fwyaf o gyfnod y prosiect nid oedd adnoddau yn eu lle, na'r hinsawdd briodol wedi ei chreu, i arwain CSC i "berchenogi'r" cysyniad sy'n sail i'r prosiect - yn strategol nac yn niwylliant eu gweithleoedd.

7.30. Fodd bynnag, yng nghyfnod diweddaraf y prosiect cafwyd sawl arwydd pendant fod y prosiect yn dechrau ymsefydlu'n well. Bu'r aelod Cabinet sy'n gyfrifol am y portffolio o gyfrifoldebau sy'n cynnwys yr iaith Gymraeg yn bresennol yng nghyfarfodydd y Gweithgor, gan ddangos cefnogaeth aelodau etholedig y Cyngor i'r prosiect. Bwriedir hefyd gyflwyno adroddiad cynnydd ar y prosiect gerbron y Tîm Rheoli a'r Cabinet.

7.31. Bu'r Gweithgor yn trafod eisoes yr angen am ddatganiad polisi mewnol fyddai'n rhoi arwydd clir a diamwys i'r staff fod yr awdurdod am feithrin mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn ei weinyddiaeth fewnol. Yn y cyswllt hwn cyfeiriwyd at Strategaeth Iaith CPSH HGC, y cyfeirir ato yn adran 4 uchod. Yn sgîl y

drafodaeth honno lluniwyd datganiad drafft i'w drafod ymhellach gan y Tîm Rheoli a'r Cyngor.

- 7.32. Yng ngoleuni'r drafodaeth uchod a'n gwerthusiad o effaith a dylanwad y prosiect hyd yma, cyflwynir ein hargymhellion i Gyngor Sir Ceredigion yn adran 8 isod.

8. Argymhellion i Heddlu Gogledd Cymru a Chyngor Sir Ceredigion ar wreiddio dylanwad y prosiect

8.1. Argymhellion i Heddlu Gogledd Cymru

1. Dylid parhau i wreiddio ac integreiddio defnydd y Gymraeg yng ngweithdrefnau, systemau ac arferion gwaith HGC fel ei fod yn rhan annatod o wead gwasanaeth plismona Heddlu Gogledd Cymru a'r diwylliant gwaith sy'n gefn iddo.
2. Dylai'r Pwyllgor Iaith ystyried sut sicrhau parhad y cynnydd a'r brwdfrydedd a ysgogwyd o dan y prosiect.
3. Dylid cytuno ar brotocolau ynglŷn â defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith mewn amrywiol sefyllfaoedd sy'n cefnogi a phrif-ffrydio parhad amcanion y prosiect hwn a Strategaeth Iaith Cymdeithas Prif Swyddogion yr Heddlu (CPSH).
4. Dylid ffurfioli rywfaint ar swyddogaeth a chyfraniad cynrychiolwyr adrannol y Pwyllgor Iaith a 'phencampwyr' lleol trwy eu diffinio'n eglur.
5. Dylid cysoni ansawdd a safonau gwasanaethau dwyieithog HGC o Ranbarth i Ranbarth a'r cyfleoedd a'r anogaeth i'w swyddogion a'i staff ddefnyddio'r Gymraeg wrth gynnal y weinyddiaeth fewnol.
6. Dylid integreiddio hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith yn elfen graidd o'r hyfforddiant proffesiynol i swyddogion a staff.
7. Dylid sicrhau bod holl systemau cyfrifiadurol HGC yn gallu gweithredu mewn modd sy'n ieithyddol briodol ac yn effeithiol o ran cynnal busnes HGC yn ddwyieithog, a dylid sicrhau bod pob system a gynllunnir ac a archebir yn y dyfodol yn cael ei flaengynllunio i'r perwyl hwn.
8. Dylai'r Pwyllgor Iaith ystyried trefnu cyfres o ymarferion monitro i brofi safonau ac effeithiolrwydd gwasanaethau dwyieithog HGC ac ymwybyddiaeth staff o arferion dwyieithog da.
9. Dylid ystyried integreiddio agweddau ar ddysgu, defnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg mewn modd mwy treiddiol yn y broses gwerthuso staff (PDR) fel a ganlyn:
 - Cynnwys yn y PDR i staff a swyddogion werthusiad o gyflawniad staff wrth ddysgu Cymraeg yn ôl targedau dysgu cytunedig.

- Cynnwys yn y PDR i staff a swyddogion werthuso i ba raddau y defnyddiant eu sgiliau Cymraeg i hyrwyddo dibenion y Cynllun Iaith a Strategaeth CPSH.
 - Cynnwys yn y PDR i reolwyr werthusiad o'u heffeithiolrwydd wrth reoli adnoddau sgiliau iaith eu gwasanaethau, hyrwyddo ethos Gymraeg o fewn y gweithle a chreu hinsawdd ffafriol sy'n cyfrannu at wireddu amcanion y Cynllun Iaith a Strategaeth CPSH.
10. Ar lefel cyfranogwyr y prosiect dylid ystyried yr argymhellion manylach a gynigir yn ein hadroddiad gwerthuso a gyflwynwyd i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

8.2. Argymhellion i Gyngor Sir Ceredigion

1. Dylid gosod arweiniad polisi cadarn.
2. Dylid penodi swyddog arweiniol penodol i'w hyrwyddo, i hwyluso gweithrediad y Cynllun Iaith a datblygu ymatebion rhagweithiol ar lefel polisi a'r lefel gweithredu gwasanaethau i'r heriau sydd ynddo a'r agenda ieithyddol ehangach.
3. Dylid datblygu a chytuno ar brotocolau ynglŷn â defnyddio'r Gymraeg yn y gwaith mewn amrywiol sefyllfaoedd sy'n cefnogi a hwyluso amcanion polisi.
4. Dylid sicrhau amser ac adnoddau digonol i gynllunio arweiniad a chefnogaeth.
5. Dylid datblygu rôl y deilydd portffolio perthnasol a sicrhau blaenoriaeth briodol.
6. Dylid sefydlu trefn safonol i ddynodi gofynion iaith swyddi o fewn fframwaith Strategaeth Sgiliau Iaith.
7. Dylid sicrhau cyfundrefn o hyfforddiant dysgu a gloywi iaith eang ei gyrhaeddiad ynghyd â chynllun mentora awdurdod-gyfan.
8. Dylid datblygu rhaglen eang o hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith ar gyfer swyddogion ac Aelodau yr awdurdod, gan ddechrau trwy hyfforddi'r Tîm Rheoli.
9. Dylid sicrhau bod holl systemau cyfrifiadurol CSC yn gallu gweithredu mewn modd sy'n ieithyddol briodol ac yn effeithiol o ran cynnal busnes CSC yn ddwyieithog, a dylid sicrhau bod pob system a gynllunnir ac a archebir yn y dyfodol yn cael ei flaengynllunio i'r perwyl hwn.
10. Dylid ystyried trefnu cyfres o ymarferion monitro annibynnol i brofi safonau ac effeithiolrwydd gwasanaethau dwyieithog CSC ac ymwybyddiaeth staff o arferion dwyieithog da.

11. Ar lefel cyfranogwyr y prosiect dylid gweithredu'r argymhellion manylach a gynigir yn ein hadroddiad gwerthuso a gyflwynwyd i Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

Adran 2: Agweddau ar y cyd-destun ehangach

9.0 Gwersi i'w dysgu gan gyrff sydd eisoes yn gweinyddu yn y Gymraeg

- 9.1 Er mwyn dysgu gwersi ynglŷn â hyrwyddo gweithleoedd dwyieithog gan gyrff sydd eisoes yn gweinyddu yn y Gymraeg aethpwyd ati i gasglu tystiolaeth drwy holi unigolion allweddol yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth, Cyngor Llyfrau Cymru, Aberystwyth, a Tai Cantref, Castellnewydd Emlyn. Cafwyd cyfweiliad wyneb yn wyneb gyda'r Penaethiaid Adnoddau Dynol yn y tri achos.
- 9.2 At hynny, ymwelwyd â Chyngor Gwynedd yng nghwrs y prosiect gan fanteisio ar y cyfle i holi amrywiol aelodau staff ynglŷn â pholisi ac arferion y Cyngor parthed y defnydd mewnol o Gymraeg. Cynhaliwyd cyfweiliad estynedig hefyd gyda Chyfarwyddwr Cynorthwyol o Adran Addysg a Gwasanaethau Cymunedol, Cyngor Sir Ceredigion, ynghyd â'r Cyfieithydd Adran. Mae'r Adran hon yn enghraifft o adran sydd, yng nghanfyddiad aelodau adrannau eraill y Cyngor Sir hwnnw a'r cyhoedd yn gyffredinol, yn adran sy'n gweinyddu yn Gymraeg neu yn sicr yn adran sy'n rhoi bri ar y Gymraeg o fewn ei gweithgareddau.

Arferion cyfredol

- 9.3 Yng Nghyngor Gwynedd, y Llyfrgell Genedlaethol, y Cyngor Llyfrau a Thai Cantref, y Gymraeg yw prif iaith gwaith y staff drwy'r trwch. O blith gweithlu o ryw 300 amcanir fod 98% o staff y Llyfrgell Genedlaethol hefyd yn medru'r Gymraeg. Mae pawb namyn tri o'r 47 aelod staff sefydlog yn y Cyngor Llyfrau yn medru'r Gymraeg (ac eithrio pacwyr achlysurol yn y Ganolfan Dosbarthu Llyfrau). Dau yn unig o'r 70 aelod staff yn Nhau Cantref sy'n ddi-Gymraeg. Nid oes ystadegau cadarn ynglŷn â sgiliau iaith gweithlu Cyngor Gwynedd ond amcangyfrifir fod y ganran o leiaf cyfuwch os nad yn uwch na'r ganran gyffredinol o siaradwyr Cymraeg ym mhoblogaeth y Sir, sef tua 70%.
- 9.4 Cymraeg, bron yn ddieithriad yw iaith cyfathrebu mewnol y tri sefydliad hynny ar lafar ac yn ysgrifenedig. Dosberthir memos a chyfathrebiadau cyffredinol eraill yn y Gymraeg fel rheol, neu'n ddwyieithog os yw unigolion di-Gymraeg yn rhan o'r gynulleidfa. Amcangyfrifir fod 90% o'r negeseuon e-bost o fewn y Llyfrgell Genedlaethol yn cael eu gyrru yn y Gymraeg. Diau y gallai fod yn uwch na hynny o fewn y Cyngor Llyfrau a Thai Cantref. Mae gwefannau allanol a mewnol y cyrff hyn yn ddwyieithog.
- 9.5 Cymraeg yw iaith cyfarfodydd mewnol hefyd bron yn ddieithriad. Amcangyfrifir fod tua 80% o holl gyfarfodydd y Llyfrgell Genedlaethol yn digwydd drwy'r Gymraeg gyda chyfran arall yn digwydd yn ddwyieithog. Eithriadau yw cyfarfodydd uniaith Saesneg. Yn achos y Cyngor Llyfrau, eithriadau i'r arfer o gynnal cyfarfodydd cyfrwng Cymraeg yw cyfarfodydd sy'n ymwneud â chyhoeddi'n Saesneg neu gyfarfodydd ynglŷn ag ymgyrchoedd gwerthu sy'n cael eu trefnu gan staff di-Gymraeg. Cymraeg yw iaith cyfarfodydd mewnol Tai Cantref ac eithrio ambell gyfarfod tîm a gynnwys aelod(au) staff di-Gymraeg. Cynhelir y rheiny'n ddwyieithog. Nodwyd, yn Nhau Cantref, y byddai ambell gyfarfod rhwng unigolion o staff yn medru digwydd yn Saesneg o dro i dro ond eithriadau fyddai'r rheiny.

- 9.6 Yn yr achosion hynny lle y bydd unigolion di-Gymraeg yn bresennol mewn cyfarfodydd mae'r Llyfrgell yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd (CAYP). Felly hefyd Tai Cantref. Digwydd hynny yng nghyfarfodydd Cyngor a Phwyllgor Llywio'r Cyngor Llyfrau yn ogystal. Mewn cyfarfodydd staff y Cyngor Llyfrau mae cyfieithu yn digwydd mewn modd mwy anffurfiol gydag aelod Cymraeg o staff yn eistedd gydag aelod di-Gymraeg i 'sibrwd' cyfieithiad o'r drafodaeth. Mae'r tri sefydliad yn cynnal cyfarfodydd cyfrwng Cymraeg gyda'u partneriaid a'u cyflenwyr o ddewis, gyda'r Llyfrgell yn darparu offer CAYP ar gyfer hwyluso trafodaethau dwyieithog.
- 9.7 Y Gymraeg yw prif iaith cyswllt anffurfiol y ddau sefydliad yma hefyd ac yn achos y Llyfrgell Genedlaethol mae Bwyty Pen Dinas yn ffocws delfrydol ar gyfer ymwneud anffurfiol staff â'i gilydd. Mae tai cantref yn trefnu digwyddiadau cymdeithasol achlysurol dros y penwythnos lle gall staff a'u partneriaid ddefnyddio'u Gymraeg yn gymdeithasol.
- 9.8 O droi at Gyngor Gwynedd, yr enghraifft amlycaf o bosibl o weinyddu mewnol dwyieithog, deallwn fod y sefyllfa yn debyg iawn i'r hyn a ddisgrifiwyd uchod gyda'r Gymraeg yn cael ei harddel fel prif iaith weinyddol y Cyngor. Cymraeg fyddai iaith cyfarfodydd mewnol a chyfathrebiadau mewnol ar y cyfan gydag eithriadau yn cael eu caniatáu yn achlysurol mewn ambell i amgylchiad. Mae gwasanaeth CAYP ar gael i staff gyda chyfrifoldeb am ddarparu hynny wedi ei ddatganoli i adrannau unigol. Mae'r gwasanaeth cyfieithu hefyd ar gael i staff er mwyn cyfieithu deunydd i'r Saesneg.
- 9.9 Yng nghyswllt Ceredigion mae yna ganfyddiad cadarn y tu mewn a'r tu allan i'r Cyngor fod gan Adran Addysg a Gwasanaethau Cymunedol Cyngor Sir Ceredigion ethos Gymraeg gadarn. Diau fod hynny'n wir gyda'r Gymraeg yn brif iaith gwaith rhan helaeth o'r Adran, ar lafar beth bynnag. Fodd bynnag, ceir nifer o unedau gwasanaeth o fewn yr Adran ac o ystyried arferion gwaith yn yr unedau hynny fesul un gwelir fod yna ystod o batrymau defnydd iaith yn ymddangos o un uned i'r llall, gydag unedau fel Theatr Felin-fach a'r Llyfrgelloedd yn gweithredu bron yn gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg; Tîm yr Ymgynghorwyr a'r Uned Ysgolion yn gwneud defnydd helaeth o'r Gymraeg ar lafar ac yn ysgrifenedig; uned megis y Gwasanaeth Hamdden a'r Uned Gwaith Ieuencid yn gweinyddu'n fewnol yn uniaith Saesneg i bob pwrpas; ac unedau eraill, megis yr Archifau a'r staff gweinyddol yn gweithredu'n ddwyieithog i amrywiol raddau. Darperir Cyfieithydd Adran i hwyluso dwyieithrwydd ysgrifenedig yr Adran ac fe amcangyfrifir, am y deunydd testunol / ysgrifenedig, mai 25% o waith proffesiynol yr Adran a 5% o'r gwaith gweinyddol a lunnir yn wreiddiol yn y Gymraeg. (Defnyddir gwasanaethau cyfieithu gan y pedwar corff arall hefyd, wrth reswm, i hwyluso cynhyrchu deunydd dwyieithog). O ran cyfarfodydd mewnol y Gymraeg fyddai'r iaith gyffredin ymysg siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, nid oes protocol na threfn gynorthwyol mewn grym i hwyluso cyfarfodydd dwyieithog o fewn yr Adran a'r Saesneg a ddefnyddir yn iaith gyffredin ar adegau felly.

Arweiniad Polisi

- 9.10 Mae gosod arweiniad polisi cadarn yn ymddangos yn gwbl ganolog er mwyn hyrwyddo'r defnydd o Gymraeg yn y gweithle ym mhob un o'r sefydliadau a holwyd. O fewn Cyngor Gwynedd mae'r arweiniad hynny wedi ei roi yn gwbl eglur gyda'r Gymraeg wedi ei datgan yn brif iaith weinyddol y Cyngor. Mae'r

Cynllun iaith yn datgan mai un o brif amcanion y Cyngor ynglŷn â'r Gymraeg yw

- *“Sefydlu'r Gymraeg fel iaith swyddogol gweinyddiad mewnol y Cyngor gan ddarparu cyfleusterau hyfforddi mewn swydd i alluogi staff i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol yn y Gymraeg a'r Saesneg”.*

9.11 Mae'r amcan hwn yn cyd-fynd ag amcanion eraill ynglŷn â hyrwyddo'r Gymraeg o fewn ac oddi allan i'r Cyngor, yn y gymuned ac ymhlith partneriaid corfforaethol. Mae gan Tai Cantref bolisi cryw ar y mater hwn hefyd sy'n gorwedd o fewn gweledigaeth eang o swyddogaeth y sefydliad yng nghydestun y Gymraeg. Mae'r polisi bellach wedi ei ymgorffori yn eu Cynllun Iaith drafft. Wele ddetholiad ohono:

“Prif bwrpas polisi iaith Cantref yw hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg o fewn dalgylch dwyieithog. Drwy'i pholisi mae Cantref yn sicrhau fod tenantiaid yn cael gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl eu dewis. Cymraeg hefyd yw iaith weinyddol fewnol Cantref”.

9.12 Nid oes datganiadau cadarn i'r perwyl hynny wedi eu gosod yn achos y Llyfrgell Genedlaethol na'r Cyngor Llyfrau. Mae'r sefyllfa yno wedi datblygu drwy gyfuniad o ethos gadarn o blaid y Gymraeg ac arferion hanesyddol y staff. Arferion sydd wedi esblygu'n 'naturiol' mewn amgylchiadau lle mae'r mwyafrif llethol yn siaradwyr Cymraeg ac mewn awyrgylch sy'n rhoi bri ar y Gymraeg. Fodd bynnag, mae'r arferion hynny yn cael eu cefnogi'n llawn ac yn hyglyw gan uwch reolwyr y sefydliadau hynny ar bob lefel.

9.13 Yn draddodiadol mae'r un ethos, hanes a thraddodiad o blaid y Gymraeg yn wir am Adran Addysg a Gwasanaethau Cymunedol Cyngor Sir Ceredigion. Fodd bynnag, wrth i nifer y staff di-Gymraeg gynyddu o fewn yr adran, heb ddatganiad cryw o le'r Gymraeg o fewn y weinyddiaeth, fe allai'r etifeddiaeth a'r gwerthoedd hynny gael eu herydu. Mae'r Llyfrgell wedi adnabod y perygl hwnnw yn ddiweddar wrth i brosiectau blaengar newydd gael eu sefydlu ac mae cynlluniau ar droed i greu dogfen a elwir yn 'Dyletswydd iaith' a fydd yn cydeistedd â theulu o 'Ddyletswyddau' eraill mewn perthynas â'r Cydraddoldebau.

9.14 O ran hyrwyddo'r polisi arferion iaith, ac yn wir y cynlluniau iaith, nid oedd gan yr un o'r sefydliadau yma 'Swyddog iaith' penodol. Ymddengys fod y cyfrifoldeb am hyrwyddo, cefnogi ac arolygu gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg - yn fewnol ac yn allanol - wedi ei brif-ffrydio i swyddogaethau corfforaethol amrywiol o fewn y sefydliadau: Penaethiaid AD, Swyddogion Hyfforddi a Phrif Weithredwyr neu Gyfarwyddwyr Gweithredol. Dyna yn sicr y sefyllfa o fewn Cyngor Gwynedd

Y Gymraeg fel cymhwysedd i swydd

9.15 Ystyrir y Gymraeg yn gymhwysedd cyffredinol yng Nghyngor Gwynedd, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Tai Cantref a'r Cyngor Llyfrau. Mae'r diwyllianau mewnol yn rhan o'r cyd-destun ar gyfer hynny ond mae natur y gwaith neu'r gynulleidfa sydd i'w gwasanaethu yn gwbl greiddiol i bennu lefelau sgiliau iaith yn ogystal. Roedd y Cyngor Llyfrau yn pwysleisio, gydag ambell eithriad, fod angen i bob aelod o'i staff wybod Cymraeg i wahanol

lefelau at wahanol ddibenion o'r Tîm Rheoli i'r staff yn y Ganolfan Lyfrau sy'n darllen archebion ac yn pacio teitlau. Natur y gwaith, felly, yw'r cymhelliad pennaf yn y cyswllt yma gyda hynny'n tarddu o *raison d'être* sylfaenol y Cyngor - hyrwyddo llyfrau Cymraeg a Chymreig. Fel y nodwyd uchod mae Cantref yn rhoi pwyslais ar natur ieithyddol yr ardal y mae'n ei gwasanaethu yn ogystal â'u dyletswyddau o dan eu Cynllun Iaith. Mae gofynion swyddi unigol a diwylliant mewnol y sefydliad yn ffactorau sy'n cyfiawnhau'r gofynion iaith.

- 9.16 Wrth i'r Llyfrgell Genedlaethol ddatblygu ei gwasanaethau cyhoeddus dros y blynyddoedd diwethaf mae caffael a datblygu sgiliau Cymraeg wedi dod yn gynyddol bwysig o fewn y sefydliad. Mwy felly na phetai yn dwr ifori academaidd a chaeedig yn unig. Mae'r Llyfrgell yn y broses o ddatblygu fframwaith cymwyseddau gyda gwybodaeth o'r Gymraeg yn gymhwysedd sylfaenol ochr yn ochr ag agweddau eraill megis cyfathrebu, arweinyddiaeth, y gallu i wneud penderfyniadau ac ati. Bydd fersiwn diwygiedig y Llawlyfr i Reolwyr yn cynnwys fframwaith i fesur cymhwysedd yn y Gymraeg. Mae fframwaith o gymwyseddau iaith yn cael ei ddefnyddio'n gyfredol gan Cantref ac mae Cyngor Gwynedd hefyd yn ystyried camau tebyg ar hyn o bryd gan ystyried mabwysiadu'r fframwaith Ewropeaidd ALTE ar gyfer gwneud hynny, gyda bwriad i nodi lefelau iaith hanfodol ar gyfer swyddi unigol maes o law.
- 9.17 Mae medru'r Gymraeg yn cael ei nodi yn gymhwysedd swydd o fewn Adran Addysg a Gwasanaethau Cymunedol Cyngor Sir Ceredigion hefyd ond heb fod yna fframwaith ffurfiol i'w chynorthwyo yn y broses honno. Y duedd yno yw edrych ar achosion unigol yn ôl eu haeddiant a'u hamgylchiadau. Ymddengys y gallai mabwysiadu Strategaeth Sgiliau Iaith neu fframwaith cymwyseddau fod yn gaffaeliad mawr iddyn nhw wrth benderfynu a rhesymoli'r angen am sgiliau Cymraeg.
- 9.18 Er bod y Gymraeg wedi ei gosod yn gymhwysedd swydd yn y sefydliadau hyn cefnogaeth ac anogaeth oedd yr arfau a ddefnyddir i ddwyn y maen i'r wal. Er bod sancsiynau yn erbyn diffyg cyflawniad yn bosibilrwydd dim ond un enghraifft a gafwyd ymhlith y sefydliadau yma o ddiswyddiad o achos anallu i gyrraedd lefel o fedred disgwylidig yn y Gymraeg. Roedd creu awyrgylch gefnogol ac anogol i'w gweld yn arfau llawer mwy cadarnhaol a hynny ar sail diwylliant gwaith cyfrwng Cymraeg cadarn.

Cefnogi staff

Gwella sgiliau Cymraeg

- 9.19 Mae'r pum sefydliad yn adrodd fod adnabod anghenion gwella iaith yn rhan o'r broses arfarnu perfformiad neu ddatblygu staff blynyddol ac roedd pob un o'r sefydliadau yn gefnogol iawn i staff wrth iddyn nhw wella eu sgiliau Cymraeg. Roedd hyfforddiant ar gael yn rhwydd i ddysgwyr yn y pum sefydliad gydag enghreifftiau yn cael eu hadrodd o unigolion yn llwyddo i ddysgu Cymraeg i wahanol lefelau o fedred.
- 9.20 Bu i'r Cyngor Llyfrau ganiatáu tri mis o secondiad ar gyflog llawn i Bennaeth Adran newydd ddysgu Cymraeg gyda thiworiaid personol yn lleol. Llwyddodd i ddysgu i lefel lle y mae'n defnyddio'r Gymraeg yn llawn bellach yn ei swydd yn y byd cyhoeddi. Byddai'r un trefniant ar gael o fewn y Llyfrgell Genedlaethol hefyd a bu i Adran Addysg a Gwasanaethau Cymunedol

Cyngor Sir Ceredigion weithredu ar hyd yr un llinellau wrth benodi tiwtoriaid personol i Bennaeth Gwasanaeth di-Gymraeg a benodwyd yn ddiweddar. Mae'r ystod lawn o gyrsiau arferol yn cael eu darparu gan Cantref hefyd. Yn wir, amcangyfrifir fod tua hanner o staff Cantref yn siaradwyr Cymraeg ail iaith.

- 9.21 Mae'r ystod o gyrsiau dysgu Cymraeg arferol ar gael yn y cyngorau sir hefyd yn ôl y gofyn ac mae'r pum sefydliad yn cynnig cyrsiau gloywi iaith i siaradwyr Cymraeg - ar lafar ac yn ysgrifenedig. Yng Ngwynedd darperir cyrsiau byr achlysurol ar bynciau megis Treiglo, Amser y Ferf, Gwallau Cyffredin a Chymraeg Clir. Mae'r Cyngor Llyfrau yn cynnig gwasanaeth tiwtor dros e-bost i aelod o staff sydd angen cryfhau ei sgiliau Cymraeg ysgrifenedig. Mae cantref yn cynnig dau gwrs gloywi iaith ysgrifenedig - un cyffredinol a ddarperir gan Goleg Addysg Bellach Lleol a darpariaeth gan wasanaeth sector preifat sydd wedi ei theilwra'n benodol i anghenion rheolwyr Cantref. Mae gan y Llyfrgell hefyd gyrsiau gloywi iaith ar gynnig i staff ar ddwy lefel. Mae Cyngor Gwynedd hefyd yn cynnig cyrsiau gloywi wedi eu teilwra yn benodol ar gyfer anghenion unedau gwasanaeth lle gellir canolbwyntio ar greu testun 'go iawn' ynghyd â dysgu termau perthnasol.
- 9.22 Mae hi'n arferiad gan Gyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ceredigion i gydnabod llwyddiannau dysgwyr llwyddiannus. Yng Ngwynedd trefnir seremoni wobrwyo blynyddol, gyda gwobrau amrywiol ar gyfer dysgwyr, mentoriaid a staff sydd wedi 'croesi'r bont'.
- 9.23 Yn ddiddorol, mae gan y Llyfrgell gynllun cymar (*work-buddie*) ar waith lle mae staff newydd nad ydynt wedi gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg cynt yn cael eu paru gydag aelod o staff profiadol er mwyn hwyluso'r broses anwytho. Yng Ngwynedd roedd cynllun mentora ar gael ar gyfer dysgwyr y Gymraeg ynghyd â gwasanaeth gwirio iaith ar eu cyfer. Roedd digwyddiad '*speed-dating*' wedi ei grybwyll fel ffordd bosibl o baru mentoriaid a dysgwyr ond fel rheol roedd y paru yn digwydd yn anffurfiol o fewn y gweithle.

Technoleg gwybodaeth

- 9.24 Mae sicrhau meddalwedd gwirio iaith Cymraeg yn allweddol er mwyn hwyluso defnydd o Gymraeg ysgrifenedig gan staff. Mae Cysgliad ar gael i bawb yn y Llyfrgell Genedlaethol a Thai Cantref ac mae'r Cyngor Llyfrau hefyd ar fin ehangu'r argaeledd ohono wrth ddiweddarau eu system gyfrifiadurol. Roedd cynrychiolwyr Cyngor Gwynedd hefyd o'r farn fod y meddalwedd hwn yn hanfodol. Gellir trefnu trwydded gorfforaethol ar ei gyfer gan Ganolfan Bedwyr.
- 9.25 At hynny, roedd y Llyfrgell yn nodi ei bod yn cynnig cyrsiau ECDL cyfrwng Cymraeg i'r holl staff, sy'n eu cyfarwyddo i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddefnyddio TG.
- 9.26 Yng Nghyngor Gwynedd roedd meddalwedd cof gyfieithu yn cael ei defnyddio gan staff ac roedd termau gwaith corfforaethol yn cael eu cadw ar gronfa ddata ynghyd â chyfeirio'r staff at wefan Term Cymru. Roedd y rhyngwyneb Cymraeg i feddalwedd MS hefyd yn y broses o gael ei gyflwyno.

Hyfforddiant galwedigaethol

- 9.27 Cymraeg oedd iaith gyntaf hyfforddiant galwedigaethol yng Ngwynedd, y Llyfrgell Genedlaethol a Thai Cantref gyda darpariaeth Saesneg ond yn dilyn os nad oedd hyfforddwr Cymraeg ar gael neu, yn achos Gwynedd a'r Llyfrgell, yn dilyn fel opsiwn yn sgil darparu hyfforddiant cyfrwng Cymraeg yn y lle cyntaf. Cymraeg oedd yr iaith o ddewis yn nhrefniadau hyfforddiant y Cyngor Llyfrau hefyd. Yng Ngheredigion roedd cyfrwng hyfforddiant galwedigaethol yn amrywio yn ôl nifer o ffactorau - argaeledd hyfforddwyr, y pwnc dan sylw a dewis iaith y cyfranogwyr.

Casgliadau

- 9.28 Mae'r sefydliadau uchod yn cynrychioli ystod o gyrff cyhoeddus a lledgyhoeddus yng ngorllewin Cymru sy'n gweinyddu drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog. Maen nhw'n amrywio yn ôl eu maint, eu statws cyfansoddiadol, eu daearyddiaeth a'u priod feysydd. Ar sail y cyfweiliadau a gynhaliwyd gallwn ddod i'r casgliadau cyffredinol canlynol yng nghyswllt y pum corff hyn:
- 1) Maen nhw'n gweld cynnal diwylliant gweinyddol mewnol cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yn rhan o'u cenhadaeth gorfforaethol a'u swyddogaeth fel darparwyr gwasanaethau.
 - 2) Mae'r gwerthoedd hynny yn derbyn bri a statws ar lefelau uchaf y sefydliad; ymgorfforir y gwerthoedd a'r dyheadau hynny i wahanol raddau mewn dogfennaeth polisi a rhennir y gwerthoedd a'r weledigaeth gan drwch y corff staff.
 - 3) Maen nhw'n rhannu balchder yn y ffaith eu bod yn medru cynnig cyfleoedd i'w staff i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu gwaith beunyddiol. Er enghraifft, mewn arolwg mewnol nododd 98% o staff Cantref eu bod yn falch o'r cyfle i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.
 - 4) Ar y cyfan, mae yna bolisiau recriwtio staff cadarn sy'n nodi'r angen i staff fedru'r Gymraeg hyd wahanol lefelau hyfedredd (gan gyfiawnhau hynny yn erbyn nifer o ffactorau diriaethol), polisiau sy'n cael eu cefnogi gan gefnogaeth realistig i ganiatáu staff o bob gallu ieithyddol i gyrraedd lefelau hyfedredd priodol.
 - 5) Maen nhw'n cefnogi a hwyluso staff i wella eu sgiliau Cymraeg ac i ymestyn eu defnydd o'r Gymraeg yn eu gwaith drwy weithgareddau hyfforddi amrywiol a thrwy ddarparu adnoddau pwrpasol, e.e. TG, cyfeirlyfrau iaith a chanllawiau gweithredu.
 - 6) Gellid dadlau fod y cyrff yma yn eithriadol o ran y canrannau o siaradwyr Cymraeg sy'n gweithio iddyn nhw. Diau fod sicrhau '*critical mass*' o siaradwyr Cymraeg yn gaffaeliad wrth gynnal polisi gweinyddol Cymraeg neu ddwyieithog. Fodd bynnag, nid yw cefndir a lefelau hyfedredd iaith y cyrff staff yn unffurf. Mae niferoedd uchel o siaradwyr Cymraeg ail iaith ymhlith rhai o'r cyrff yma ac mae'r ystod hyfedreddau yn eang. Nodwyd eisoes fod tua hanner staff Cantref yn siaradwyr ail iaith, gan gynnwys y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Adnoddau Dynol.
 - 7) Nid sefyllfa statig sy'n bodoli yma chwaith. Mae pob un o'r cyrff yma ar daith ddatblygol sydd wedi gweld newid yn eu harferion iaith mewnol dros

gyfnod o amser. Yn achos y Llyfrgell Genedlaethol taith yw hi o gyfeiriad gweinyddiaeth cyfrwng Saesneg, yn hanesyddol, i weinyddiaeth gyfan gwbl ddwyieithog os nad un cyfrwng Cymraeg yn unig mewn sawl achos. Mae'n daith sydd wedi cymryd rhyw 30 mlynedd, gyda'r camau brasaf, o bosibl, wedi eu cymryd dros y degawd diwethaf.

Er bod Cyngor Dosbarth Dwyfor (un o ragflaenwyr Cyngor Gwynedd) yn eithriad hanesyddol o ran y defnydd o'r Gymraeg mewn llywodraeth leol, yn gyffredinol, taith debyg mae Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ceredigion wedi ei phrofi hefyd; taith o gyfeiriad y rhagdybiaeth mai'r Saesneg yw iaith gweinyddiaeth gyhoeddus yng Nghymru. Ni ellir tan amcanu effaith y canfyddiad hanesyddol yna y bu i Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 wneud cymaint i'w thanseilio.

Yng nghyswllt Tai Cantref a'r Cyngor Llyfrau mae'r daith, os rhywbeth, i'r cyfeiriad arall. Sefydlwyd y ddau gorff yma gyda gweinyddiaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yn rhan greiddiol o'u gwerthoedd a'u gweithredu. Yr her i'r cyrff yma yn y blynyddoedd diweddar yw ymgorffori niferoedd bychain o staff di-Gymraeg i'w rhengoedd heb danseilio eu hegwyddorion craidd yn hyn o beth.

- 9.29 Mae'n amlwg, yn ôl tystiolaeth y cyrff uchod, fod cynnal gweinyddiaeth fewnol ddwyieithog yn gwbl bosibl o sicrhau'r awyrgylch, yr arweiniad, y gefnogaeth a'r adnoddau priodol. Diau y gallai nifer o gyrff eraill dysgu wrth eu harferion da. Yn sicr maen nhw'n gwneud cyfraniad cadarn i hyrwyddo amcanion *Iaith Pawb* o ran:

"...ysgogi cynnydd yn y defnydd o Gymraeg a'i hamlygrwydd ym mhob agwedd ar fywyd bob dydd, gan gynnwys gwaith..."

10.0 Datblygiadau a chymariaethau rhyngwladol o ran datblygu gweithleoedd dwyieithog

- 10.1 Er mwyn dysgu am brofiadau datblygu gweithleoedd dwyieithog mewn rhannau eraill o'r byd, casglwyd gwybodaeth trwy anfon holiadur pwrpasol at nifer o gysylltiadau tramor ac arbenigwyr mewn cynllunio iaith rhyngwladol. Cynhaliwyd cyfweiliadau ffôn dilynol gyda chynrychiolwyr o'r *Secretaria de Politica Linguistica de la Generalitat de Catalunya* (Ysgrifenyddiaeth Polisi Iaith Llywodraeth Catalwnia); *Kultur Saila, Euskadi* (Y Weinyddiaeth dros Ddiwylliant, Llywodraeth Ymreolaethol Gwlad y Basg); ac *An Roinn Gnóthaí Pobail, Tuaithe agus Gaeltachta* (Adran Materion Cymunedol, Gwledig a'r Gaeltacht) yn yr Iwerddon.
- 10.2 At hynny, buom yn adolygu cyhoeddiadau a phapurau cynadleddau rhyngwladol diweddar ym meysydd dwyieithrwydd yn y gweithle a thechnolegau iaith ac yn archwilio gwefannau sefydliadau dwyieithog rhyngwladol. Buom hefyd yn cynnal cyfweiliadau ffôn gyda datblygwyr technolegau iaith.
- 10.3 Wrth gynnal arolwg rhyngwladol, daw'n amlwg fod ymdopi â'r defnydd o fwy nag un iaith yn y gweithle yn fater sy'n berthnasol i wledydd ym mhob cyfandir. Ar y cyfan, fodd bynnag, ceir tuedd i ymdrin ag ieithoedd ar wahân

i'w gilydd yn hytrach na datblygu gweithleoedd sy'n gweithredu'n wirioneddol ddwyieithog / amlieithog.

- 10.4. Yn yr adran hon, rydym yn canolbwyntio ar brofiadau 3 gwlad sydd â phrofiadau sydd o ddiddordeb inni am wahanol resymau. Mae Catalwnia yn enghraifft o wlad lle mae'r iaith 'leiafrifol' yn cael ei defnyddio fel cyfrwng weinyddiaeth fewnol a phrif gyfrwng darparu gwasanaethau i'r cyhoedd. Y sefyllfa ieithyddol yng Ngwlad y Basg sy'n ymdebygu fwyaf i sefyllfa'r Gymraeg yng Nghymru o ran niferoedd a phatrymau dwysedd siaradwyr Basgeg a lle mae'r gwahaniaeth sylweddol rhwng cystrawen a gramadeg y Fasgeg a'r Sbaeneg yn ddrych i'r gwahaniaethau sylweddol rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Yn olaf edrychwn ar brofiadau mwy diweddar yn yr Iwerddon ym maes cynyddu defnydd mewnlol o'r Wyddeleg.

Fframwaith cyfreithiol

- 10.5 Catalaneg yw un o ddwy iaith swyddogol Catalwnia a phriod iaith y wlad. Mae Deddfwriaeth Polisi Ieithyddol 1998 yn cydnabod hawliau iaith penodol i drigolion y wlad a'r hawl i fynegi eu hunain yn y Gatalaneg ar lafar ac yn ysgrifenedig ym mhob agwedd ar ddelio â chyrff cyhoeddus. Mae'r ddeddf yn pennu'r Gatalaneg yn brif iaith weinyddol fewnol cyrff cyhoeddus ac yn sefydlu amod ar y rhelyw o weision cyhoeddus i fedru'r Gatalaneg.
- 10.6 Yng Ngwlad y Basg, mae'r Fasgeg yn un o ddwy iaith swyddogol ac yn briod iaith y wlad. Mae Siarter Ymreolaeth Gwlad y Basg 1979 yn gwarantu defnydd o'r Fasgeg a'r Sbaeneg gan sefydliadau cyhoeddus. Mae Deddf Normaleiddio Defnyddio'r Fasgeg 1982 yn hybu'r defnydd ymarferol o'r Fasgeg o fewn y Llywodraeth. At hynny, mae'r ddeddfwriaeth yn pennu hawliau ieithyddol penodol i ddinasyddion, gan gynnwys yr hawl i ddysgu a defnyddio ieithoedd swyddogol y wlad.
- 10.7 Pennwyd y Wyddeleg yn un o ieithoedd swyddogol y wlad gan gyfansoddiad Gweriniaeth yr Iwerddon ac mae Deddf Ieithoedd Swyddogol 2003 yn sefydlu hawliau sylfaenol i'r cyhoedd o ran derbyn gwasanaethau cyhoeddus drwy'r Wyddeleg ac yn gosod dyletswyddau penodol ar gyrff cyhoeddus. Mae'r Ddeddf yn galluogi'r Llywodraeth i ofyn i gyrff sectorau cyhoeddus baratoi Cynlluniau Iaith sy'n debyg i'r Cynlluniau Iaith Gymraeg a weinyddir gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Mae Cynlluniau Iaith Wyddeleg yn cwmpasu hefyd y defnydd mewnlol a wneir gan gyrff o'r Wyddeleg ac mae'n ofynnol i bob swyddfa corff cyhoeddus yn y Gaeltacht gytuno â'r Llywodraeth ar amserlen ar gyfer dod i weinyddu'n fewnol drwy gyfrwng y Wyddeleg.

Arweiniad Polisi a sefydlu gweithdrefnau

- 10.8 Gwelwyd fod gosod arweiniad polisi cadarn yn gwbl ganolog ar gyfer datblygu diwylliant iaith penodol yn y gweithle. Ym mhob achos, deillia'r arweiniad polisi yn uniongyrchol o ddeddfwriaeth gwlad.
- 10.9 Catalaneg yw iaith ddiodyn a chyfrwng gwaith y sector cyhoeddus yn ddiwahân yng Nghatalwnia. Deillia'r polisi hwnnw yn uniongyrchol o Ddeddf Polisi Iaith 1983 ynghyd â nifer o reoliadau pellach a luniwyd ers hynny. O ran cyfathrebu â'r cyhoedd, eto Catalaneg yw'r iaith ddiodyn. Datgan y Ddeddf mai ar gais penodol yn unig y dylid defnyddio'r Sbaeneg i gyfathrebu ag aelod o'r cyhoedd. Gyda dros 90% o boblogaeth Catalwnia yn medru deall Catalaneg, gellir cynnal polisi o'r fath yn gymharol ddiraffferth. Caiff

adroddiadau a chyhoeddiadau eu cynhyrchu'n ddwyieithog. Ac, yn ymarferol ac yn dibynnu ar natur gwaith y staff, ceir elfen o ddwyieithrwydd yn y gweithle cyhoeddus. Cawsom ar ddeall, yn ogystal, fod tuedd gan rai aelodau o staff i ddefnyddio'r Sbaeneg wrth daro sgwrs â'i gilydd er mai Catalaneg yw cyfrwng pob e-bost gwaith, memo, cofnod a chyfarfod gwaith ayb.

- 10.10 Yn y sector preifat yng Nghatalwnia, nid yw'n ofyniad deddfwriaethol i weithredu'n fewnol trwy gyfrwng y Gatalaneg. Serch hynny, gan fod Deddf 1983 yn rhoi dyletswydd ar gwmnïau i ymateb i hawliau unigol y cwsmer i dderbyn gwasanaeth Catalaneg, rhaid i bob cwmni ystyried goblygiadau hynny ar gyfer cynnig gwasanaeth dwyieithog. Ceir polisiâu dwyieithog cyffredinol 'dealliedig' / anffurfiol yn y sector breifat drwyddi draw. Yn ogystal, mabwysiadodd nifer fawr o gwmnïau bolisiâu ffurfiol ar gyfer gweithredu yn y Gatalaneg neu'n ddwyieithog.
- 10.11 Yng Ngwlad y Basg, gesyd y fframwaith cyfreithiol ofynion ieithyddol penodol ar y sector cyhoeddus a chaniatâ ddefnydd cynyddol o'r Fasgeg fel cyfrwng cyfathrebu yn y gweithle. Yn unol â'r fframwaith, caiff unedau penodol o fewn y weinyddiaeth gyhoeddus eu dynodi yn unedau gweithredol dwyieithog. Yn ymarferol, golyga hyn ddefnyddio'r Fasgeg ar gyfer dogfennaeth fewnol. Cawsom wybod bod y polisi yn gweithredu orau mewn ardaloedd sy'n ddwys eu canrannau o siaradwyr Basgeg.
- 10.12 Megis yng Nghymru, gweithreda cyrff cyhoeddus Gwlad y Basg 'gynlluniau iaith' sy'n gosod arweiniad polisi ar lefel strategol ac ymarferol. Yn y sector preifat, rhaid i gwmnïau a berchenogir gan gyrff cyhoeddus feddu ar gynllun iaith. Mae nifer o'r cwmnïau preifat mwyaf hefyd yn gweithredu cynlluniau iaith eu hunain.
- 10.13 Yn ôl rhai 'cynlluniau iaith', disgwylir i weision sifil fod yn gweithio trwy gyfrwng y Fasgeg. Yn yr ardaloedd mwyaf 'Basgeg' mae'n ymddangos fod yr iaith leiafrifol yn gallu bod yn unig iaith neu'n brif iaith y gweithle i nifer o weision sifil.
- 10.14 Mewn adrannau gwaith dwyieithog dynodedig mae gan yr unigolyn hawl i anfon dogfennau at adrannau eraill yn y Fasgeg. Mewn egwyddor, cyfrifoldeb y derbynnydd yw trefnu cyfieithiad o ddogfen Fasgeg nad ydynt yn ei deall. Yn ymarferol, cawsom wybod bod tuedd i'r un sy'n siarad Basgeg holi'r derbynnydd ymlaen llaw a pharatoi fersiwn dwyieithog o'r ddogfen pan fo angen.
- 10.15 Yn yr adrannau dwyieithog, diffinnir cylchdaith ar gyfer pob dogfen ('Cylchdaith Dogfen'), sy'n ystyried (i) faint o bobl fydd yn darllen y ddogfen, (ii) a yw'r ddogfen yn cael ei rhannu er gwybodaeth neu os oes rhaid gwneud penderfyniad ar sail ei chynnwys, a (iii) sawl unigolyn o fewn y gylchdaith sy'n deall y Fasgeg. Os mai un person yn unig sy'n methu deall Basgeg, bydd y ddogfen yn cael ei chreu yn y Fasgeg. Ceir arferiad o gynnig crynodeb neu esboniad yn y Sbaeneg yn ôl y galw a natur y ddogfen. Mae tuedd i staff holi eu cydweithwyr dros yr e-bost "A ellir anfon hwn yn y Fasgeg?" Gyda dewis ateb: "Gellir / Angen fersiwn dwyieithog". Daw staff i wybod pwy o fewn y sefydliad sy'n medru deall neu ddelio â dogfennau Basgeg.
- 10.16 Mewn cwmnïau preifat, ceir enghreifftiau o ddogfennau Basgeg yn cael eu cylchredeg law yn llaw â chyfarwyddiadau i esbonio ystyr y ddogfen ar lafar i staff nad ydynt yn medru'r iaith.

- 10.17 Yn yr Iwerddon, Deddf yr Ieithoedd Swydddogol 2005 sy'n gosod y fframwaith deddfwriaethol, gyda'r Cynlluniau Iaith Wyddeleg sy'n orfodol ar 650 o Gyrrff Cyhoeddus yn gosod arweiniad polisi ym mhob sefydliad. Hyd yma, 24 corff sydd wedi cwblhau eu cynlluniau ac mae 70 arall wrthi'n cael eu llunio. Gan mai diweddar iawn fu'r datblygiadau hyn, megis cychwyn y mae'r broses o sefydlu gweithdrefnau newydd i hybu defnydd mewnol o'r Wyddeleg.
- 10.18 Er bod Cynlluniau Iaith Wyddeleg yn cwmpasu'r defnydd mewnol a wneir gan gyrrff o'r Wyddeleg, hyd yma, canolbwyntir ar ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn hytrach na sicrhau fod y Wyddeleg yn dod yn iaith y gweithle. Fodd bynnag, ceir nifer o sefydliadau cyhoeddus a phreifat sydd eisoes yn gweithio'n naturiol drwy gyfrwng y Wyddeleg, megis: Foras na Gaeilge, Gaillimh le Gaeilge, a Údarás na Gaeltachta (Awdurdod Datblygu Rhanbarthol y Gaeltacht) ac *An Roinn Gnóthaí Pobail, Tuaithe agus Gaeltachta* (Adran Materion Cymunedol, Gwledig a'r Gaeltacht).
- 10.19 Yn ôl cynrychiolydd *An Roinn Gnóthaí Pobail, Tuaithe agus Gaeltachta* mae 3 prif her yn eu hwynebu o ran datblygu iaith y gweithle cyhoeddus:
- Sut i wneud yr iaith Wyddeleg yn rhan o ethos naturiol y gweithle a chael gweithle gwirioneddol ddwyieithog.
 - Datblygu gweithdrefn i alluogi staff i drafod busnes yn fewnol drwy gyfrwng y Wyddeleg (yn enwedig o un adran i'r llall e.e. Cyllid, Personél a TGCh).
 - Recriwtio staff (ar hyn o bryd gall fod yn anodd penodi staff sy'n siarad Gwyddeleg yn enwedig mewn swyddi ar lefelau is).

Gofynion iaith fel cymhwysedd i swydd

- 10.20 Mae'r ddeddfwriaeth sy'n pennu'r Gatalaneg yn brif iaith weinyddol fewnol cyrff cyhoeddus y wlad hefyd yn sefydlu amod ar y rhelyw o weision cyhoeddus i fedru'r Gatalaneg. Er mwyn cael swydd o fewn y weinyddiaeth gyhoeddus mae'n ofynnol i ymgeiswyr am swyddi lwyddo mewn arholiad Catalaneg neu arddangos tystysgrif swydddogol sy'n profi eu medrau yn yr iaith. Mae unrhyw ddyrchafiad swydd yn amodol ar fedru'r Gatalaneg yn ddigon da i gyflawni dyletswyddau'r swydd yn hyfedr drwy gyfrwng yr iaith.
- 10.21 Yng Ngwlad y Basg ceir amodau ieithyddol ar rai swyddi cyhoeddus. Datgan Erthygl 14, Deddf 10/1982 Llywodraeth Gwlad y Basg ar normaleiddio defnydd o'r iaith Fasgeg fel a ganlyn: *'the public authorities shall determine the posts for which knowledge of both languages is a requisite'*, ac at hynny *"that in the public examinations for posts where it is not a requisite the level of knowledge of official languages shall necessarily be taken into account."*²
- 10.22 Disgwylir i sefydliadau flaenoriaethu'r swyddi hynny lle mae'r cyswllt gydag aelodau o'r cyhoedd ar ei uchaf ar gyfer y dynodiad '*Basque Language Requisite*'. Pennir canran o swyddi 'Basgeg ofynnol' ym mhob corff sy'n cyfateb i'r ganran o siaradwyr Basgeg yn ardal weinyddol y corff. Yn achos pob swydd arall, mae gallu ieithyddol yn ennill pwyntiau ychwanegol, sy'n cyfuno gyda phwyntiau am gymwyseddau a phrofiadau eraill i ddylanwadu ar lwyddiant ymgeisydd i ennill swydd.

² Gardner, N. 2006 *Public sector Basque language schemes: a brief summary*.

- 10.23 Mae model Gwlad y Basg o reoli sgiliau iaith y gweithlu yn gosod camau ac amodau safonol yn y broses recriwtio a chytundebu staff, sy'n rhoi blaenoriaeth i sicrhau bod gan staff lefelau iaith priodol ar gyfer y swyddi y penodir hwy iddynt. Mae unrhyw unigolyn sydd heb y sgiliau iaith gofynnol yn arwyddo cynllun personol i ymgymryd â'r hyfforddiant angenrheidiol i ennill y sgiliau hynny. Cyfrifoldeb Swyddog Normaleiddio'r Iaith Fasgeg yw adolygu yn flynyddol gynnydd sgiliau iaith staff y corff. Er mwyn galluogi staff i ddysgu Basgeg hyd y safon sy'n ofynnol ar gyfer cyflawni eu swyddi darperir hyfforddiant ieithyddol ar eu cyfer, gyda'r hyfforddiant hwnnw wedi ei deilwra i anghenion y gweithle, hynny yw, ar sail cymwyseddau penodol o fewn fframwaith cymwyseddau'r gwasanaeth sifil.
- 10.24 Ni cheir gofynion iaith fel cymhwysedd i swydd i'r un graddau yn yr Iwerddon. Yn wahanol i Gynlluniau Iaith Cymraeg yng Nghymru, ni cheir dynodiadau 'Gwyddeleg yn ddymunol' neu 'Gwyddeleg yn Hanfodol' ar gyfer swyddi sector cyhoeddus. Serch hynny, mae dealltwriaeth o'r Wyddeleg yn hanfodol ar gyfer rhai swyddi yn y Gaeltacht. Megis gan Heddlu Gogledd Cymru, mae sgiliau iaith Gwyddeleg hefyd yn ofynnol ar gyfer mynediad i An Garda Síochána (Gwasanaeth Heddlu Cenedlaethol Iwerddon). Mae'r heddlu yn y broses o newid eu gofynion ymuno ac mae sgiliau iaith Gwyddeleg yn rhan o gwricwlwm yr heddlu.

Cefnogi staff

Gwella sgiliau iaith

- 10.25 O'i gymharu â'r cyllid ar gyfer y sector Cymraeg i Oedolion mae buddsoddiad blynyddol Gwlad y Basg a Chatalwnia yn sylweddol iawn. Yn ogystal, mae'r maes dysgu iaith a'r cyfleoedd i wella sgiliau iaith staff wedi ei strwythuro yn benodol iawn i gwrdd â gofynion sgiliau iaith y gwasanaeth sifil.
- 10.26 Yn dilyn sefydlu Llywodraeth Ymreolaethol Catalwnia gyntaf, cynigwyd nifer fawr o gyrsiau iaith i'r gweision sifil cyflogedig er mwyn datblygu eu medrau iaith i gwrdd â'r gofyn newydd arnynt i weithredu'n fewnol trwy gyfrwng y Gatalaneg. Bellach, gan fod medrau iaith Catalaneg yn orfodol ar gyfer swyddi yn y weinyddiaeth gyhoeddus, nid oes angen am hyfforddiant iaith i staff gan na phenodir oni fydd yr ymgeisydd yn meddu ar y medrau iaith gofynnol. Ceir cyrsiau arbennig ar iaith weinyddol fel rhan o'r ystod o gyrsiau'r gwasanaeth sifil.
- 10.27 Yng Ngwlad y Basg ceir darpariaeth hyfforddiant iaith sylweddol i gwrdd â gofynion am fedrau Basgeg ar gyfer y gweithle. O'i gymharu â'r cyllid ar gyfer y sector Cymraeg i Oedolion mae buddsoddiad blynyddol Gwlad y Basg o bron i £20 miliwn yn sylweddol iawn^{3,4}. Hefyd mae'r maes dysgu Basgeg a Llythrennedd Basgeg i Oedolion wedi ei strwythuro yn uniongyrchol i gwrdd â gofynion sgiliau iaith y gwasanaeth sifil.

"The language requirements system has spawned a substantial, complex, highly organised and well-funded teaching and examining operation open to all regional and local authorities, primarily involving the Basque

³ E.e. Cyllid y Rhaglen Basgeg i Oedolion ar gyfer y flwyddyn 2002-3 oedd 27 miliwn euro sef tua £16- 17 miliwn.

⁴ Azkue, J. a Perales, J. 2003 *The Teaching of Basque to Adults*; HABA www.habe.org/hn-habenet/objetivos/indice-i.htm.

*Government's civil service institute (HAEE-IVAP, responsible for selecting, training and certifying officials in all areas of competence, including Basque), its adult language teaching body (HABE) and the whole public and private language school system, as well as planners in individual institutions and substantial numbers of civil servants, the justification being that if officials did not enter public service with the requisite skills, opportunities to acquire them should be provided subsequently.*⁵

- 10.28 Yn achos penodiadau diweddar i swyddi ble mae medru defnyddio'r Fasgeg yn ofynnol, bydd sgiliau ieithyddol yr unigolyn yn addas ar gyfer gofynion ei swydd. Mae staff sydd yn gyflogedig ers tro, fodd bynnag, yn gorfod cytuno ar gynllun unigol i gynyddu eu medrau Basgeg i'r lefel sy'n ofynnol ar gyfer eu swydd. Cawsom wybod mai gwendid y gyfundrefn hon yw nad oes systemau digonol yn bodoli hyd yma i annog a chefnogi staff i roi eu sgiliau iaith newydd ar waith (gweler 5.38 am system cefnogi a weithredir gan rai adrannau gwaith). Erys yr her o geisio newid arferion iaith staff sydd yn gwella eu medrau o'r Fasgeg.
- 10.29 Megis yng Ngwlad y Basg a Chatalwnia, mae'r Iwerddon wedi adnabod yn gynnar yn y broses o weithredu ar ofynion ei deddfwriaeth iaith yr angen i fuddsoddi mewn hyfforddiant iaith sydd wedi ei deilwra yn benodol i ofynion y gweithle. Megis yng Nghymru, ceir tuedd ymhlith staff i fod yn rhy ddihyder i ddefnyddio'r Wyddeleg yn y gweithle. Cawsom wybod fod *An Roinn Gnóthaí Pobail, Tuaithe agus Gaeltachta* yn y broses o gydweithredu gyda'r prifysgolion a'r Institute of Public Administration (IPA) i drefnu darpariaeth hyfforddiant Gwyddeleg i gwrdd â gofynion y 650 corff cyhoeddus fydd yn gweithredu Cynlluniau Iaith Wyddeleg. Yn yr Iwerddon, yr IPA yw'r corff sy'n gyfrifol am ddatblygu arfer gorau ym maes gweinyddiaeth a rheolaeth gyhoeddus ac yn datblygu rhaglenni addysg a hyfforddiant sydd wedi eu teilwra i gwrdd â gofynion gweithwyr yn y sector.

Technolegau gwybodaeth a chyfathrebu

- 10.30. Yn y Gymdeithas Wybodaeth sydd ohoni chwaraeir rhan gwbl allweddol gan dechnolegau gwybodaeth a chyfathrebu. Gyda datblygiadau yn y maes yn esblygu'n gyflym ac yn ddi-dor diau fod rhaid i unrhyw iaith sydd am oroesi o fewn y gyfundrefn newydd hon fod yn rhan o'r datblygiadau hyn. At hynny, gall technolegau gwybodaeth a chyfathrebu cynnig dulliau i gefnogi rheolaeth o amrywiaeth ieithyddol yn y gweithle.
- 10.31 Mae'r sefyllfa yng Nghatalwnia yn cynnig enghraifft o wlad sydd wedi adnabod her y Gymdeithas Gwybodaeth ac wedi sicrhau, trwy ddeddfwriaeth, fod yr iaith Gatalaneg yn ganolog i ddatblygiadau TGCh. Datgan Erthygl 29 Deddf Polisi Iaith 1/1998 fod gofyn ar Lywodraeth y Generalitat i feithrin, ysgogi a hyrwyddo:
- *"The research, production and commercialization of all kinds of products in Catalan related to the language industries, such as voice recognition, automatic translation and similar systems.*

⁵ Gardner, N. 2006 *Public sector Basque language schemes: a brief summary.*

- *The production, distribution and commercialization of software in the Catalan language and the translation, if applicable, of these products into Catalan.*
 - *The presence of products and information in Catalan on the telematic information networks”.*
- 10.32 O ganlyniad i'r arweiniad polisi hwn a'r ymrwymiad ar lefel llywodraeth i fuddsoddi yn y maes, caiff defnydd o'r Gatalaneg ei normaleiddio o fewn y sector TGCh. Ceir pob math o gynnyrch yn y Gatalaneg megis gwirwyr iaith, porwyr, systemau gweithredu a meddalwedd (e.e. meddalwedd ar gyfer cledriaduron, ffonau, argraffwyr ayb). At hynny, buddsoddir yn sylweddol i sicrhau cyflenwad cyson a chyfredol o feddalwedd rhad ac am ddim yn y Gatalaneg. Golyga'r pwyslais ar sicrhau fod y Gatalaneg yn rhan o bob agwedd ar ddatblygiadau TGCh fod modd gweithredu'n ddi-rwystr yn y gweithle trwy gyfrwng y Gatalaneg.
- 10.33 Yng Ngwlad y Basg hefyd fe welir buddsoddiad sylweddol iawn mewn TGCh yn y Fasgeg. Yma caiff pob aelod o staff mewn gweithleoedd cyhoeddus a phreifat fanteisio ar amryw fathau o feddalwedd gan gynnwys gwirwyr sillafu a gramadeg, geiriaduron a thermiaduron i hwyluso'r defnydd o'r Fasgeg yn y gweithle. Yn y termiadur *Euskalterm* ceir termau cyfystyr yn y Fasgeg, Ffrangeg, Sbaeneg, Saesneg a Lladin.
- 10.34 Yn wahanol i'r tebygrwydd ieithyddol sy'n bodoli rhwng Catalaneg a Sbaeneg, mae'r amrywiadau yng nghystrawen, gramadeg a geirfa'r Fasgeg a'r Sbaeneg cystal mor wahanol â'i gilydd â'r Gymraeg a'r Saesneg. O ganlyniad, mae'r her i greu adnoddau TGCh cymaint yn anos ac yn gofyn am fuddsoddiad ychwanegol.
- 10.35 Ceir canllawiau ar gyfer ysgrifennu dogfennau Basgeg mewn ieithwedd eglur sy'n ymdebygu i ganllawiau Cymraeg Clir. At hynny, ceir arweiniad ar greu testunau dwyieithog, sydd o ganlyniadau i'r amrywiadau cystrawennol a gramadegol yn gallu peri anhawster. Rhoddir enghreifftiau o ddogfennau Basgeg a dwyieithog cyhoeddus (megis cytundebau gwaith) ar wefannau cyhoeddus i'w defnyddio neu eu haddasu. Trwy rannu'r mathau hyn o dempledi, gall sefydliadau llai megis cwmnïau neu gynghorau tref osgoi gorfod paratoi cyfieithiadau eu hunain.
- 10.36 Ar hyn o bryd yn yr Iwerddon, cymharol prin yw'r gefnogaeth TGCh sydd ar gael ar gyfer defnyddio'r Wyddeleg yn y gweithle. Serch hynny, mae nifer o adnoddau ar gael neu yn cael eu datblygu, megis y Gronfa Ddata Terminoleg Genedlaethol ar gyfer y Wyddeleg sy'n rhestru, hyd yma, dros 136,000 o dermau yn y Wyddeleg a dros 132, 000 o dermau Saesneg.

Cefnogaeth gan gydweithwyr

- 10.37 Yng Ngwlad y Basg, datblygwyd trefn gan nifer o adrannau cyhoeddus a chwmnïau preifat i gefnogi ymdrech dysgwyr i roi eu sgiliau iaith newydd ar waith fel rhan o'r Cynllun Iaith Basgeg. Yn yr achosion hyn, gwneir penderfyniad fesul tîm gwaith sut i gefnogi defnydd yr unigolyn o'r Fasgeg wedi iddi/o gwblhau'r hyfforddiant iaith. Mae'r gefnogaeth yn amrywio yn ôl anghenion yr unigolyn a natur gwaith y tîm. Gall y gefnogaeth gynnwys, ymrwymo i ysgrifennu e-byst yn y Fasgeg, darparu hyfforddiant anffurfiol, a gwirio / golygu dogfennau. Mae gweithleoedd yn amrywio yn eu defnydd o ymrwymïadau ffurfiol ac anffurfiol i ddefnyddio'r Fasgeg yn y gwaith.
- 10.38 Megis yng Nghymru, fodd bynnag, cawsom wybod bod tuedd i ystyried yr hyfforddiant iaith ynddo'i hun yn ddigon i baratoi unigolyn ar gyfer defnyddio'r Fasgeg yn y gwaith. Cawsom wybod bod angen annog pobl i ddefnyddio'r Fasgeg wrth eu gwaith gan fod canran uchel o gyflogai fyddai'n medru defnyddio'r iaith yn y gwaith petaent yn derbyn yr anogaeth a chefnogaeth briodol.

Cefnogaeth gan gyfieithwyr mewnol

- 10.39 Yng Nghatalwnia ni cheir 'cyfieithwyr' yn y modd y ceir staff sydd yn cael eu cyflogi yn bwrpasol i'r perwyl hwnnw. Yn hytrach, golyga'r gofynion ieithyddol ar weision sifil, fod pob aelod o staff yn ddigon hyddysg i fedru defnyddio'r ddwy iaith yn rhugl a chreu dogfennau Catalaneg a/neu Sbaeneg yn ôl y gofyn.
- 10.40 Y pwyslais yng Nghatalwnia yw datblygu'r dechnoleg i gyfieithu'n awtomatig. Gyda golwg ar ddatblygu amlieithrwydd o fewn y gymdeithas, datblygwyd rhaglenni cyfieithu awtomatig yng Nghatalaneg, Sbaeneg, Saesneg, Ffrangeg ac Almaeneg.
- 10.41 Yng Ngwlad y Basg, cymharol prin yw'r sefydliadau hynny sy'n cyflogi dau gyfieithydd neu ragor. Gan amlaf, y Swyddog Normaleiddio'r Fasgeg sy'n gyfrifol am waith cyfieithu a phrawf ddarllen y corff. Ceir defnydd helaeth o brawf ddarllen testunau Basgeg gan y swyddog normaleiddio neu aelodau eraill o staff y corff sy'n rhugl yn yr iaith er mwyn gwneud y defnydd mwyaf o'r Fasgeg ysgrifenedig gan staff llai hyfedr.
- 10.42 Mae system cof-cyfieithu ar gael i holl staff llywodraeth Gwlad y Basg. Mae'r gronfa ddata enfawr o destunau yn cynorthwyo staff sy'n llai hyfedr yn yr iaith i gynhyrchu dogfennau Basgeg. Mae'n debyg, fodd bynnag fod llawer o'r rhai sy'n rhugl yn y Fasgeg yn tueddu i beidio defnyddio'r adnodd hon. Mae argaeledd geiriaduron a therminolegau ar-lein i bob aelod o staff hefyd yn cynnig cefnogaeth i'r staff sy'n mentro ysgrifennu yn y Fasgeg ac yn lleihau'r ddibyniaeth ar gyfieithu ysgrifenedig.
- 10.43 Yn yr Iwerddon, ni cheir cefnogaeth cyfieithu fel y cyfryw gan nad oes gan gyrff cyhoeddus eu hunedau cyfieithu mewnol eu hunain. Ar hyn o bryd, y tuedd yw i gyrff trosglwyddo testunau i'w cyfieithu i unigolion a chwmnïau preifat.

Casgliadau

- 10.44 Mae'r gwledydd uchod yn cynrychioli enghreifftiau o gynllunio ieithyddol pwrpasol i newid arferion iaith yn y gweithle er mwyn adfer defnydd o iaith a fu'n hanesyddol waharddedig o weinyddiaeth gyhoeddus y wlad yn ôl i'r swyddogaeth honno. Maent yn cynnig tri model tra gwahanol i'r sefyllfa sydd ohoni ar hyn o bryd yng Nghymru. Ac eto, wrth ystyried sut orau i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, amlyga'r enghreifftiau nifer o egwyddorion sylfaenol:
1. Dibynna defnydd helaeth a safonol o iaith leiafrifol yn y gweithle ar fframwaith cyfreithiol sy'n gosod gofynion ar sefydliadau cyhoeddus i weithredu'n fewnol yn yr iaith leiafrifol ac yn sefydlu'r hawl i unigolion ddefnyddio'r iaith yn y gwaith.
 2. Mae deddfwriaeth sy'n gosod amodau iaith ar swyddi sector cyhoeddus yn creu cyfundrefn ble caiff cymwyseddau iaith ar gyfer swyddi eu safoni ar draws y sector.
 3. Amlyga hyn yn ei dro'r angen i lunio ystod o gymwysterau iaith a chyrsgiau gweinyddiaeth priodol a safonol i gwrdd â gofynion gweithredu yn gwbl hyfedr yn yr iaith / ieithoedd penodedig.
 4. Mae deddfwriaeth neu bolisi sy'n gosod gofynion iaith ar swyddi yn golygu darparu hyfforddiant iaith priodol ac ymarferol i alluogi cyflogai i gynyddu eu sgiliau iaith presennol i gwrdd â gofynion newydd y gweithle.
 5. Nid yw darparu cyrsiau iaith yn unig yn ddigon i newid arferion iaith unigolion yn y gwaith. Rhaid mynd ati yn ogystal i ddatblygu dulliau o annog a chefnogi staff i ddefnyddio'r iaith a ddysgwyd. At hynny, mae angen datblygu dulliau fesul timau gwaith i ymdopi â medrau amrywiol staff.
 6. Mae datblygiadau TGCh diweddar, yn enwedig, cyfieithu peiranyddol: cof-cyfieithu, cyfieithu awtomatig, adnabyddiaeth lleferydd ar gyfer cyfieithiadau lleisiol a chyfieithu o destun i lais ac o lais i destun oll yn cynnig dulliau i alluogi unigolion gyda medrau iaith amrywiol i feithrin eu sgiliau iaith ac i gyfathrebu a chydweithio.
 7. Gan fod datblygiadau yn y maes TGCh yn digwydd yn gyflym a di-dor rhaid sicrhau'r buddsoddiad angenrheidiol i gadw cynnyrch yn yr iaith leiafrifol yn gyfredol ac arloesol.
 8. Golyga hyn ymrwymiad ar lefel llywodraethol i sicrhau fod yr iaith leiafrifol yn ganolog i ddatblygiadau TGCh y wlad.
 9. Mewn gweithleoedd sy'n gweithredu'n fewnol yn yr iaith leiafrifol gwelir rôl amlwg i gyfieithwyr gynnig cefnogaeth prawf- ddarllen a gwirio testunau.
- 10.45. Mae'n amlwg, ar dystiolaeth y gwledydd uchod fod gweinyddu'n fewnol trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog ac amlieithog yn gwbl bosibl o sicrhau'r gefnogaeth ddeddfwriaethol a'r buddsoddiad ym meysydd addysg a hyfforddiant Cymraeg a TGCh. Gwelir angen i gryfhau deddfwriaeth ar yr iaith Gymraeg i gynnwys disgwyl ar sefydliadau cyhoeddus i weinyddu'n fewnol trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn achos cymwyseddau iaith, rhaid teilwra

hyfforddiant a chymwysterau Cymraeg i gwrdd â gofynion gweinyddiaeth gyhoeddus. Ym maes TGCh, rhaid buddsoddi'n helaeth mewn datblygiadau newydd er mwyn cadw'r cynnyrch sydd ar gael eisoes yn y Gymraeg yn gyfredol ac arloesol, gan sicrhau ei fod ar gael i bawb yn y gweithle. Dylid blaenoriaethu, yn ogystal, buddsoddiad mewn cyfieithu peirianyddol.

11.0 Ystyriaeth o elfennau perthnasol mewn tri maes allweddol - recriwtio, hyfforddiant, a TG

- 11.1. Yn gefndir ac yn gyd-destun i waith y prosiect hwn y mae amryw o ddatblygiadau allweddol ym maes gweithredu cynlluniau iaith statudol. Yn benodol mae'r agweddau hynny sy'n ymwneud â chaffael, datblygu a hwyluso defnydd y Gymraeg a'r Saesneg yn arbennig o berthnasol i waith y prosiect. Trafodir isod rai ystyriaethau perthnasol ar recriwtio, hyfforddi a datblygu staff a'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth.

Recriwtio, hyfforddi a datblygu staff

- 11.2. Gellir olrhain llawer o'r datblygiadau ym maes caffael sgiliau dwyieithog i'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar baratoi a gweithredu Cynlluniau Iaith.⁶ Ymhlith y mesurau sy'n ofynnol o dan ganllawiau 8(i) ac 8(ii) disgwylir i gyrff sy'n paratoi Cynlluniau Iaith gynnwys yn eu cynlluniau

- *“Ymrwymadau i sicrhau bod gweithleoedd sydd â chyswllt â'r cyhoedd yng Nghymru yn ceisio cael digon o siaradwyr Cymraeg sydd â'r sgiliau priodol er mwyn galluogi'r gweithleoedd hynny i ddarparu gwasanaeth cyflawn drwy gyfrwng y Gymraeg.*
- *Ymrwymiad i glustnodi'r gweithleoedd a'r swyddi hynny lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol a'r rhai lle mae'n ddymunol, i glustnodi lefel y medruswydd sydd ei angen bob tro, ac i lunio disgrifiadau tîm a disgrifiadau swydd yn unol â hynny.” (tud.38)*

- 11.3. Y prif ddulliau a weithredir i gaffael y sgiliau angenrheidiol yw trwy recriwtio staff sy'n meddu ar y sgiliau sy'n ofynnol, neu hyfforddi a datblygu staff hyd y lefelau medruswydd angenrheidiol.

- 11.4. Ar fater recriwtio, mae'r canllawiau statudol yn gofyn i gyrff gynnwys yn eu Cynlluniau Iaith

- *“Ymrwymiad, pan ystyrir gallu ieithyddol yn hanfodol neu'n ddymunol ar gyfer unrhyw swydd, y bydd hyn yn cael ei ragnodi wrth recriwtio i'r swydd honno.”...*
- *Ymrwymiad i sicrhau pan fo unrhyw un nad yw'n siarad Cymraeg yn cael ei benodi i swydd lle ystyrir bod y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, bydd yn amod o gyflogaeth i ddysgu'r iaith i'r safon*

⁶ Bwrdd yr Iaith Gymraeg (1996). *Cynlluniau Iaith Gymraeg – eu paratoi a'u cymeradwyo yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993*. Caerdydd : Bwrdd yr Iaith Gymraeg

angenrheidiol o fewn cyfnod rhesymol a gytunwyd arno, gyda chefnogaeth lawn y sefydliad.” (tud.41).

- 11.5. Ar fater hyfforddiant dysgu Cymraeg i staff, mae'r canllawiau statudol yn gofyn i gyrrff gynnwys yn eu Cynlluniau Iaith
- *“Ymrwymiad i annog aelodau o'r staff i ddysgu Cymraeg neu loywi eu Cymraeg, ac i gefnogi a galluogi'r rheiny sy'n dymuno gwneud hynny.*
 - *ymrwymiad i drefnu rhaglenni dysgu a hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar weithleoedd a swyddi sy'n bwysig i wireddiad y Cynllun.” (tud.39).*
- 11.6. O ganlyniad i'r gofynion hyn, a'r modd mae mesurau gweithredu wedi eu cynnwys mewn Cynlluniau Iaith i'r dibenion hyn, mae'r fframwaith statudol wedi sicrhau bod gan bob corff sy'n gweithredu Cynllun drefniadau a gymeradwywyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg i gaffael, hyfforddi a datblygu digon o staff dwyieithog i'w galluogi i weithredu eu Cynlluniau Iaith yn effeithiol.
- 11.7. Yn ymarferol, golyga hyn fod gan bob corff o'r fath hyn a hyn o siaradwyr Cymraeg bellach, gyda'r niferoedd a'r canrannau'n amrywio yn ôl natur gwasanaethau'r corff, proffil ieithyddol yr ardal a/neu natur y cyhoedd neu'r defnyddwyr a wasanaethir ganddo, a natur ymrwymadau ei Gynllun Iaith.
- 11.8. Trwy sicrhau staff dwyieithog i ddibenion darparu gwasanaethau dwyieithog, crëwyd hefyd, yn anuniongyrchol, botensial i bob corff sy'n gweithredu Cynllun Iaith feithrin a hybu defnydd y Gymraeg yn y gweithle, a hynny y tu hwnt i ofynion y cyswllt â'r cyhoedd yn unig (sef prif bwyslais Cynlluniau Iaith).
- 11.9. I hwyluso cynyddu defnydd y Gymraeg mewn gweithleoedd trwy ddulliau cysylltiedig â recriwtio, hyfforddi a datblygu staff, mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi hybu sawl datblygiad a thuedd ac wedi noddi prosiectau penodol hefyd i'r diben hwn. Gellir cael gwybodaeth fanylach am waith y Bwrdd yn y maes hwn o'i wefan gyhoeddus, sef <http://www.bwrdd-yr-iaith.org.uk> Nodir isod rai elfennau yn unig o'r gwaith hwnnw.
- 11.10. Ers rhai blynyddoedd, wrth gyd-drafod â chyrrff perthnasol gyda golwg ar gytuno a chymeradwyo fersiynau diwygiedig o'u Cynlluniau Iaith, mae'r Bwrdd wedi bod yn eu hannog i gynnwys mesurau i gryfhau defnydd mewnol y Gymraeg. Un enghraifft o hyn yw'r anogaeth a roddir gan y Bwrdd i gyrrff leihau dibyniaeth eu staff ar wasanaethau cyfieithu i gynhyrchu testunau Cymraeg. Dadl y Bwrdd, a honno'n ddadl a dderbynnir yn gynyddol bellach, yw bod cynyddu defnydd mewnol o'r Gymraeg gan staff yn fodd i feithrin unedau busnes dwyieithog hyfyw nad ydynt yn ddibynnol ar unedau busnes eraill i allu cyfathrebu'n ddwyieithog mewn modd effeithiol, effeithlon a phroffesiynol.
- 11.11. Yn ogystal mae'r Bwrdd yn parhau i roi arweiniad ar arferion da trwy gyfrwng ei gylchlythyrau cynghori, a thrwy ei ymweliadau monitro a gwerthuso gweithrediad, a'i ymatebion ysgrifenedig i adroddiadau monitro.
- 11.12. Er mwyn casglu a chrynhai arweiniad sylweddol i gyrrff cyhoeddus ar gaffael, datblygu a rheoli adnoddau sgiliau iaith, comisiynodd y Bwrdd Gwmni Iaith i ymgymryd yn 2005-06 â'r Prosiect Sgiliau Dwyieithog ar ei ran. Roedd gwaith y prosiect yn cynnwys ymchwilio, dadansoddi ac adrodd ar amrediad o

arferion da a arddelir gan nifer o gyrrff cyhoeddus yng Nghymru i reoli Sgiliau Dwyieithog gweithluoedd. Roedd elfen ymchwiliol y gwaith yn cynnwys casglu tystiolaeth am arferion da ym meysydd megis pennu gofynion ieithyddol swyddi; asesu a chofnodi recriwtio, dethol a phenodi staff; hyfforddi a datblygu staff. Bydd fersiwn o'r adroddiad terfynol ar gael gan y Bwrdd i gyflogwyr yn 2007 fel adnodd i'w cynorthwyo i adnabod ac arddel arferion da. Yn ei dro, bydd gwella arferion ynghylch caffael, datblygu a rheoli adnoddau sgiliau iaith yn fodd i osod sylfaen gref ar gyfer cynyddu'r Gymraeg mewn gweithleoedd fel y disgrifir yn y diffiniad yn adran 3.0. uchod.

- 11.13. Adnodd sylweddol arall a ddatblygir gan y Bwrdd ac a fydd yn ategu gwaith y prosiect hwn fydd ffrwyth Prosiect Hyder 3 - Hyder ar lafar, a ddatblygir yn 2007. Yn ôl briff y Bwrdd, bwriad y prosiect hwn yw *'darparu pecyn, a fydd ar gael yn bennaf i'w rannu i gyrrff cyhoeddus a chyrrff eraill sy'n gweithio neu'n dymuno gweithio'n ddwyieithog er mwyn cefnogi eu staff sy'n medru siarad y Gymraeg ond sy'n brin o hyder wrth wneud hynny ar lafar mewn amgylchiadau ffurfiol yn y gweithle lle byddant yn trafod eu gwaith. Gall y pecyn fod ar ffurf adnodd papur, fideo, sain neu gyfrifiadurol. (...) Bydd yr adnodd yn gymorth i godi hyder pobl wrth ddefnyddio'r Gymraeg ar lafar pan fyddant yn trafod eu gwaith mewn amgylchiadau swyddogol, megis wrth annerch pobl, wrth dderbyn neu gynnig hyfforddiant neu wrth rannu gwybodaeth mewn cyfarfodydd, gweithdai, seminarau a chynadleddau.'* Anelir y pecyn *'at ddefnydd pobl sydd eisoes yn medru'r Gymraeg, ac sydd efallai wedi derbyn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg, ond sy'n anghyfarwydd â'i defnyddio ar lafar yn y gweithle, ac sydd felly yn ansicr wrth wneud hynny. At hynny, efallai nad ydynt yn cael llawer o gyfle i'w defnyddio y tu allan i'r gwaith'*.
- 11.14. Gan fod hyfforddi a datblygu staff, cynyddu hyder siaradwyr Cymraeg a dysgwyr hwyluso defnydd y Gymraeg yn elfennau mor allweddol o'r modd y bydd cyrrff yn sicrhau bod ganddynt y sgiliau iaith angenrheidiol, mae'r Bwrdd wedi rhoi cryn sylw i'r agweddau hyn.
- 11.15. Cyhoeddodd lawlyfr, Hyfforddiant Cymraeg yn y Gweithle : Canllawiau (dim dyddiad / 2001??), i *'roi canllawiau a chynghor ymarferol i gyflogwyr – boed hwy o'r sectorau cyhoeddus, preifat neu wirfoddol – ynglŷn â sut mae adnabod, trefnu a blaenoriaethu hyfforddiant iaith Gymraeg fydd yn ateb eu hanghenion hwy'* (tud.2).
- 11.16. Parhaodd i hyrwyddo deunyddiau *laith Gwaith*, yn fathodynau i staff, posteri, glynion a mathau eraill o ddeunyddiau, i hysbysu defnyddwyr pa aelodau o'r staff sy'n siaradwyr Cymraeg a lle mae gwasanaethau dwyieithog ar gael.
- 11.17. Mae Canllawiau Dylunio Dwyieithog y Bwrdd (argraffiad 2001) yn rhoi arweiniad ar gynnwys y defnydd o destunau Cymraeg mewn dogfennau, cyhoeddiadau ac arwyddion dwyieithog.
- 11.18. I hwyluso defnyddio Cymraeg llafar ar y lefel fwyaf elfennol, cyhoeddodd y cryno-ddisg *Swnio'n Dda / Sounds Good* (2006) i roi arweiniad ar sut i ynganu enwau Cymraeg, ychydig o eirfa Gymraeg seml ac ymadroddion syml. Gall y CD fod yn ddefnyddiol o ran meithrin yr arferiad o roi cyfarchion syml yn Gymraeg yn y gweithle, a chynyddu'r arfer o ddefnyddio enwau llefydd Cymraeg er enghraifft.

Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu

- 11.19. Mae cyfran helaeth iawn o ddefnydd iaith yn y gweithle cyfoes yn digwydd bellach trwy gyfrwng technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Yn ei ddogfen bolisi strategol, *laith Pawb*, galwodd Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol am strategaeth technoleg gwybodaeth i gyfrannu at y nod o greu 'cenedl wirioneddol ddwyieithog'. Ymatebodd Bwrdd yr Iaith i'r alwad honno drwy gyhoeddi yn 2006 Technoleg Gwybodaeth a'r Iaith Gymraeg: Dogfen Strategaeth. Mae'r ddogfen honno'n cynnwys (ar dud.4) nifer o dargedau a datganiadau polisi i integreiddio a normaleiddio defnydd y Gymraeg ym myd TG.
- 11.20. Yn y cyhoeddiad hwnnw nodwyd bod angen canllawiau technegol manwl ar gyfer cyfrifiadura dwyieithog, a dyna a geir yn y ddogfen Canllawiau a Safonau Meddalwedd Ddwyieithog a gyhoeddwyd gan y Bwrdd yn 2006. Aneir y ddogfen hon at dair cynulleidfa, sef:
- *'datblygwyr sy'n cynhyrchu rhaglenni meddalwedd (gan gynnwys gwefannau) i'w defnyddio yng Nghymru neu raglenni y bydd siaradwyr Cymraeg o bosib yn eu defnyddio (...)*
 - *unrhyw unigolyn sy'n ymwneud â llunio manylebau neu â chaffael rhaglenni meddalwedd a ddefnyddir o fewn ffiniau Cymru neu gan siaradwyr Cymraeg (...)*
 - *llunwyr polisi a swyddogion cydymffurfio (...)* (tud.7).
- 11.21. Yn y dogfennau uchod cyflwynir gwybodaeth fanwl am amryw o ddatblygiadau arwyddocaol parthed defnydd y Gymraeg ym maes TG. Nid yw gofod yn caniatáu ymhelaethu arnynt yma, ond nodwn isod rai o'r prif ddatblygiadau a fydd yn ddefnyddiol iawn wrth gynyddu defnydd y Gymraeg yn y peuoedd a drafodir yn yr adroddiad hwn.
- 11.22. Creodd y Bwrdd raglen brawf ar-sgrîn y 'Ganolfan Rheoli Iaith' sydd ar gael yn rhad ac am ddim i ddefnyddwyr cyfrifiaduron. Gyda chymorth y rhaglen gellir dewis y Gymraeg fel iaith rhyngwyneb ar gyfer Windows XP ac Office 2003. Cyflwynir hefyd tiwtorial ar ffurf cyflwyniad 'PowerPoint' ar sut mae teipio acenion a gwirio sillafu Cymraeg.
- 11.23. Mae dulliau TG o hwyluso gwaith cyfieithu yn faes arall sy'n sicr o gyfrannu'n sylweddol at hwyluso gweithio'n ddwyieithog, a thros y blynyddoedd diwethaf datblygwyd nifer o raglenni 'cof cyfieithu' i hwyluso gwaith cyfieithu ailadroddus. Ceir disgrifiad llawn yn nogfen strategaeth y Bwrdd o nodweddion meddalwedd cof cyfieithu. Trafodir rhai agweddau ar gymwysiadau cyfieithu cyfrifiadurol ar ddiwedd adran 9.0 uchod wrth gymharu sefyllfa Cymru â gwledydd eraill.
- 11.24. Mathau eraill o feddalwedd ddefnyddiol iawn yw'r offer gwirio sillafu, offer gwirio gramadeg ac adnoddau geiriadurol a ddatblygwyd. Ceir gwirydd sillafu yn rhad ac am ddim Open Office, sydd ar gael ar wefan 'Meddal'. Datblygwyd hefyd, mewn cydweithrediad â Chanolfan Bedwyr, Prifysgol Bangor, becyn 'Cysgliad', sy'n cynnwys CySill, sef gwirydd gramadeg a sillafu yn Gymraeg, a'r adnodd geiriadurol 'Cysgeir'.

Rhagolygon yn y meysydd hyn

- 11.25. O'r drafodaeth uchod fe welir, wedi mwy na degawd ers cymeradwyo'r Cynlluniau Iaith statudol cyntaf, fod y cymhorthion a ddatblygwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg a'i bartneriaid amrywiol i gyrff perthnasol wedi esblygu'n fwyfwy soffistigedig a phwrpasol. Mae'r gwahanol brosiectau a noddwyd gan y Bwrdd wedi esgor ar amrediad o arfau gweithredu, dulliau parod, arweiniad a chanllawiau i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu cyrff ym meysydd recriwtio, hyfforddi a thechnoleg gwybodaeth – tri maes allweddol iawn i'r broses o ddwyieithogi gweithleoedd.
- 11.26. Wrth i wahanol adrannau'r Bwrdd feithrin mwyfwy o arbenigedd a chasglu mwyfwy o wybodaeth am y gwahanol feysydd hyn, credwn y bydd y duedd hon yn parhau, gyda'r Bwrdd /olynydd y Bwrdd a'i bartneriaid yn targedu eu hadnoddau a'u prosiectau yn fwy cysáct i ymateb i ddiffygion a gwendidau yn nulliau gweithredu cyfredol y cyrff dan sylw. O ganlyniad, gellir disgwyl y bydd unrhyw rwystrau cyfundrefnol rhag defnyddio'r ddwy iaith yn y gweithle yn parhau i gael eu lleihau a'u datrys yn raddol.
- 11.27. Yn ogystal â datblygu ymatebion mwy soffistigedig fel rhan o broses gweithredu Deddf yr Iaith 1993, bellach dylanwadir ar brosesau cynllunio iaith o gyfeiriad gwahanol, sef gofynion a disgwyliadau *Iaith Pawb*. Mynegir gweledigaeth *Iaith Pawb* yn gryno fel deisyfiad i greu '*Cymru gwbl ddwyieithog, sef gwlad lle y gall pobl ddewis byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg neu'r ddwy iaith a lle mae bodolaeth y ddwy iaith yn fater o falchder a chryfder i ni i gyd*' (tud.1).
- 11.28. Gan fod y gweithle yn lleoliad canolog i fywydau beunyddiol cyfran helaeth o boblogaeth Cymru, ni ellir gwireddu'r ymrwymiad i alluogi pobl i '*ddewis byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg neu'r ddwy iaith*' heb ddylanwadu ar y graddau y gallant wneud hynny yn eu gwaith bob dydd. Gellid disgwyl, felly, yn ôl rhesymeg *Iaith Pawb*, y bydd Llywodraeth y Cynulliad am ddylanwadu ar gyflogwyr yn y dyfodol i sicrhau dilyniant cyson a dirwystyr o gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd o ymwneud unigolyn â'i fyd gwaith. Hynny ydy, yn ychwanegol at geisio sicrhau fod cyflogai yn medru derbyn gwybodaeth gan ei gyflogwr yn y Gymraeg ac yn medru gweithio yn y Gymraeg, yr ystyrir hefyd hwyluso cyfleoedd i unigolion gymdeithasu'n anffurfiol ag eraill yn y gweithle yn y Gymraeg.
- 11.29. Ers i'r Gymraeg gael ei gosod yn bwnc craidd statudol a gorfodol yn y cwricwlwm cenedlaethol i ysgolion Cymru o 1990-91 ymlaen (yn dilyn Deddf Diwygio Addysg 1988), cafwyd cynnydd yn y nifer o ddisgyblion sy'n meddu ar sgiliau dwyieithog wrth adael yr ysgolion. Wrth reswm, mae llawer o'r bobl ifanc hyn yn ymfalchio yn eu sgiliau cyfathrebu dwyieithog a rhesymol fyddai disgwyl i niferoedd cynyddol ohonynt chwilio am gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, neu'r ddwy iaith, eu gyrfaoedd wedyn. Mae'r adran yn *Iaith Pawb* sy'n trafod maes datblygu economaidd yn cynnwys camau gweithredu i gyflawni dibenion megis '*Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg mewn busnes*' ac '*Ehangu gorwelion y gweithlu Cymraeg ei iaith ac annog defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle*'.
- 11.30. Gellid disgwyl y bydd y datblygiadau a'r dylanwadau a amlinellir uchod yn codi lefel y disgwyliadau fydd gan siaradwyr Cymraeg am gyfleoedd i ddefnyddio eu Cymraeg ym myd gwaith.

12.0 Amlinelliad o'r sefyllfa gyfreithiol

Gosod cyd-destun i'r ystyriaethau cyfreithiol

- 12.1. Mae gan bob sefydliad ei ddiwylliant neu ei 'awyrgylch' mewnol ei hun, a ddeilliodd o gyfuniad o ddylanwadau - ei swyddogaethau, ei bolisiâu, ei bersonoliaethau a'i arferion. Y dylanwadau hyn sy'n bennaf gyfrifol am y profiad a geir wrth weithio iddo. Lle ceir defnydd mwy nag un iaith, maent yn cyfuno i greu 'diwylliant ieithyddol' y sefydliad yn ogystal. Mae hyn yn wir ar draws y byd; yng nghyd-destun Cymru, mae hyn yn sicr yn wir am ddefnydd y Gymraeg a'r Saesneg yn y gweithle.
- 12.2. Yn y ddau begwn, ceir sefydliadau sy'n gweinyddu y tu ôl i'w cyswllt cwsmer yn gyfan gwbl yn Saesneg neu yn Gymraeg. Nifer weddol fechan o'r ail sydd, am fod angen i fwyafrif helaeth os nad pob un o'r personoliaethau fod yn siaradwyr Gymraeg. Ceir enghreifftiau yn adran 9.0 uchod. Yn gyffredin, defnyddir y ddwy iaith i wahanol raddau, gyda'r Saesneg am resymau ymarferol a demograffig yn brif iaith weinyddol, a'r Gymraeg – unwaith y camir yn ôl oddi wrth ddelio â'r cwsmer Cymraeg - yn iaith waith fwy achlysurol rhwng gweithwyr unigol.
- 12.3. Weithiau, mae iaith, neu ddwyieithrwydd, y gweinyddiad yn fater polisi canolog drwy benderfyniad penodol a sylfaenol. Yn aml, fodd bynnag, mae'n ganlyniad rhesymegol ac ymarferol yr amgylchiadau sy'n gyrru penderfyniadau'r gweithle. Mewn sefydliadau mawr, mae'n gallu amrywio o un rhan o'r sefydliad i'r llall yn ôl lleoliad neu swyddogaeth neu bersonoliaethau. Mewn sefyllfa 'anffurfiol' felly, dwysedd a dylanwad [e.e. statws, lleoliad] y rhai sydd am ddefnyddio'r Gymraeg sy'n penderfynu faint o ddefnydd a wneir o'r iaith honno yn fewnol mewn gwirionedd.
- 12.4. Ar unrhyw adeg felly, boed drwy benderfyniad neu esblygiad amgylchiadau, mae patrwm ieithyddol o weithredu mewnol yn bodoli mewn sefydliad. Cyn symud ymlaen at ystyriaethau ymarferol cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, dylid ystyried:
 - A oes goblygiadau cyfreithiol ym maes cyflogaeth a hawliau dynol i benderfyniadau ynglŷn â defnydd iaith neu ieithoedd mewn gweinyddiad?
 - Yn benodol, a yw cymryd camau sefydliadol i gynyddu defnydd mewnol y Gymraeg yn gyfreithlon?

Trafodir hyn drwy gymryd rhai sefyllfaoedd gweithle posibl yn awr.

Gwahardd staff rhag siarad iaith benodol gyda'i gilydd o gwbl

- 12.5. Byddai rheol lwyr a diamod o'r fath gan sefydliad neu gynrychiolydd y sefydliad [e.e. rheolwr penodol] yn tramgwyddo hawliau dynol. Gallai hefyd fod yn wahaniaethu ar sail hil os cysylltir yr iaith a waherddir â phobl o darddiad ethnig neu darddiad cenedlaethol gwahanol i weddill y gweithlu.
- 12.6. Byddai disgyblu neu ddiswyddo staff am ddefnyddio iaith waharddedig mewn amgylchiadau felly yn debygol o dramgwyddo y *Race Relations Act 1976*. Yn

yr un modd, byddai creu sefyllfa lle daw'n amhosibl iddynt aros [megis drwy aflonyddu arnynt ('harassment') neu wahaniaethu wrth ddsbarthu gwaith neu asesu perfformiad a dyrchafiad] oherwydd eu defnydd o'r iaith waharddedig yn anghyfreithlon. Mae penderfyniad achos Tribiwnlys Diwydiannol *Williams v Cowell*, er enghraifft, yn dangos hyn o ran cyflogwr yn gwahardd defnydd y Gymraeg.

- 12.7. Erbyn heddiw, mae agweddau mwy goleuedig, ynghyd â datblygiadau deddfwriaethol ac achosion blaenllaw, yn golygu mai anghyffredin yw clywed am wahardd siarad iaith.

Rheol mai un iaith yn unig a ddefnyddir yng ngweinyddiad y sefydliad er bod staff yn siarad mwy nag un iaith

- 12.8 Fel arfer, mae hwn yn benderfyniad a wneir am resymau ymarferol, megis effeithlonrwydd gweithredol (costau ac amser), sicrhau bod pawb yn deall, lleihau risg wrth gymryd penderfyniadau, a meithrin un diwylliant gweithle. Dyma bolisi llawer iawn o sefydliadau, yn enwedig yn y sector preifat lle defnyddir y Saesneg drwy'r trwch mewn gwasanaeth a gweinyddiad. Mae'n benderfyniad dealladwy, sy'n cael ei arwain gan anghenion busnes y cyflogwr yn hytrach na chymhellion gwahaniaethol neu hiliol.
- 12.9. Fel nodwyd eisoes, ceir enghreifftiau o gyrff a busnesau'n gweinyddu yn Gymraeg hefyd, gan gynnwys rhai y mae staff di-Gymraeg yn gweithio iddynt. I'r sefydliadau hyn, weithiau mae cymhelliad egwyddorol hefyd – cefnogi neu hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'i defnydd – ochr yn ochr â'r rhesymau ymarferol a geir yn arferol. Unwaith eto, nid oes unrhyw fwriad gwahaniaethol neu hiliol.
- 12.10. Os yw'r rheol iaith yn bodoli o'r cychwyn neu ers tro byd, yna mae'n debyg fod pawb a benodwyd yn gallu ymdopi â'r sefyllfa – yn gyfranogwyr goddefol os nad yn gwbl gysurus. Fodd bynnag, os yw corff presennol yn penderfynu mabwysiadu'r rheol iaith, a hynny'n golygu newid patrwm ieithyddol sefydlog y gweithle, yna, yn ogystal â pheri gofid, fe all y canlyniadau greu anhawster i rai, a hynny yn ei dro efallai yn wahaniaethol o ran ei effaith, ac yn tramgwyddo'r gyfraith.
- 12.12. Wrth fabwysiadu rheol iaith, yn ei hanfod mae'r sefydliad yn cymryd bod yr holl staff sy'n gyflogedig ar ddyddiad gwneud y penderfyniad, yn ddigon rhugl yn yr iaith weinyddu ddewisol i allu cyflawni'r tasgau gweinyddol cysylltiedig yn effeithiol. Mae'n cymryd nad ydynt o dan unrhyw anfantais a allai danseilio eu perfformiad a'u rhagolygon dyrchafiad. Os nad dyna'r sefyllfa, a bod rhai staff presennol yn mynd i gael anhawster ymdopi yn yr iaith ddewisol, yna dylai'r sefydliad dderbyn fod arno gyfrifoldeb i gymryd hynny i ystyriaeth yn ei drefniadau, ac i gynorthwyo'r staff a effeithir mewn modd priodol er mwyn ceisio dileu'r anfantais. Os na wna, fe all fod yn euog o wahaniaethu. Sylwer mai anfantais ac nid anghyfleustra sy'n cyfrif yn y cyswllt hwn.
- 12.13. Yng nghyd-destun dwyieithrwydd prif ffrwd Cymru, creiddiol i'r canfyddiad o annhegwch yw'r farn y byddai'r rheol yn rhoi mantais i siaradwyr Gymraeg ar draul eu cydweithwyr di-Gymraeg, ond mae'r un ystyriaethau yn union i'w cael wrth ymdrin â gweithwyr tramor nad ydynt yn gallu ymdopi yn y Saesneg na'r Gymraeg.

Polisi i gynyddu'n fwriadol y defnydd mewnol a wneir o'r Gymraeg

- 12.14. Hyd at yn ddiweddar, gyda rhai eithriadau, bu'r 'shifft iaith' yn y gweithle yng Nghymru yn bennaf o'r Gymraeg i'r Saesneg. Yn ogystal â lleihad yn nifer a / neu ganrannau y siaradwyr Cymraeg, cyfrannodd lefel uchel eu dwyieithrwydd a'u parodrwydd i ddefnyddio'r Saesneg, a hynny yn wyneb unieithrwydd Saesneg eu cydweithwyr, yn sylweddol at y newid. Yn allweddol i'r duedd, nid yw gweinyddu yn Saesneg yn anhawster ymarferol iddynt, tra bod gweinyddu yn Gymraeg yn peri anawsterau sylweddol i'w cydweithwyr.
- 12.15. Beth felly yw goblygiadau cyfreithiol cymryd rhai camau sefydliadol bwriadol i geisio gwrthdroi'r tuedd hwn, a chynyddu'r defnydd mewnol a wneir o'r Gymraeg, ond heb wneud rheol iaith lwyr? Yn amlwg, mae'r canlyniad yn mynd i ddibynnu ar union natur y camau hyn a'r anfantais y gallant ei hachosi. Ond yn syml, gellid rhagdybio y byddai rhai camau, megis cynnal cyfarfodydd tîm neu ddarparu hyfforddiant uniaith Gymraeg heb gyfleusterau cyfieithu yn creu anawsterau i staff di-Gymraeg a'u rhoi mewn sefyllfa anfanteisiol.
- 12.16. Byddai i'r sefydliad ragnodi'r bwriad a'r dyddiad, a chyflwyno rhaglen hyfforddiant iaith, er enghraifft, yn ffyrdd addas o gynorthwyo'r staff hynny i oresgyn eu hanfantais cyn iddo ddod yn weithredol. Byddai darparu gwasanaeth cyfieithu at alwad y staff hefyd yn gymorth yn yr un modd. A bod cyfiawnhad dros gyflwyno'r rheol, byddai'r camau hyn nid yn unig yn ddoeth o ran cynnal ewyllys da, ond hefyd yn debygol o amddiffyn y sefydliad rhag cyhuddiad o wahaniaethu. Dengys yr ychydig enghreifftiau amlwg hyn fod y goblygiadau ymarferol felly yn rhai real a sylweddol.
- 12.17. Bydd staff newydd, sy'n ymuno â'r sefydliad ar ôl i'r penderfyniad ddod i rym, mewn sefyllfa wahanol. Gellir tybio y bydd eu gallu yn yr iaith weinyddol ddewisol yn un o'r sgiliau a fesurir wrth eu cyfweld, a byddant yn ymuno â'r gweithlu gan wybod beth yw'r gofynion. Y tebygrwydd yw y bydd eu hyfedredd ieithyddol yn ddigonol i ymdopi neu ni fyddent wedi eu penodi, ac na fydd ganddynt unrhyw wrthwynebiad i'r sefyllfa. Fodd bynnag, bydd eu dyfodiad yn debygol o ychwanegu at ofid y rhai nad ydynt yn siarad Cymraeg.
- 12.18. Yn syml, felly, mae gan sefydliad berffaith hawl i gynyddu'r defnydd mewnol a wneir o'r Gymraeg, dim ond ei fod hefyd yn derbyn y cyfrifoldeb sydd ganddo i'w staff i gymryd camau ymarferol priodol i geisio unioni unrhyw sgil effaith anfanteisiol a all beri gwahaniaethu yn llygad y gyfraith.

Adran 3: Argymhellion: Iledu dylanwad y prosiect

13.0 Ystyriaeth o'r adnoddau bydd eu hangen i newid arferion mewn gwahanol sefyllfaoedd

13.1. Ar sail tystiolaeth a gasglwyd a'r profiadau a gafwyd trwy'r prosiect hwn, awgrymwn y dylai cyrff sy'n ystyried cynyddu defnydd y Gymraeg yn eu gweinyddiaeth fewnol ystyried y camau a'r mesurau canlynol wrth gynllunio i newid patrymau defnydd iaith. Mae'r camau a nodir yn dynodi proses y gellid ei haddasu gan sefydliad yn ôl ei ddiwylliant a'i arferion ei hun:

Polisi a threfniadaeth:

- Llunio polisi ar ddefnydd iaith o fewn y weinyddiaeth gan gyfeirio at y diffiniad o weithleoedd dwyieithog a gynigir yn yr adroddiad hwn.
- Ymgynghori'n eang ar y polisi hwnnw ymhlith rheolwyr, staff ac undebau.
- Cynnwys unigolion neu wasanaethau sydd i ddarparu cefnogaeth yn y cynllunio.
- Mapio arferion iaith cyfredol fel gwaelodlin a monitro cynnydd ar sail hwnnw.
- Sicrhau adnoddau hyrwyddo priodol, naill o fewn y corff ei hun neu gan gorff allanol.
- Sicrhau perchnogaeth gorfforaethol ar y datblygiad, gan gynnwys perchnogaeth cynrychiolwyr gwleidyddol lle bo hynny'n berthnasol.
- Sicrhau arweiniad o ben uchaf y gadwyn reoli, a hwnnw'n arweiniad a rydd fri ar y Gymraeg ac ar weithio'n ddwyieithog.
- Pennu cyfrifoldebau mewnol am wahanol agweddau penodol ar gyflwyno'r newidiadau.
- Ystyried llunio protocolau ar gyfer agweddau megis:
 - Cyfarfodydd mewnol
 - Anfon negeseuon e-bost
 - Gosod deunydd ar y fewnrwyd
 - Ffonio
- Mewn cyrff mwy eu maint, ystyried priodoldeb cyflwyno rhaglen dreigl fesul uned wasanaeth dros gyfnod o amser.
- Marchnata a hyrwyddo'r newid arferion yn fewnol ac yn allanol.
- Ieuo cynllun i gynyddu'r defnydd o Gymraeg yn fewnol â Strategaeth Sgiliau Dwyieithog, gan gynnwys polisiau cadarn ar recriwtio a datblygu sgiliau dwyieithog.
- Llunio, gweithredu a diweddarau'n gyson strategaeth TGCh bwrpasol. Nod strategaeth o'r fath fyddai cynllunio ar gyfer caffael, datblygu a sicrhau

defnydd effeithiol o raglenni a nwyddau TGCh fydd yn hwyluso defnydd y Gymraeg yn fewnol.

Cefnogaeth i staff

- Llunio Cynllun Gweithredu sy'n sicrhau cefnogaeth briodol i staff er newid arferion.
- Cyflwyno rhaglen hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith fel modd i osod sylfaen o wybodaeth a dealltwriaeth gyffredin i reolwyr a staff, ac er mwyn hwyluso newid patrymau defnydd iaith o fewn y sefydliad.
- Gosod meddalwedd TGCh Gymraeg briodol ynghyd â darparu hyfforddiant ar sut i'w ddefnyddio, gan roi blaenoriaeth i feddalwedd gwirio iaith ac adnodd geiriadurol ar-sgrîn.
- Hwyluso mynediad i adnoddau ar-lein defnyddiol, e.e. Term Cymru.
- Datblygu'r defnydd o dempledi dwyieithog ar gyfer ffurflenni a dogfennau at ddefnydd mewnol ac allanol a hwyluso defnydd cynyddol o feddalwedd cof gyfieithu.
- Cynnig cyrsiau amrywiol i ddysgu a gloywi iaith.
- Sefydlu cynllun mentora dysgwyr, gan gynnwys gwybodaeth gyffredinol i'r holl staff am ddulliau priodol o'i gefnogi, yn ogystal â chanllawiau a cymhorthion i ddysgwyr a mentoriaid.
- Ystyried paru unigolion dihyder eu Cymraeg gydag unigolion hyderus eu Cymraeg yn y gweithle er mwyn hwyluso cynnydd.
- Defnyddio mewnwyd y sefydliad er mwyn sefydlu canolbwynt i'r cynllun newid arferion ac adnoddau canolog.
- Sicrhau cyflenwad digonol o gymhorthion iaith priodol ar ffurf gofod penodol (e.e. 'ystafell ymarfer Cymraeg'), geiriaduron, termiaduron, gramadegau, meddalwedd dysgu ac ymarfer, cymhorthion gweledol ac ati.

Cynnal y newid

- Sicrhau cyhoeddusrwydd cyson i lwyddiannau staff wrth iddynt ddatblygu eu defnydd o'r Gymraeg.
- Sicrhau bod trafodaeth ynglŷn â datblygu sgiliau iaith yn cael ei phrifffrydio mewn cyfweiliadau cefnogi ac arfarnu staff, a gwerthusiadau o gyflawniad rheolwyr.
- Trefnu amgylchiadau mewnol i staff gymdeithasu yn y Gymraeg, e.e. ystafell y dysgwyr, Siop Siarad /cinio clonc ac ati.
- Trefnu cyfleon i staff i gymdeithasu yn y Gymraeg y tu allan i oriau gwaith.

- Sefydlu gweithgor o 'bencampwyr' priodol i arolygu cynnydd a chydlynu ymdrechion.
- Creu perthynas gefnogol â chorff sydd eisoes yn gweinyddu yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog er mwyn dysgu gwersi ymarferol a / neu berthynas fentora.

14.0. Argymhellion ehangach i'r Bwrdd ynglŷn â sut i ddatblygu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn gweithleoedd.

Canfyddiadau cyffredinol

14.1. Yn gefndir ac yn gyd-destun i'n hargymhellion i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar sut i ddatblygu'r defnydd o'r Gymraeg o fewn gweithleoedd, cynigiwn y canfyddiadau ac ystyriaethau canlynol:

- Cymaint yw grym y traddodiad o weinyddu'n gyhoeddus yn Saesneg, a'i ddylanwad ar agweddau a hyder siaradwyr Cymraeg.
- Ymagwedd gadarnhaol staff at y cyfle a gynigiwyd, eu hawydd i gynyddu'r defnydd o Gymraeg yn eu gwaith a'r modd cadarnhaol y manteisiwyd ar gyfleoedd i dderbyn hyfforddiant ac adnoddau cefnogol.
- Pwysigrwydd creu hinsawdd anogol sy'n deillio o arweiniad polisi cadarn, awyrgylch o ddathlu cynnydd, cefnogaeth ac anogaeth rheolwyr ac argaeledd mesurau cefnogol.
- Bod newid arferion iaith yn broses sensitif sy'n cymryd amser ac na ddylid ceisio ei rhuthro ynghynt na'r hyn gall y staff a'r elfennau cefnogol ddygymod ag ef yng nghyswllt eu gwaith a'u blaenoriaethau beunyddiol, eu canfyddiadau personol a'u hyder dechreuol.
- Bod angen arweiniad cadarn ar sawl lefel, gan gynnwys gweithgor ar y lefel weithredol i gydlynu blaengareddau cefnogol yn ogystal â diddordeb ac anogaeth ar y lefel rheolaethol strategol er mwyn dwyn y maen y wal.
- Mae cael ysgogydd penodol, boed yn un mewnol neu'n un allanol, hefyd o gymorth i sicrhau cynnydd.
- Rhan ganolog meddalwedd gwirio iaith ac arferion e-bostio mewnol mewn cynyddu hyder unigolion i fentro llunio testunau Cymraeg.
- Y potensial i greu diwylliant mewnol dwyieithog drwy gyfrwng gwasanaethau a gynigir i staff o ran gwasanaethau Adnoddau Dynol, gwybodaeth am bensiynau, cyhoeddusrwydd mewnol, cylch-negeseuon mewnol ar ffurf electronig neu ar bapur; bwletinau mewnol i staff; dwyieithrwydd y fewnrwyd ac ati.
- Traweffaith gadarnhaol y prosiect ar y defnydd o'r Gymraeg ym mywydau personol a theuluol rhai o'r cyfranogwyr

- Y modd y gall prosiect o'r fath gyfrannu at rymuso cyfranogwyr wrth gynyddu eu hyder a'u balchder yn eu sgiliau iaith ac yn y diwylliant Cymraeg, a'u hymdeimlad o hunaniaeth.
- Y fantais sicr o sefydlu cynllun a phrosiect penodol i sicrhau cynnydd.

Argymhellion i Fwrdd yr Iaith Gymraeg

1. Annog sefydliadau i ddatblygu datganiadau polisi ynglŷn â defnydd iaith yn y gweithle.
2. Ystyried cynnwys mesurau i ddatblygu gweinyddiaeth ddwyieithog mewn Cynlluniau Iaith wrth eu hadolygu.
3. Cydweithio â'r Cynulliad i gynnwys cynlluniau i ddatblygu gweinyddiaeth ddwyieithog mewn strategaethau prif-ffrydio, a hynny fel rhan o raglen ehangach i'w gweithredu gan gyrff y sector cyhoeddus i ymateb i *Iaith Pawb*.
4. Parhau i annog sefydliadau i fabwysiadu Strategaethau Sgiliau Iaith, a ieuo hynny gyda chynyddu'r defnydd mewnol o Gymraeg.
5. Cynnal symposiwm blynyddol o gyrff sydd yn gweinyddu'n ddwyieithog neu yn Gymraeg, neu sy'n ystyried ehangu eu defnydd mewnol o Gymraeg.
6. Cyhoeddi canllaw hwylus ar sail Adran 13 uchod fel arweiniad i gyrff sy'n ystyried ehangu eu defnydd mewnol o Gymraeg.
7. Cydweithio â Chymdeithas Cyfieithwyr Cymru i ddatblygu swyddogaeth gefnogol unedau cyfieithu yn y cyswllt hwn.
8. Cydweithio â'r Canolfannau Dysgu Cymraeg newydd i ddatblygu a hyrwyddo nifer o gyfleoedd traddodiadol a newydd i ddysgu a gloywi iaith yn y gweithle, gan roi sylw arbennig i ddatblygu trywyddau dysgu seiliedig ar ennill a datblygu cymwyseddau i ddibenion cyfathrebu mewn gweithleoedd.
9. Parhau i hyrwyddo datblygiad TG cyfrwng Cymraeg ar gyfer y gweithle, gan gydweithio â Chanolfan Bedwyr, Rhwydiaith ac eraill er mwyn ehangu argaeledd a defnydd.
10. Annog cyrff i ddarparu hyfforddiant galwedigaethol cyfrwng Cymraeg o dan eu Cynlluniau Iaith presennol.
11. Sefydlu adran 'Iaith Gwaith' ar wefan y Bwrdd fel canolbwynt i gyngor ar y pwnc o gynyddu'r defnydd o Gymraeg yn fewnol.
12. Datblygu'r cysyniad o'r 'cwsmer mewnol' gan annog cyrff cyhoeddus i ddatblygu gwasanaethau mewnol dwyieithog i'w staff, e.e. gwasanaethau adnoddau dynol, gwybodaeth am bensiynau, cyhoeddusrwydd mewnol, y fewnrwyd, cylch-negeseuon mewnol ac ati.